



Rhif: WG44302

Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)

Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mai 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Awst 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd /
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Eir ati yn yr ymgynghoriad hwn i amlinellu'r cynigion ar gyfer Bil Diogelwch Tomenni Glo (Cymru). Nod y cynigion yw sicrhau cysondeb wrth reoli, monitro a goruchwyllo tomenni glo nas defnyddir. Mae'r cynigion yn ymwneud â mesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn uniongyrchol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac a fydd hefyd, ar yr un pryd, yn sefydlu fframweithiau ar gyfer cynllunio a gweithredu is-ddeddfwriaeth.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Ar-lein

Mae'r ddogfen ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

<https://llyw.cymru/papur-gwyn-ar-diogelwch-tomenni-glo>

Ysgrifennu atom:

Y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)
Yr Is-adran Dŵr, Llifogydd a Diogelwch Tomenni Glo
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Anfon e-bost atom:

YmgynghoriadDiogelwchTomenniGlo@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Dŵr, Llifogydd a Diogelwch Tomenni Glo
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: YmgynghoriadDiogelwchTomenniGlo@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: <https://gov.wales/white-paper-coal-tip-safety>

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y byddant yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau at y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith dadansoddi ar yr ymatebion i ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwnnw ar ei rhan. Dim ond o dan contract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd arnom o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hynny'n cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata a gedwir mewn ffyrdd eraill gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdano a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelwch Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Crynodeb Gweithredol	5
Pennod 1: Rhagarweiniad	8
Y Cefndir Hanesyddol	9
Tirlithriad Tylorstown	9
Y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo	11
Adolygiad Comisiwn y Gyfraith	15
Y Rhaglen Lywodraethu	16
Diolchiadau	18
Pennod 2: Cwmpas a'r Awdurdod Goruchwyllo	19
Cwmpas	19
Yr Awdurdod Goruchwyllo	20
Strwythur Cyffredinol.....	26
Pennod 3: Cofrestr Asedau a Chofrestr Gweithwyr Proffesiynol	27
Cofrestr Asedau Genedlaethol	27
Y Cefndir – Casglu Data ers 2020	28
Tomenni Sborion Eraill	28
Diffiniad o Domen Lo	29
Y gofynion sylfaenol o ran cynnwys y gofrestr	31
Enwau Tomenni	32
Adroddiadau Hanesyddol.....	32
Cofnodi ar y Gofrestr.....	33
Diweddaru'r Gofrestr.....	34
Pwy fydd yn cael gweld y Gofrestr Asedau.....	35
Yr Hawl i Apelio.....	37
Cofrestr o Weithwyr Proffesiynol.....	37
Pennod 4: Asesu'r Peryglon.....	39
Pennod 5: Categoriaddio.....	45

Pennod 6: Clystyrau o Domenni a Chynlluniau Rheoli.....	49
Clystyrau o Domenni.....	49
Cynlluniau Rheoli.....	50
Cael Gweld Gwybodaeth.....	53
Pennod 7: Archwiliadau/Arfarniadau, Cynnal a Chadw a Chytundebau Cynnal a Chadw.....	54
Gwaith Cynnal a Chadw/Adweirio.....	60
Cytundebau Cynnal a Chadw.....	62
Gorchmynion Cynnal a Chadw Tomenni.....	64
Pennod 8: Goruchwylio, Gorfodi, Codi Tâl ac Apeliadau.....	65
Pwerau gorfodi.....	65
Pwerau codi tâl.....	69
Apeliadau.....	69
Pennod 9: Gweithgareddau ar Domenni Glo nas Defnyddir.....	71
Pennod 10: Diogelwch Tomenni a Deddfwriaeth Amgylcheddol.....	73
Geirfa.....	75
Atodiad 1: Cwestiynau.....	77
Atodiad 2: Argymhellion Comisiwn y Gyfraith.....	79
Atodiad 3: Treialon Technoleg.....	89
Atodiad 4: Dadansoddiad o'r Effaith Economaidd – Eiddo Domestig.....	92

Rhagair gan y Gweinidog

Y Gweinidog Newid Hinsawdd



Mae gan Gymru hanes balch o gloddio am lo, ac mae'r hanes hwnnw wedi helpu i fowldio'n cymdeithas, ein diwylliant a'n gwerthoedd. Helpodd meysydd glo Cymru i sbarduno'r chwyldro diwydiannol ac i sbarduno twf economaidd a newidiadau cymdeithasol digynsail ledled Prydain o ganol y 18fed Ganrif tan ddechrau'r 1900au.

Efallai mai olion mwyaf arwyddocaol a gweladwy'r diwydiant hwn yw'r niferoedd mawr o domenni sborion sy'n britho tirwedd Cymru, yn bennaf felly yng Nghymoedd y De. Mae'r meysydd glo a'r bron 2,500 o domenni a adawyd ar eu hôl yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

Ond ym mis Hydref 1966, bu trychineb, wrth i domen enfawr o sborion glo ar y llethr uwchben Aber-fan ddadsefydlogi a dymchwel ar ôl cyfnod hir o law trwm. Ysgubwyd degau o filoedd o dunelli o falurion i lawr y bryn, gan lyncu Ysgol Iau Pant-glas a lladd 144 o bobl yn y pentref – 116 ohonynt yn blant. Dangosodd y drychineb honno fod peryglon angheuol yn gallu bod yn gysylltiedig â thomenni glo os nad ydynt yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol, ac mae canlyniadau dinistriol y drychineb honno'n parhau'n graith ar yr hen gymuned lofaol hon. Ym mis Chwefror 2020, cafodd llawer o gymunedau brofiad uniongyrchol o'r difrod a'r gofid ofnadwy y mae'r newid yn yr hinsawdd yn gallu'u hachosi, pan arweiniodd glaw trwm yn ystod Stormydd Ciara, Dennis a Jorge at lifogydd mawr ledled Cymru. Gwnaeth y glaw trwm ar draws y de arwain hefyd at dirlithriad mawr ar domen lo nas defnyddir yn Nhylorstown, lle'r ysgubwyd dros 60,000 o dunelli o falurion i Afon Rhondda Fach. Wrth lwc, nid anafwyd neb ac ni chafodd difrod mawr ei wneud i eiddo a seilwaith. Fodd bynnag, effeithiodd y dyddodion silt o'r tirlithriad ar gynefinoedd yr afon, gan greu risg sylweddol o lifogydd nes i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau. Roedd tirlithriad Tylorstown yn enghraifft glir o'r risgiau posibl y mae'n cymunedau, ein hamgylchedd a'n seilwaith yn dal i'w hwynebu o ganlyniad i'r diwydiant glo yng Nghymru.

Yn ei hadroddiadau diweddaraf, mae'r Swyddfa Dywydd wedi cyhoeddi dadansoddiad sy'n dangos sut mae'n hinsawdd yn parhau i gynhesu, gan arwain at effeithiau mawr sy'n cael eu teimlo ledled y DU. Yn yr Asesiad annibynnol diweddaraf o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru (CCRA3), cydnabyddir y gallai effeithiau'r hinsawdd hefyd arwain at fwy o risg yn y dyfodol o lithriadau, tirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â hen weithgareddau cloddio.

Mae diogelu'n cymunedau wedi bod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru erioed, ac mae'n parhau'n brif flaenoriaeth iddi. Mae'r Tasglu Diogelwch Tomenni Glo, a sefydlwyd gan y Prif Weinidog yn syth ar ôl tirlithriad Tylorstown, wedi bwrw ymlaen â gwaith sy'n cynnwys casglu llawer iawn o ddata am leoliadau tomenni. Mae'r gwaith hwnnw wedi'n galluogi i archwilio'r tomenni categori uwch yn amlach, yn ogystal â threialu technolegau newydd i fonitro symudiadau tir a dŵr, a sefydlu cynllun grant newydd i roi cymorth ariannol i'r awdurdodau lleol wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ar domenni.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru ei wahodd i wneud hynny, mae Comisiwn y Gyfraith wedi edrych ar y ddeddfwriaeth bresennol ar domenni sborion nas defnyddir (Deddf Mwyngloddiau a Chwareli

(Tomenni) 1969). Daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad yn ei adroddiad, *'Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru'*, nad yw'r gyfraith bresennol yn effeithiol mwyach. Mae angen cyfundrefn reoli effeithiol er mwyn helpu i sicrhau bod tomenni'n ddiogel ac er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau i'n cymunedau ac i'r amgylchedd. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn adeiladu ar ganfyddiadau ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r cyngor a gafwyd oddi wrth ein partneriaid yn y Tasglu – yr Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrth iddynt helpu i fwrw ymlaen â'r gwaith ar ddiogelwch tomenni glo. Er bod llawer wedi'i gyflawni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gennym llawer mwy eto i'w wneud ac mae'r Papur Gwyn hwn yn gam sylweddol ymlaen o ran gwireddu'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd.

Nid yw'r costau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chloddio am lo, gan gynnwys y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwastraff mwynloddio, wedi cael eu cydnabod yn llawn hyd yma. Gan fod 40% o domenni glo Prydain yng Nghymru a chan fod llawer o'r safleoedd yn tueddu'n naturiol i ddioddef tirlithriadau, mae'n amlwg eu bod yn cael effaith anghymesur ar ein cymunedau. Ni ddylai cymunedau Cymru ysgwyddo'r gost o adfer yr olion a adawyd gan ddiwydiant glo'r DU. Mae achos clir dros ddadlau y dylai Lywodraeth y DU gynorthwyo gyda'r gwaith o adfer yr asedau hyn a adawyd gan orffennol diwydiannol y DU. Ni fanteisiwyd ar y cyfleoedd y maent yn eu cynnig a gallai buddsoddi mewn tomenni glo – llawer ohonynt mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU – esgor ar lawer o gyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, gall rhai o'n tomenni glo fod yn safleoedd plannu coed, gan gyfrannu at rwydweithiau ecolegol a gwella gallu ecosystemau i ymdopi â'r argyfwng hinsawdd. Gallai adfer rhai tomenni glo a'u haddasu at ddibenion eraill hefyd gynnig cyfleoedd i wella amwynderau cymunedol a chreu swyddi newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei gallu i osgoi'r math o drasiedi a welwyd yn Aber-fan 55 mlynedd yn ôl. Dyna pam yr ydym yn cyflwyno deddfwriaeth newydd er mwyn rhoi trefniadau cadarn a gorfodadwy ar waith ar gyfer rheoli tomenni, mynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, datblygu a defnyddio technoleg newydd i helpu i fonitro tomenni a, phan fo angen, rhoi rhaglen sylweddol ar waith i adfer tomenni yn yr hirdymor a'u haddasu at ddibenion eraill.



Julie James AS

Crynodeb Gweithredol

Ym mis Chwefror 2020, gwnaeth Stormydd Ciara, Dennis a Jorge ddangos yn glir yr effaith ddinistriol y gall llifogydd ei chael ar ein cymunedau. Roedd y tirlithriad ar domen lo nas defnyddir yn Nhylorstown yn ystod Storm Dennis yn arwydd arall o'r effaith y gall y newid yn yr hinsawdd ei chael ar olion y diwydiant glo yng Nghymru.

Cafodd Tasglu'r Prif Weinidog ar Ddiogelwch Tomenni Glo ei sefydlu'n fuan ar ôl tirlithriad Tylorstown, er mwyn bwrw ymlaen â rhaglen waith sy'n cynnwys edrych ar ba mor ddiogel yw'r tomenni glo sydd gennym ledled Cymru, eu harchwilio, a chynnal a chadw'r tomenni categori uwch. Aeth Llywodraeth Cymru ati hefyd i gynnal adolygiad polisi o'r trefniadau presennol ar gyfer cadw llygad ar ba mor ddiogel yw tomenni glo, gan gynnwys asesu pa mor effeithiol yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

Ar ôl yr adolygiad cychwynnol hwnnw, rhoddodd Gweinidogion Cymru wahoddiad i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad annibynnol o'r gyfraith ar domenni glo yng Nghymru. Gofynnwyd hefyd i Gomisiwn y Gyfraith ystyried yr opsiynau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol modern ac i argymhell system gydlynol, wedi'i safoni, a fydd yn addas at y dyfodol ar gyfer nodi, cofnodi, archwilio a chynnal tomenni glo drwy gydol eu hoes, gan nodi set gyffredinol o ddyletswyddau a mabwysiadu ffordd unffurf o asesu risg. Dechreuodd y Comisiwn ar ei adolygiad ym mis Tachwedd 2020 a chyhoeddodd ei adroddiad a'i argymhellion ar 24 Mawrth.

Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn nodi'n glir y problemau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith deddfwriaethol presennol y darperir ar ei gyfer yn Neddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969. I grynhoi, canfu Comisiwn y Gyfraith fod y gyfundrefn bresennol yn ymwneud yn bennaf â diwydiant gweithredol ac nad yw bellach yn briodol ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn adeiladu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac ar y gwaith dadansoddi ychwanegol a wnaed gennym pan oedd hynny'n briodol. Yn achos nifer o'r argymhellion sy'n ymdrin â materion technegol, mae'r Comisiwn wedi gadael hynny i Lywodraeth Cymru ac mae'r papur hwn yn adlewyrchu'n dadansoddiad a'n cynigion ni. Mae rhai o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn newydd oherwydd nad oedd Comisiwn y Gyfraith wedi ymdrin â nhw o gwbl yn ei adroddiad neu oherwydd mai dim ond yn rhannol yr oedd wedi ymdrin â nhw.

Diben y Bil

Diben y bil arfaethedig fydd sicrhau cysondeb yn y ffordd yr eir ati i reoli, monitro a chadw llygad ar domenni glo nas defnyddir. Y nod yw diogelu cymunedau, seilwaith hanfodol, a'r amgylchedd drwy gyflwyno rheolaeth briodol ar domenni er mwyn helpu i leihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau. Dyma amcanion y gyfundrefn newydd:

- Eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau;
- Ffordd gyson o weithredu wrth ymdrin â phob tomen lo a thomen sborion nas defnyddir;
- Ymateb mewn ffordd gymesur i domenni nas defnyddir oherwydd nad ydynt i gyd yr un peth;

- Rheoli tomenni nas defnyddir yn effeithiol er mwyn lleihau'r risgiau i gymunedau a'r amgylchedd.

Bydd y bil yn rhan o becyn ehangach o fesurau i wireddu'n hamcanion, ac ymhlith y camau eraill y bydd: a) Buddsoddiad cyfalaf o £44.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gynorthwyo'r awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol; b) mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti a gallu i gynnal yr archwiliadau ac i ymgymryd â'r rhaglenni cynnal a chadw rheolaidd; c) treialu technoleg a fydd yn helpu gyda'r gwaith monitro ac archwilio a d) rhaglen adfer hirdymor – i fynd i'r afael â materion hirdymor o ran sefydlogrwydd ac i fanteisio ar gyfleoedd posibl a allai ddeillio o domenni glo.

Y Cynigion

Dyma rai o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn ar gyfer cyfundrefn reoli newydd:

- Sefydlu awdurdod goruchwyllo newydd a fydd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac y bydd dyletswydd gyffredinol arno i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau bod tomenni glo'n ddiogel. Bydd y corff newydd hwn yn gyfrifol am sicrhau'r ffordd gyson o weithredu y bwriedir ei chyflwyno mewn bil ac am gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn.
- Datblygu 'Cofrestr Asedau Genedlaethol' newydd a fydd yn cynnwys yr un data ac a fydd yn gydlynol, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. Bydd hynny'n hanfodol os ydym am gyflwyno cyfundrefn reoli gyson, gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer tomenni glo nas defnyddir. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth y gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr. Er mwyn sicrhau bod y gofrestr asedau'n parhau'n gyfredol, bydd yn ofynnol i'r partïon cyfrifol ddiweddarau'r gofrestr drwy ychwanegu adroddiadau a'r cynnydd a fydd wedi'i wneud ar waith cynnal a chadw.
- Yr awdurdod goruchwyllo i oruchwyllo cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymgymryd â gwaith ar ddiogelwch tomenni – nid un proffesiwn yn unig fydd dan sylw ond sbectrwm ehangach o sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod tomenni glo'n ddiogel.
- Gofyniad i'r awdurdod goruchwyllo drefnu asesiad o'r peryglon ar bob tomen. Bydd yr asesiad o'r peryglon yn cynnwys yr holl beryglon arwyddocaol ar safle a allai achosi anaf neu niwed i eiddo, seilwaith neu'r amgylchedd.
- Mabwysiadu ffordd newydd, gyson o gategoreiddio a fydd yn seiliedig ar yr asesiad o'r peryglon ac ar yr effeithiau ar dderbynleoedd. Nod y categorïau newydd yw sicrhau cysondeb, cywirdeb a thryloywder wrth gategoreiddio pob tomen nas defnyddir.
- Yr awdurdod goruchwyllo i fapio pob clwstwr rhyngddibynnol a phob clwstwr cyfagos o domenni er mwyn penderfynu a ddylai cynllun rheoli fod yn gymwys ar lefel clwstwr.
- Yr awdurdod goruchwyllo i drefnu bod cynlluniau rheoli yn cael eu paratoi ar gyfer yr holl domenni glo nas defnyddir. Dylai'r cynllun rheoli fod yn briodol i lefel y perygl a chategori'r domen, felly rydym yn cynnig y bydd cynlluniau mwy manwl a thrylwyr yn cael eu paratoi ar gyfer tomenni statws uwch. Gan ddibynnu ar nodweddion penodol y

domen, gallai'r cynllun gynnwys datganiad am y gofynion i gynnal mathau ychwanegol o archwiliadau arbenigol – ecolegol, draenio.

- Yn ogystal ag asesiad cychwynnol o'r peryglon, rydym yn cynnig y dylid cyflwyno dull dwy haen o fonitro tomenni drwy gynnal archwiliadau ac arfarniadau – gan gysylltu pa mor aml y gwneir hynny, ac i ba raddau, â chategori'r domen. Bydd archwiliad yn wiriad syml, safonol o domen tra bydd arfarniad yn werthusiad technegol manwl a chynhwysfawr, gan gynnwys archwilio'r safle. Bydd yr arfarniad yn catalogio'r holl nodweddion yn fanwl, gan nodi'u cyflwr a gwneud sylwadau cyffredinol am y safle. Bydd penderfyniadau ar ba mor aml y dylid cynnal archwiliadau ac arfarniadau'n cael eu gwneud ar sail categori'r domen. Rydym yn cynnig bod yr awdurdod goruchwylio yn gyfrifol am bob tomen Categori 1 (categori D ar hyn o bryd), yr awdurdodau lleol am eu tomenni Categori 2 (categori C ar hyn o bryd) eu hunain ac am domenni Categori 2 sy'n eiddo preifat, a pherchnogion am domenni Categoriâu 4 a 5 (categoriâu B ac A ar hyn o bryd).
- Rydym yn cynnig mai'r partïon a fydd yn gyfrifol am yr archwiliadau a'r arolygiadau ar domenni fydd yn gyfrifol hefyd am y trefniadau cynnal a chadw. Fodd bynnag, gall yr awdurdod goruchwylio drefnu cytundebau cynnal a chadw gyda'r perchnogion, yn enwedig ar gyfer tomenni categorïau 4 a 5. Gall peidio â chydymffurfio â gorchymyn cynnal a chadw arwain at orchymyn cynnal a chadw tomen, a gall peidio â chydymffurfio â gorchymyn o'r fath arwain at drosedd ddiannod.
- Fel yr argymhellwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, rydym hefyd yn cynnig hawliau mynediad ar gyfer:
 - archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo y gwyddys amdani neu ar dir yr amheuir ei fod yn domen lo;
 - gwneud, goruchwylio neu archwilio gwaith cynnal a chadw neu waith adfer, neu gosod a monitro offer ar domen lo;
 - cael mynediad i domen lo at y dibenion uchod
- Rydym hefyd yn ceisio barn rhanddeiliaid am rôl sancsiynau sifil a'r math o weithgareddau y gellid defnyddio sancsiynau o'r fath ar eu cyfer.
- Rydym hefyd yn ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch a oes mathau o weithgareddau ar domenni y gallai fod angen eu gwahardd neu eu rheoli drwy gydsyniadau neu drwyddedau. Mae'r gweithgareddau hynny'n dod o dan dair thema: a) Tresmasu a fandaliaeth; b) Gwneud rhywbeth a allai newid cyflwr neu berfformiad domen (e.e. rhywbeth a allai ddadsefydlogi'r domen); c) Newidiadau o ran defnydd tir.
- Rydym hefyd yn gofyn a allai fod angen i'r awdurdod goruchwylio fod yn ymgynghorai statudol mewn ceisiadau datblygu pe bai'r datblygiad hwnnw'n gallu newid categori'r domen o domen statws is i un statws uwch.

Pennod 1: Rhagarweiniad

- 1.1. Eir ati yn y Papur Gwyn hwn i amlinellu'r amcanion sydd gennym er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y gyfundrefn bresennol ar gyfer tomenni glo nas defnyddir, y darperir ar ei chyfer yn Neddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 ('y Ddeddf Tomenni'). Mae'r papur yn amlinellu'r cynigion sydd gennym i gyflwyno fframwaith rheoli statudol newydd er mwyn helpu i sicrhau bod tomenni glo'n ddiogel ac i fynd i'r afael ag effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd.
- 1.2. Rydym yn gofyn eich barn am elfennau allweddol y gyfundrefn statudol newydd y bwriedir ei chyflwyno mewn deddfwriaeth sylfaenol newydd yn ystod y Senedd hon.
- 1.3. Mae'r Papur Gwyn hwn yn dilyn yr adroddiad¹ diweddar a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar 24 Mawrth. Mae'n adeiladu ar yr argymhellion a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar ôl ei adolygiad a'i bapur ymgynghori '*Rheoleiddio ar gyfer Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*'².
- 1.4. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2020, ar ôl i Weinidogion Cymru wahodd Comisiwn y Gyfraith i gynnal asesiad annibynnol o'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol ar gyfer diogelwch tomenni glo ac i ddarparu argymhellion ar gyfer bil a fyddai'n cael ei chyflwyno yn y dyfodol.
- 1.5. Ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith ar ei ganfyddiadau a'i gynigion rhwng mis Mehefin a mis Medi 2021. Canfu'r adolygiad nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â diogelwch tomenni glo, yn benodol, Deddf Tomenni 1969, yn darparu ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir mewn ffordd effeithiol.
- 1.6. Yn y papur hwn, rydym wedi defnyddio'r ymatebion o adolygiad y Comisiwn a'r argymhellion a wnaed ganddo wedyn, ac wedi gwneud rhagor o waith dadansoddi pan oedd hynny'n briodol. Yn achos nifer o'r argymhellion sy'n ymdrin â materion technegol, mae'r Comisiwn wedi gadael hynny i Lywodraeth Cymru ac mae'r papur hwn yn adlewyrchu'n dadansoddiad a'n cynigion ni. Mae rhai o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn newydd oherwydd nad oedd Comisiwn y Gyfraith wedi ymdrin â nhw o gwbl yn ei adroddiad neu oherwydd mai dim ond yn rhannol yr oedd wedi ymdrin â nhw, er enghraifft, ffurf benodol yr awdurdod goruchwyllo newydd.
- 1.7. Ategir y ddogfen hon gan Asesiad Effaith Integredig, sy'n rhoi crynodeb o effeithiau'r cynigion, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae asesiadau manylach wrthi'n cael eu cynnal er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cynigion sydd i'w gweld yn y Papur Gwyn hwn. Rydym yn bwriadu cyflwyno Bil yn ystod tymor y Senedd hon. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith Asesiad Effaith ategol gyda'i adroddiad, sy'n amlinellu ei ddadansoddiad economaidd³.

¹ Comisiwn y Gyfraith 406, 24 Mawrth 2022, [Rheoleiddio-Diogelwch-Tomennydd-Glo-yng-Nghymru-Adroddiad-Terfynol-Report-Welsh.pdf](#)

² [Templed Dogfennau Comisiwn y Gyfraith](#)

³ [Templed Asesiad Effaith](#)

Y Cefndir Hanesyddol

- 1.8. Mae pobl wedi bod yn cloddio am lo yng Nghymru ers yr Oes Efydd, ac erbyn y 15fed ganrif, roedd mwynloddiau i'w gweld ledled y wlad. Fe'u defnyddid yn bennaf mewn diwydiannau ar raddfa fach. Yn ystod yr 16eg a'r 17eg ganrif, datblygodd diwydiant allforio, a chynhyrchwyd mwy o lo. Fodd bynnag, o ganol y 19eg ganrif ymlaen, gwelwyd mwy a mwy o fwyngloddio ar raddfa fawr wrth i'r diwydiant gael ei fecaneiddio. Cyn mecaneiddio, dim ond ar raddfa fach y tynnwyd glo o'r pyllau, ond arweiniodd datblygiadau technolegol at gynnydd mawr ym maint y glo a dynnwyd. Erbyn 1913, roedd o leiaf 57 miliwn o dunelli o lo yn cael ei gynhyrchu o faes glo Cymru o fwy na 600 o fwyngloddiau⁴.
- 1.9. Arweiniodd y cynnydd yn niwydiant glo Cymru at dwf yn y boblogaeth yn y meysydd glo a'r cyffiniau, a gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd y diwydiant yn allweddol i'r Chwyldro Diwydiannol. Fodd bynnag, un o'r canlyniadau eraill oedd bod deunydd na ellid ei werthu yn cael ei roi ar domenni. Mae'r tomenni hynny'n agwedd negyddol gweladwy a ddeilliodd o weithredoedd perchnogion y pyllau glo.
- 1.10. Tan i Ddeddf Tomenni 1969 gael ei chyflwyno, nid oedd unrhyw gyfreithiau na rheoliadau ar reoli tomenni mwynloddiau a chwareli a thomenni sborion. Yng Nghymru, yn enwedig yng nghymoedd y De, cymaint oedd y cynnydd mewn mwynloddio fel y cafodd tomenni eu rhoi yn uwch i fyny'r cymoedd serth ar dirwedd a oedd yn dueddol, ac sy'n dal yn dueddol, o weld tirlithriadau naturiol, ac a oedd yn agos at y cymunedau a oedd yn prysur tyfu. Gwnaeth gweithgareddau cloddio hefyd ailddechrau rhai tirlithriadau⁵.
- 1.11. Cyflwynwyd Deddf Tomenni 1969 mewn ymateb i ddymchweliad trychinebus tomen lo weithredol yn Aber-fan ym 1966, a gipiodd 144 o fywydau –116 ohonynt yn blant. Roedd y drychineb honno'n tystio i effaith ddinistriol tirlithriad ar domen lo.
- 1.12. Cyflwynodd Deddf Tomenni 1969 gyfundrefn reoli ar gyfer pob tomen sborion (nid tomenni glo yn unig) ond fel y canfu Comisiwn y Gyfraith yn ei adolygiad, roedd y Ddeddf yn canolbwyntio ar ddiwydiant mwynloddio gweithredol a thomenni sborion gweithredol. Nid yw'n darparu cyfundrefn effeithiol ar gyfer tomenni nas defnyddir ac, erbyn hyn, mae'r mwyafrif llethol o domenni yng Nghymru yn cael eu hystyried yn rhai nas defnyddir. Bellach, nid yw Deddf Tomenni 1969 yn darparu cyfundrefn statudol ddigonol ar gyfer yr oes sydd ohoni, lle'r mae diwydiant mwynloddio bron wedi diflannu'n llwyr.

Tirlithriad Tylorstown

- 1.13. Ar 16 Chwefror 2020, arweiniodd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd at fwy o stormydd gaeafol, a gwelwyd glaw eithafol mewn rhannau o'r De. Daeth Storm Dennis yn dynn ar sodlau storm Ciara, gan ddod â glaw na welwyd ei debyg o'r blaen a'r llifogydd mwyaf difrifol a welwyd yn ardal Rhondda Cynon Taf ers y 1970au. Achosodd y glaw trwm hwnnw

⁴ BBC, Awst 2008

⁵ SP Bentley a HJ Siddle, "The evolution of landslide research in the South Wales Coalfield" (1990) 101 Trafodion Cymdeithas y Daearegwyr 47, <https://vdocuments.site/the-evolution-of-landslide-research-in-the-south-wales-coalfield.html>

nifer o fân dirlithriadau ar domenni glo nas defnyddir, ac ar ôl tirlithriad ar domen lo nas defnyddir yn Nhylorstown, gwelwyd 60,000 o dunelli o ddeunydd yn cael ei ysgubo i Afon Rhondda Fach, gan ddifrodi carthffos fudr a chladdu prif bibell ddŵr strategol o dan sawl metr o falurion. Wrth lwc, ni chafwyd unrhyw anafiadau. Amcangyfrifir bellach fod y gost o dynnu'r malurion o'r afon ac adfer y domen yn rhyw £20 miliwn. Hyd yma, mae tri o'r pedwar cam o adfer ac adweirio'r tirlithriad wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, bydd Cam 4 yn canolbwyntio ar y prif waith adweirio ar y safle.

- 1.14. Cododd y tirlithriad bryderon am ddiogelwch y tomenni glo nas defnyddir sydd gennym yma yng Nghymru a thynnodd sylw at y risgiau sy'n parhau i'n hwynebu yn sgil treftadaeth ddiwydiannol Cymru.
- 1.15. Yn syth ar ôl tirlithriad Tylorstown a chan gydnabod difrifoldeb y digwyddiad, aeth Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ati ar y cyd i gomisiynu'r Awdurdod Glo i gynnal archwiliadau o'r tir ar unwaith er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o statws yr hen asedau hyn a adawyd gan y diwydiant glo.



Ffigur 1: Miloedd o dunelli o wastraff tomen lo ar ochr y bryn ac yn yr afon yn Nhylorstown ar ôl y tirlithriad ym mis Chwefror 2020

Jack Brown, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

- 1.16. Yn fuan ar ôl y tirlithriad, sefydlodd y Prif Weinidog y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo, sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cydweithio â'r Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r awdurdodau lleol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Diben y Tasglu yw cydweithio er mwyn cyflawni rhaglen waith, gan gynnwys edrych ar domenni glo ledled Cymru i weld a ydynt yn ddiogel ai peidio a chynnal archwiliadau a gwneud gwaith cynnal a chadw ar y tomenni categori uwch. Dechreuodd Llywodraeth Cymru hefyd ar adolygiad polisi o'r trefniadau presennol ar gyfer cadw golwg ar ddiogelwch tomenni glo, gan gynnwys asesu pa mor effeithiol yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

1.17. Ym mis Rhagfyr 2020, cafwyd tirlithriad arall ar domen yn Wattstown. Er bod y tirlithriad hwnnw i'w weld ar wyneb y domen, nid achosodd unrhyw ddifrod, wrth lwc.

Y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo

- 1.18. Mae'r Tasglu wedi ymgymryd â rhaglen waith⁶ eang sy'n cynnwys meithrin gwell dealltwriaeth o faint yr her, cynnal archwiliadau a gwneud gwaith cynnal a chadw ar domenni, a chyflwyno nifer o dreialon technoleg i asesu rôl technoleg wrth ddarparu gwybodaeth am symudiadau tir a systemau dŵr.
- 1.19. Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i'r Awdurdod Glo gynnal archwiliadau ar bob tomen sydd â chategori interim o C neu D ac i gasglu data am leoliad a statws tomenni glo nas defnyddir ac am bwy sy'n berchen arnynt (gweler paragraffau 5.1 a 5.2 am esboniad o'r categorïau interim).
- 1.20. Mae'r Awdurdod Glo, gan weithio gyda'r awdurdodau lleol, wedi cynnal tri chylch o archwiliadau, gan gwblhau'r diweddaraf ym mis Chwefror 2022. Bydd cylch arall o archwiliadau ar domenni categori D yn cael ei gynnal dros yr haf yn 2022.

Rhaglen Cynnal a Chadw a Chynllun Grant

- 1.21. Mae archwiliadau o domenni yn helpu i ddangos pa waith cynnal a chadw ac adweirio y mae angen ei wneud arnynt, ac mae'r archwiliadau'n fodd hefyd i weld a yw systemau draenio wedi'u blocio neu a ydynt yn gweithio'n effeithiol ai peidio. Ddiwedd 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun grant er mwyn i'r awdurdodau lleol fedru gwneud y gwaith hwnnw, gan gynnwys gwaith adweirio ar domenni lle bu llithriadau, megis yn Nhylorstown a Wattstown (fel y dangosir yn y ffotograff). Mae'r ffotograff yn dangos bod matiau wedi'u gosod ar domen i ddiogelu'r rhan o'r llethr moel sydd wedi llithro a'i atal rhag erydu.

⁶ [Diogelwch tomenni glo | LLYW.CYMRU](#)



Ffigur 2: Geomatiau ar domen lo Wattstown Standard yn Rhondda Cynon Taf

- 1.22. Er mwyn cefnogi'r rhaglen diogelwch tomenni glo, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £44.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf i helpu'r awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw ac adweirio ar domenni glo.

Y Sefyllfa o ran Tomenni Glo

- 1.23. Ers 2020, mae'r Awdurdod Glo, yn unol â'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth am leoliad a statws tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru ac am bwy sy'n berchen arnynt. Mae wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o fapiau, cofnodion hanesyddol, ffotograffau o'r awyr a data LIDAR ac mewn rhai achosion, mae wedi cadarnhau'r data drwy ymweld â safleoedd.
- 1.24. Hyd yma, nodwyd bod 2,456 o domenni glo nas defnyddir a bod rhyw 85% ohonynt yng nghymoedd y De⁷. Mae dadansoddiad i'w weld yn Nhabl 1 o'r sefyllfa ym mhob awdurdod lleol. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddod o hyd i bob tomen, mae'r data'n parhau i gael eu hadolygu ac ni ddylid ystyried bod y cyfansymiau hynny'n derfynol. Mae'n bosibl y byddant yn newid.
- 1.25. Mae'r sefyllfa o ran pwy sy'n berchen ar domenni glo nas defnyddir yn un gymhleth. Mae gan tua 50% o'r tomenni glo nas defnyddir fwy nag un perchennog, ar yn achos rhai o'r tomenni, mae yna nifer o fuddiannau yn y tir. Gall y buddiannau hynny gynnwys cyfuniad o fuddiannau preifat a rhai cyhoeddus. Mae nifer o'r tomenni hefyd yn croesi ffiniau awdurdodau lleol.

⁷ Darparodd yr Awdurdod Glo y ffigur hwn i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2021. Mae'r set ddata hon yn un fyw ac mae'n bosibl y bydd yn newid.

- 1.26. Mae'r Awdurdod Glo wedi rhoi pob tomen mewn categori interim er mwyn penderfynu pa domenni y mae angen eu monitro agosaf. Rhoddwyd categori interim rhwng A a D i domenni, lle mai A yw'r categori isaf a D yr uchaf.
- 1.27. Nid yw categori uwch yn golygu bod unrhyw risg yn syth. Oherwydd eu maint, eu lleoliad neu eu hanes, mae tomenni categori C neu D yn cael eu harchwilio'n amlach er mwyn asesu eu cyflwr a chymryd camau i'w hadfer os oes angen.
- 1.28. Fel y dangosir yn Nhabl 1, mae cyfanswm o 327⁸ o domenni glo nas defnyddir yn y categori interim C neu D, ac mae 98% ohonynt yng nghymoedd y De. Oherwydd bod gwaith i sicrhau ansawdd y data am leoliadau yn parhau i fynd rhagddo, mae'n bosibl y bydd y ffigurau a ddarperir yn y tabl yn newid. Nid oes cofnod o unrhyw domenni glo nas defnyddir yng Ngheredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Casnewydd na Bro Morgannwg.

⁸ Dyna'r sefyllfa ar 11 Hydref 2021 [Datganiad Ysgrifenedig: Yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddiogelwch Tomenni Glo \(11 Hydref 2021\) | LLYW.CYMRU](#) a 26 Hydref 2021 [Data newydd yn dangos gwir faint problem y tomennydd glo wrth i'r Prif Weinidog apelio am gyllid newydd | LLYW.CYMRU](#) Mae'r data'n fyw ac mae'n bosibl y byddant yn newid wrth i waith sicrhau ansawdd barhau.

Tabl 1: Tomenni glo segur yng Nghymru

Awurdod Lleol						
	D	C	B	A	R*	Cyfanswm ALI
Castell-nedd Port Talbot	12	27	163	375	30	607
Rhondda Cynon Taf	23	52	95	89	44	303
Wrecsam		3	21	107	85	216
Caerffili	7	44	67	79	8	205
Abertawe		5	36	120	42	203
Torfaen	3	32	81	49	10	175
Sir Gar			58	59	53	170
Blaenau Gwent	3	11	38	66	10	128
Merthyr Tudful	14	45	30	30	1	120
Pen-y-bont ar Ogwr	5	26	27	56	4	118
Sir Y Fflint			19	40	6	65
Sir Benfro		1	6	54		61
Powys	1		18	6	3	28
Sir Fynwy	2	10	7	8		27
Caerdydd	1		10	11		22
Ynys Môn			2	6		8
Cyfanswm cyffredinol y categori	71	256	678	1155	296	2456

*R = Nawr wedi'i dynnu neu ei adeiladu drosodd

Treialon Technoleg

1.29. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido nifer o dreialon technoleg hefyd er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas posibl o fonitro tomenni penodol. Mae'r treialon yn profi technoleg:

- sy'n monitro symudiadau tir;
- sy'n asesu perfformiad tomenni o ran dŵr wyneb a dŵr daear;
- i weld a yw'n addas ar gyfer rhoi rhybudd ymlaen llaw am newidiadau i sefydlogrwydd tomenni.



Ffigur 3: Synhwyrdd Mesur Gogwydd ar domen lo yn y Rhondda Fach

- 1.30. Bydd y treialon hefyd yn darparu tystiolaeth ynghylch a allai fod yn briodol cynnwys unrhyw dechnolegau yn y gyfundrefn reoli newydd er mwyn helpu gyda'r gwaith parhaus o fonitro tomenni. Mae Atodiad 3 yn rhoi trosolwg o'r mathau gwahanol o dechnoleg sy'n cael eu treialu ar hyn o bryd.

Adolygiad Comisiwn y Gyfraith

- 1.31. Ym mis Hydref 2020, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 1965⁹, rhoddodd Gweinidogion Cymru wahoddiad i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar ddiogelwch tomenni glo.
- 1.32. Cytunodd Comisiwn y Gyfraith i edrych ar y gyfraith ar domenni glo yng Nghymru, i ystyried yr opsiynau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol modern, ac i argymhell system gydlynol, safonol a fydd yn addas at y dyfodol ar gyfer canfod, cofnodi, archwilio a chynnal a chadw tomenni glo drwy gydol eu hoes, gan nodi set gyffredinol o ddyletswyddau a mabwysiadu un ffordd o asesu risg. Dechreuodd y Comisiwn ar ei adolygiad ym mis Tachwedd 2020.
- 1.33. Bu Comisiwn y Gyfraith yn ymgynghori am ei gynigion rhwng 9 Mehefin a 10 Medi 2021. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, aeth Comisiwn y Gyfraith ati i ddadansoddi'r ymatebion a chyhoeddodd ei adroddiad i Weinidogion Cymru ar 24 Mawrth, pryd y gosododd y Gweinidogion yr adroddiad yn y Senedd.
- 1.34. Mae'r ddogfen ymgynghori¹⁰ a'r adroddiad yn nodi'n glir y problemau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith deddfwriaethol presennol y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Tomenni 1969. I grynhoi, canfu Comisiwn y Gyfraith fod y gyfundrefn bresennol wedi dyddio a bod yn rhaid ei diwygio er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag unrhyw dirlithriadau yn y dyfodol. Nododd Comisiwn y Gyfraith yn glir fod y deddfwriaeth yn ymwneud ag adeg pan oedd y diwydiant glo yn weithredol ac nad yw'n darparu fframwaith rheoli effeithiol yn yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer tomenni glo nas defnyddir. Un o'r materion allweddol yw mai dim ond cyfundrefn ganiataol y mae Deddf Tomenni 1969 yn darparu ar ei chyfer, yn benodol,

⁹ Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014

¹⁰ [Templed Dogfennau Comisiwn y Gyfraith Rheoleiddio-Diogelwch-Tomennydd-Glo-yng-Nghymru-Papur-Ymgynghori.pdf](#)

yr unig adeg y ceir defnyddio pwerau yw pan fydd yn ymddangos i awdurdod lleol fod ansefydlogrwydd yn peryglu'r cyhoedd. Mae hynny'n golygu na chaiff awdurdod lleol ymyrryd yn gynharach ar sail ragweithiol i atal risg rhag codi yn y lle cyntaf. Dyma'r problemau allweddol eraill a nodwyd:

- Nid oes unrhyw ofynion mewn deddfwriaeth i arfer cysondeb wrth fynd ati i gategoreiddio, nid oes unrhyw ofynion o ran y lefelau gofynnol o arbenigedd nac o ran arfer cysondeb wrth gynnal archwiliadau;
- Mae'r gyfundrefn bresennol yn ddiangen o gymhleth oherwydd bod system ddryslyd o hysbysiadau a gwrth-hysbysiadau yn gysylltiedig â'r pwerau a roddir i'r awdurdodau lleol mewn perthynas â pherchnogion tomenni;
- Nid oes gan yr awdurdodau lleol unrhyw bŵer i oruchwyllo gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar domenni ac nid oes ganddynt unrhyw bwerau i orfodi perchennog tomen i ymgymryd â hyd yn oed y gofynion cynnal a chadw sylfaenol er mwyn sicrhau bod tomen yn ddiogel;
- Nid yw archwiliadau a gwaith cynnal a chadw ar domenni glo nas defnyddir yn cael eu goruchwyllo na'u monitro mewn unrhyw ffordd.

1.35. Rhestrir holl argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn Atodiad 2.

Y Rhaglen Lywodraethu

1.36 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor presennol y Senedd i fynd i'r afael ag olion canrifoedd o gloddio ac i sicrhau bod tomenni glo'n ddiogel. Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu'r cyfeiriad polisi ar gyfer y bil hwnnw.

Yr Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Natur

1.37. Mae adroddiad Panel Rhynglywodraethol 2018 ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPPC), *Special Report on Global Warming of 1.5 C*, yn cyfeirio at dystiolaeth sylweddol sy'n dangos bod cynhesu byd-eang wedi arwain eisoes at lawogydd amlach, dwysach a/neu drymach mewn rhanbarthau sy'n cynnwys gogledd Ewrop, ac y bydd yn arwain at ragor o gynnydd¹¹ o'r fath.

1.38. Ym mis Ebrill 2019, Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i ddatgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd mewn ymateb i dystiolaeth ddiweddaraf yr IPCC¹².

1.39. Ym mis Gorffennaf 2021, cyfeiriodd y Swyddfa Dywydd at batrwm cynyddol o dywydd gwlypach, stormydd amlach a glawiad trymach. Oherwydd y newid yn yr hinsawdd, mae maint y glaw sy'n disgyn ar feysydd glo'r De wedi cynyddu 13% ers y 1960au, ac mae hefyd wedi symud mwy i fisoedd y gaeaf, sy'n golygu nad yw'r glaw yn cael ei wasgaru i'r un graddau drwy gydol y flwyddyn. Yr hyn sy'n gyfrifol am nifer o'r tirlithriadau ar domenni glo, megis yr un yn Nhylorstown, yw bod mwy o law yn effeithio ar y systemau draenio

¹¹ IPCC, Adroddiad Arbennig, *Global Warming of 1.5°*, Pennod 3

¹² [Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd | LLYW.CYMRU](#)

peirianyddol. Ni chafodd rhai ohonynt eu dylunio i ymdopi â'r lefelau presennol o law na'r lefelau a ragwelir.

- 1.40. Yn 2021, cydnabu'r Asesiad annibynnol o Risg Newid Hinsawdd i Gymru (CCRA3)¹³ fod posibilrwydd y byddai effeithiau'r hinsawdd yn arwain at fwy o risg yn y dyfodol o dirlithriadau ac ymsuddiant sy'n gysylltiedig â hen weithgareddau cloddio.
- 1.41. Yn ogystal ag effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar domenni nas defnyddir, mae llawer o'r 2,456 o domenni glo yng Nghymru yn darparu ecosystemau ffyniannus, ac maent hefyd yn cynnal cynefinoedd a bywyd gwyllt sydd o gryn bwysigrwydd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Byddai llithriad ar domen yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth Cymru. Drwy reoli tomenni'n well, gallwn leihau'r tebygolrwydd o lithriadau a bydd hynny, yn ei dro, yn lleihau'r risg o effeithiau ar yr ecosystemau, y cynefinoedd a'r bywyd gwyllt sy'n bodoli eisoes.

Cwmpas y Bil

- 1.42. Roedd ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith '*Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*' yn canolbwyntio ar gynigion i gyflwyno cyfundrefn reoli newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir. Fodd bynnag, roedd y papur ymgynghori yn gofyn hefyd i ymatebwyr fynegi barn ynghylch a ddylai fod modd ehangu'r fframwaith rheoleiddio a fabwysiedir ar gyfer tomenni glo i gynnwys sborion o fathau eraill o fwyngloddiau a geir yng Nghymru. Er nad oedd yn gwestiwn ymgynghori ffurfiol, dywedodd y Comisiwn fod nifer o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau am y mater hwnnw o blaid ehangu'r fframwaith i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo¹⁴. Un rheswm a roddwyd oedd y materion ymarferol posibl a allai godi pe bai dwy gyfundrefn wahanol yn cael ei defnyddio ar gyfer tomenni sborion nas defnyddir yng Nghymru, un ar gyfer tomenni glo o dan ddeddfwriaeth newydd, a Deddf Tomenni 1969 ar gyfer pob tomen nad yw'n domen lo¹⁵.
- 1.43. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i fapio lleoliad y 2,456 o domenni glo nas defnyddir sydd i'w cael ledled Cymru. Oherwydd nad oes unrhyw gofrestr asedau ganolog, oherwydd nad oes cysondeb wrth gategoreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â domen, ac oherwydd bod y darlun o ran pwy sy'n berchen ar domenni yn un cymhleth, mae'r broses honno wedi bod yn un hir. Mae nifer sylweddol uwch o domenni nad ydynt yn domenni glo yng Nghymru a gallai fod angen nifer o flynyddoedd i fapio'r tomenni hynny.
- 1.44. Rydym o'r farn na fyddai'n briodol oedi cyn cyflwyno cyfundrefn reoli newydd hyd nes y ceir tystiolaeth am niferoedd y tomenni nad ydynt yn domenni glo. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod barn rhanddeiliaid am yr angen i unrhyw gyfundrefn reoli fod yn berthnasol i bob tomen sborion nas defnyddir. Er bod y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn canolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir, byddwn yn cynnal dadansoddiad o nifer y tomenni nad ydynt yn domenni glo ac yn ceisio datblygu fframwaith a all fod yr un mor berthnasol i domenni glo ag i domenni nad ydynt yn domenni glo. Bydd hynny'n golygu y bydd modd mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys mathau eraill o domenni sborion yn y gyfundrefn newydd – mae Pennod 2 yn ymdrin â hynny.

¹³ Trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU Adroddiad Technegol: Crynodeb i Gymru, t26

¹⁴ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 12.38

¹⁵ Ibid para. 12.39

- 1.45. Er bod 'Deddf Tomenni 1969' wedi'i chyflwyno ar gyfer tomenni gweithredol, tomenni a gaewyd a thomenni nas defnyddir, mae tomenni gweithredol a thomenni a gaewyd, sef tomenni sy'n gysylltiedig â mwynglawdd gweithredol, yn cael eu rheoleiddio bellach gan Reoliadau Mwyngloddiau 2014 a Rheoliadau Chwareli 1999. Yng Nghymru, bydd nifer y tomenni glo gweithredol gryn dipyn yn is na'r holl weithfeydd mwyngloddio gweithredol. Gan mai nifer bach o'r tomenni hynny sydd ar gael, oherwydd yr amser y disgwylir iddynt barhau ac oherwydd y fframwaith deddfwriaethol presennol, rydym yn cynnig mai dim ond ar domenni nas defnyddir y dylai'r fframwaith statudol newydd ganolbwyntio.

Diolchiadau

- 1.46 Rydym am ddiolch i'n partneriaid yn y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo am eu cefnogaeth a'r cyfraniad y maent wedi'i wneud at gyflawni'r rhaglen diogelwch tomenni glo. Rydym yn ddiolchgar i'r Awdurdod Glo am ei gyfraniad wrth iddo helpu i brofi'n syniadau ar gyfer y fframweithiau rheoleiddio newydd ac am ei gyngor a'i arbenigedd technegol.

Pennod 2: Cwmpas a'r Awdurdod Goruchwyllo

Rydym yn cynnig:

- Bod y fframwaith rheoleiddio newydd yn gymwys i bob tomen lo nas defnyddir ond bod potensial i domenni nad ydynt yn domenni glo gael eu cynnwys yn raddol wrth i dystiolaeth ddod i law am niferoedd, lleoliadau a phwy sy'n berchen arnynt;
- Mai dim ond i domenni nas defnyddir ac nid i domenni gweithredol y bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn gymwys. Bydd tomenni gweithredol yn parhau i gael eu rheoleiddio gan y Rheoliadau Chwareli a'r Rheoliadau Mwyngloddiau;
- Bod awdurdod goruchwyllo newydd yn cael ei sefydlu;
- Bod yr awdurdod goruchwyllo yn Gorff Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
- Bod yr awdurdod goruchwyllo yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Cwmpas

- 2.1. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.42, rydym yn cynnig y bydd cwmpas y bil yn gymwys i domenni nas defnyddir ac na fydd yn gymwys i domenni gweithredol nac i domenni a gaeewyd fel y'u diffinnir yn Neddf Tomenni 1969. Mae hyn yn unol ag **argymhelliad 2** Comisiwn y Gyfraith – ***'Rydym yn argymhell na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn gymwys i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddi'***¹⁶.
- 2.2. Mae Rhan II o Ddeddf Tomenni 1969 yn gymwys i bob tomen sborion nas defnyddir. Gwnaethom hefyd amlinellu ym mharagraff 1.44 mai'n bwriad ar gyfer y bil yw iddo ganolbwyntio ar domenni glo nas defnyddir, ond y bydd modd hefyd ddefnyddio fframwaith y gyfundrefn newydd ar gyfer unrhyw fath o domenni sborion os bydd hynny'n briodol.
- 2.3. Ers tirlithriad Tylorstown, mae'n partneriaid, sef yr Awdurdod Glo a'r awdurdodau lleol, wedi bod wrthi'n nodi tomenni glo nas defnyddir ledled Cymru. Gan nad oes cronfa ddata ganolog ar hyn o bryd, mae'r gwaith hwnnw wedi cymryd cryn amser oherwydd bod angen mynd ati'n ofalus i asesu ffiniau, perchenogaeth a statws.
- 2.4. Mae bron 2,500 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru ond ein hamcangyfrif cychwynnol yw bod yma lawer mwy o domenni nad ydynt yn domenni glo. Byddwn yn edrych ar ffyrdd priodol o gasglu gwybodaeth am domenni nad ydynt yn domenni glo, a gallai'r gwaith hwnnw gymryd sawl blwyddyn. Bydd yn rhoi gwybodaeth fanylach inni am domenni nad ydynt yn domenni glo er mwyn inni fedru cynnal asesiad llawn o'r anghenion penodol sy'n gysylltiedig â thomenni nad ydynt yn domenni glo cyn ychwanegu'r wybodaeth honno at y gofrestr genedlaethol arfaethedig (gweler Pennod 3) yn y dyfodol.
- 2.5. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnig y dylai'r gyfundrefn newydd fod yn gymwys i domenni a fydd ar y gofrestr asedau newydd. Bydd hynny'n golygu y bydd gofyn i'r corff goruchwyllo gynnal archwiliad cychwynnol ac asesiad risg o'r tomenni a fydd ar y gofrestr a darparu ar

¹⁶ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 1.70

gyfer paratoi cynllun rheoli¹⁷. Ar hyn o bryd, nid yw maint yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn rhoi tomen ar y gofrestr ar gael ar gyfer tomenni nad ydynt yn domenni glo ac, oherwydd bod cynifer ohonynt, bydd angen gwneud llawer iawn o waith i gasglu a sicrhau ansawdd y data perthnasol.

2.6. Rydym yn cydnabod y sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ynglŷn ag ehangu'r gyfundrefn i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo, a byddwn yn ystyried y safbwyntiau hynny unwaith y bydd set ddata o domenni nad ydynt yn domenni glo wedi cael ei chasglu. Yn ystod yr asesiad hwnnw, bwriedir mynd ati hefyd i ystyried y peryglon penodol sy'n gysylltiedig â thomenni nad ydynt yn domenni glo ac i ystyried a yw holl elfennau'r gyfundrefn arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn yn briodol ar eu cyfer.

2.7. Er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn cyflwyno cyfundrefn newydd, rydym yn cynnig:

- Y bydd y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn yn darparu fframwaith cyffredinol a all fod yn addas ar gyfer tomenni glo a thomenni eraill nas defnyddir;
- Y dylid casglu a sicrhau ansawdd data am leoliad a pherchnogaeth a mynd ati'n raddol i ychwanegu mathau penodol o domenni nad ydynt yn domenni glo at y 'Gofrestr Asedau Genedlaethol' arfaethedig (gweler Pennod 3);
- Y dylid asesu'r peryglon a'r gofynion gwahanol sy'n gysylltiedig â thomenni nad ydynt yn domenni glo;
- Y dylid darparu pwerau galluogi mewn deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn diwygio darpariaethau technegol a ddarperir mewn is-ddeddfwriaeth, os bydd y dystiolaeth am domenni nad ydynt yn domenni glo yn dangos bod angen cynnwys gofyniad penodol ar gyfer math penodol o domen nad yw'n domen lo. Er enghraifft, os yw'r categorïau arfaethedig (gweler Pennod 5) yn golygu bod angen asesiad gwahanol o'r perygl ar gyfer tomenni chwareli neu fwyngloddiau metel;

2.8. Drwy weithredu fel hyn, bydd modd i domenni nad ydynt yn domenni glo gael eu cynnwys yn y gyfundrefn yn raddol dros amser, os bydd hynny'n briodol, wrth i'r wybodaeth berthnasol am leoliad a pherchenogaeth ddod ar gael.

Cwestiwn ymgynghori:

1. A ydych yn cytuno â'r ffordd y bwriedir mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn y gyfundrefn reoli, os bydd hynny'n briodol?

Yr Awdurdod Goruchwyllo

2.9. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell bod awdurdod goruchwyllo newydd yn cael ei gyflwyno i fod yn gyfrifol am reoli diogelwch tomenni glo yng Nghymru¹⁸.

¹⁷ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, argymhelliad 17, para 4.63

¹⁸ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, paragraffau 2.26, 2.65, Argymhellion 3 a 4

2.10. Er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu'r gyfundrefn newydd (fel y'i cyflwynir yn y papur hwn) ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau newydd hyn, mae angen goruchwyliaeth. Mae angen sicrhau hefyd fod arbenigedd perthnasol ar gael i ddarparu'r wybodaeth dechnegol sydd ei hangen er mwyn cyflawni llawer o'r swyddogaethau a amlinellir ym mhenodau 3 i 8.

2.11. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sail resymegol argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac mae'n cytuno bod angen awdurdod goruchwyllo i Gymru. O beidio â sefydlu corff o'r fath, byddai cryn risg i'r problemau a'r anghysonderau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn bresennol barhau. Byddai'n cyfyngu ar unrhyw fesurau lliniaru i leihau'r risg o dirlithriadau, sydd nid yn unig yn risg i fywyd ond sydd hefyd yn faich ariannol mawr ar gymunedau, llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog. Rydym yn mynd ati yn y bennod hon i amlinellu'r rhesymau dros yr angen am gorff newydd ac i amlinellu'n cynigion ar gyfer sefydlu'r corff hwnnw.

Asesiad

2.12. Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith o blaid creu awdurdod goruchwyllo newydd, ac roedd nifer o'r ymatebwyr o blaid rhoi'r rôl i gorff sy'n bodoli eisoes.

2.13. Rydym yn cydnabod bod yna gyrrff sy'n bodoli eisoes y gellid ystyried y byddai'n briodol iddynt ysgwyddo rôl awdurdod goruchwyllo. Wrth ystyried y sail resymegol dros argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i sefydlu corff newydd, gwnaethom hefyd gynnal dadansoddiad i benderfynu a ddylai'r corff fod yn sefydliad sy'n bodoli eisoes neu'n endid Cymreig newydd. O benderfynu ar yr olaf, pa fath o gorff ddylai hwnnw fod.

2.14. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes unrhyw gorff cyhoeddus yn uniongyrchol gyfrifol am ddiogelwch tomenni glo (dim ond pwerau caniataol sydd gan yr awdurdodau lleol o dan Ddeddf Tomenni 1969¹⁹) ac nid oes gan unrhyw gorff cyhoeddus unrhyw ddyletswyddau penodol mewn perthynas â thomenni glo nas defnyddir²⁰. O dan Reoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014, mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gyfrifoldebau mewn perthynas â thomenni sborion gweithredol. Ar ôl inni gynnal ein hasesiad ein hunain o'r capasiti sydd ar gael yn y cyrrff sy'n ymgymryd â gweithgarwch ar domenni glo nas defnyddir, gwelwyd mai timau bach yw'r rheini fel arfer.

2.15. Wrth asesu'r ffordd fwyaf briodol o oruchwyllo'r gyfundrefn reoli newydd arfaethedig, ystyriwyd y ffactorau hyn:

- Atebolrwydd – byddai'n rhan o fframwaith llywodraethu Cymru, gan adrodd i Weinidogion Cymru a/neu'r Senedd, byddai'n cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru a byddai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiadau mewn ymateb i unrhyw gwynion gweinyddol;
- Annibyniaeth – byddai ganddo strwythurau annibynnol, byddai'n atebol o fewn fframwaith llywodraethu Cymru, ac yn cael ei archwilio'n annibynnol gan gorff fel Archwilydd Cyffredinol Cymru;

¹⁹ Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith – *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2021, para. 4.60

²⁰ Ceir enghraifft yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith 2022 ym mharagraff 2.58.

- Arbenigedd – dylai gynnig arbenigedd ar draws sawl maes er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys gwybodaeth reoleiddiol;
- Cylch gwaith – dim gwrthdaro buddiannau wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- Gwerth am Arian – defnydd effeithlon ac effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael;
- Hyder – gan y cyhoedd a pherchnogion yn ei allu i gyflawni.

2.16. Er bod cyrff a allai gyflawni rhai o'r swyddogaethau a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn ac yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, dangosodd ein dadansoddiad ni nad oes unrhyw gorff sy'n bodoli eisoes yn bodloni'r chwe maen prawf a restrir ym mharagraff 2.15. Er bod gan rai ohonynt brofiad sy'n bodloni rhai o'r meini prawf, nid oedd yr un ohonynt yn bodloni'r holl feini prawf.

2.17. Fel y nodir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, nid yw'r Awdurdod Glo yn gorff a gadwyd yn ôl ac, o'r herwydd, nid yw'n rhan o fframwaith llywodraethu Cymru ac nid yw'n atebol i Weinidogion Cymru nac i'r Senedd. Ni fyddai'n cael ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru na'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ychwaith. Mae'r un peth yn wir am yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n goruchwyllo tomenni gweithredol o dan y Rheoliadau Chwareli a'r Rheoliadau Mwyngloddiau.

2.18. Gwnaethom ystyried asesiad Comisiwn y Gyfraith:

“Ni allwn weld y fantais o geisio trefniant o'r fath o ran sefydlu awdurdod sy'n sefyll drosto ei hun yng Nghymru, ac eithrio o ran cael gafael ar sgiliau arbenigol, ac o bosibl, arbed costau. Petai angen mynediad i sgiliau, dull symlach fyddai i'r awdurdod newydd gcontractio gyda'r Awdurdod Glo i ddarparu gwasanaethau iddo. Rydym hefyd yn amheus ynghylch y tebygolrwydd o arbed costau, gan y byddai angen i'r Awdurdod Glo ffurfio is-adran ar wahân i ymgymryd â'r gwaith.”²¹

2.19. Er bod CNC yn rhan o'r fframwaith llywodraethu hwn, dylai'r corff hwnnw ganolbwyntio ar y rôl sydd ganddo yn gwarchod yr amgylchedd ac ar gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol sydd arno i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol²². Mae'n bosibl hefyd y byddai gwrthdaro tybiedig neu bosibl oherwydd ei fod yn rheoli'r ystad tomenni glo fwyaf ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym yn cydnabod bod meysydd polisi eraill lle y gallai'r mathau hyn o wrthdaro godi ond, gan fod posibilrwydd o ehangu'r swyddogaethau i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo, rydym o'r farn y byddai'n fwy priodol peidio â chreu cyfundrefn newydd lle byddai posibilrwydd o wrthdaro mewnol.

2.20. Fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, rydym yn cytuno bod angen awdurdod goruchwyllo i Gymru er mwyn sicrhau'r annibyniaeth, yr atebolrwydd, yr arbenigedd, y cylch gwaith a'r hyder sydd eu hangen. Dyma'r prif fanteision sy'n gysylltiedig â sefydlu un corff goruchwyllo:

- Sgiliau technegol arbenigol, a all gynnig budd ychwanegol i'r awdurdodau lleol wrth reoli tomenni glo nas defnyddir;
- Cylch gwaith penodol er mwyn sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel;

²¹ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru*, 2022, para. 2.60

²² Erthygl 4, Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 fel y'i diwygiwyd gan adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- Goruchwyllo'r gyfundrefn yn annibynnol er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu;
- Goruchwyllo a monitro annibynnol mewn perthynas â chydymffurfio â'r gyfundrefn newydd;
- Arbedion maint wrth gaffael gwasanaethau, casglu ymchwil a thystiolaeth a datblygu a rhannu arferion gorau a chanllawiau.

2.21. Er mwyn cyflwyno'r gyfundrefn reoli newydd yn effeithiol, yn enwedig o gofio'r diffygion presennol o ran arbenigedd, bydd yn bwysig i'r corff newydd sefydlu perthynas waith agos â chyrrff eraill sydd â phrofiad o archwilio a chynnal a chadw tomenni glo nas defnyddir, gan gynnwys ymrwymo i gcontractau gwasanaeth. Bydd hynny o gymorth i feithrin cysylltiadau trawsddisgyblaethol ac i rannu arferion gorau a chanllawiau.

Ffurf y corff newydd

2.22. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell bod corff cyhoeddus canolog newydd²³ yn cael ei greu, yn enwedig o gofio bod corff canolog yn gallu darparu prosesau symlach a sicrhau cysondeb.

2.23. Rydym yn cydnabod yr ymatebion i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â ffurf bosibl yr awdurdod goruchwyllo newydd ac rydym wedi ystyried yr ymatebion hynny wrth inni fynd ati i ddadansoddi²⁴. Buom yn ystyried gwahanol fathau o gyrff cyhoeddus, gan amrywio o asiantaethau gweithredol, i adrannau anweinidogol, i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, naill ai'n rhai cynghorol neu'n rhai gweithredol. Penderfynwyd na fyddai adran fewnol o fewn Llywodraeth Cymru yn cynnig yr annibyniaeth sydd ei hangen, oherwydd bod yr ystad tomenni glo fwyaf yn cael ei rheoli gan CNC ar ran ystad goetir Llywodraeth Cymru.

2.24. Wrth ystyried pa fath o gorff cyhoeddus fyddai'n fwy priodol, buom yn ystyried yr isod :

- 1) A oes angen i'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth gael ei darparu gan y llywodraeth?
- 2) Faint o arbenigedd sydd ei angen;
- 3) Faint o annibyniaeth sydd ei hangen.

2.25. Mewn ymateb i'r ffactor cyntaf, rhoddwyd ateb cadarnhaol i'r holl fathau o gyrff cyhoeddus y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.23. Mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith a'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn amlinellu ystod eang o swyddogaethau ar gyfer y corff newydd arfaethedig, gan amrywio o swyddogaethau rheoleiddio, i rai gweithredol, gweinyddol a thechnegol.

2.26. Mewn ymateb i'r ail ffactor, bydd angen cryn arbenigedd ar y corff ar draws nifer o feysydd technegol gwahanol, gan gynnwys peirianeg tir, geobeirianeg, peirianeg sifil, mecaneg pridd, hydroleg, hydroddaeareg, ecoleg a rheoleiddio.

2.27. Mewn ymateb i ffactor 3, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar yr ystad tomenni glo fwyaf ar goetir Llywodraeth Cymru, a honno'n cael ei rheoli ar ei rhan gan ystad CNC, gallai ymddangos na fyddai'r corff yn annibynnol pe na bai yn un hyd braich. Hefyd, fel

²³ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 2.74, Argymhelliad 5

²⁴ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, Pennod 2

arfer, mae'n rhaid i asiantaeth weithredol fod yn ariannol hyfyw ac felly nid oeddem o'r farn bod yr opsiwn hwn yn un ymarferol oherwydd y gallai greu gwrthdaro gwirioneddol neu dybiedig i gorff newydd a ddylai fod yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau bod tomenni'n ddiogel.

- 2.28. Er mwyn sicrhau annibyniaeth a ffocws priodol ar sicrhau bod tomenniu'n ddiogel, rydym yn cynnig y dylai'r corff fod yn un hyd braich oddi wrth y llywodraeth ac y dylid ei sefydlu'n gorff gweithredol a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn ymgynghori:

2. A ydych yn cytuno y dylai'r corff goruchwyllo newydd fod yn Gorff Gweithredol newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru?

Pwrrpas/dyletswydd gyffredinol y corff

- 2.29. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell *“y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo, heb gyfyngu ar risgiau penodol”*²⁵.
- 2.30. Rydym wedi ystyried y sail resymegol dros yr argymhelliad ac rydym o'r farn bod gwerth i'r cynnig na ddylai'r ddyletswydd fod yn un uniongyrchol ar yr awdurdod goruchwyllo, ond y gall fod yn gymhelliad iddo a llywio'r gwaith o gyflawni'i swyddogaethau. Rydym yn gweld gwerth penodol yn y datganiad *“Mae cyfrifoldeb gyhoeddus i sicrhau diogelwch yn rhoi rhesymeg glir i'r awdurdod dros ymyrryd, a gellir ategu hynny â fframwaith ar gyfer ei orfodi”*²⁶.

Goruchwyliaeth Gyffredinol

- 2.31. Cyfrifoldeb yr awdurdod goruchwyllo fydd sicrhau cysondeb o ran yr ffordd yr eir ati i gynnal archwiliadau ac arfarniadau, i gategoreiddio ac i ddatblygu cynlluniau rheoli.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 2.32. Oherwydd y bydd y corff yn gorff cyhoeddus newydd i Gymru, rydym yn cynnig y dylid ychwanegu'r awdurdod goruchwyllo newydd at y diffiniad o 'gorff cyhoeddus' yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('Deddf 2015'). Byddai hynny'n golygu y byddai'n ofynnol i'r corff:

- Gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn adran 3 o Ddeddf 2015;
- Gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys cymhwyso'r pum ffordd o weithio (adran 5 o Ddeddf 2015);
- Cyhoeddi amcanion llesiant (adran 7 o Ddeddf 2015);

²⁵ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomenydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 2.98, Argymhelliad 6

²⁶ Ibid, para 2.92

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol am y cynnydd y bydd wedi'i wneud wrth gyflawni'i amcanion llesiant (adran 13 o Ddeddf 2015).

Gofynion Adrodd


2.33. Er mwyn sicrhau bod y corff newydd yn dryloyw ac yn atebol i Weinidogion Cymru, dylai'r corff newydd baratoi adroddiad blynyddol am ei weithgarwch, i'w ystyried gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Senedd. Rydym yn cynnig y dylai'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- statws tomenni nas defnyddir a thynnu sylw at unrhyw faterion allweddol sy'n peri pryder;
- unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio;
- y cynnydd a fydd wedi'i wneud ar waith cynnal a chadw;
- a yw o'r farn y gallai fod angen diwygio'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn unrhyw ddogfen y darperir ar ei chyfer yn y Papur Gwyn hwn;
- tomenni lle mae'r awdurdod goruchwyllo o'r farn bod cyfleoedd posibl i'w hadfer.

Strwythur Cyffredinol

2.34. Mae'r gyfundrefn arfaethedig ar gyfer diogelwch tomenni glo yn cael ei hamlinellu ym mhenodau 3 i 8 o'r Papur Gwyn hwn. Mae'r diagram 1 isod yn dangos yr elfennau allweddol y bwriedir eu cynnwys ac ym mha bennod y mae'r manylion i'w gweld.

Strwythur y drefn arfaethedig ar gyfer diogelwch tomenni glo



Pennod 3: Cofrestr Asedau a Chofrestr Gweithwyr Proffesiynol

Rydym yn cynnig bod cofrestr asedau genedlaethol yn cael ei datblygu ar gyfer yr holl domenni glo nas defnyddir a bod Gweinidogion Cymru yn cadarnhau mewn is-ddeddfwriaeth y gofynion sylfaenol o ran yr hyn sydd i'w gynnwys y gofrestr honno.

Cofrestr Asedau Genedlaethol

- 3.1. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell '*... y dylai cofrestr domen ganolog gael ei llunio a'i chynnal gan yr awdurdod goruchwyllo*²⁷.
- 3.2. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cofrestr ganolog. Rydym o'r farn bod cofrestr asedau genedlaethol ganolog, a fydd yn cynnwys yr un data cydlynol, dibynadwy a chyfredol, yn hanfodol er mwyn cyflwyno cyfundrefn gyson, gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir.
- 3.3. Mae nifer o fanteision i gofrestr ganolog, gan gynnwys:
- Gwella gwaith rheoli risg drwy gasglu gwybodaeth gyson am unrhyw risgiau/beryglon sy'n gysylltiedig â thomen a thrwy gasglu gwybodaeth am y gofynion rheoli ar gyfer pob tomen;
 - Gwella'r broses gwneud penderfyniadau oherwydd y bydd gwybodaeth ar gael am leoliadau tomenni glo, am eu statws a pha mor agos ydynt i seilwaith hanfodol a/neu amgylcheddau fel safleoedd dynodedig;
 - Gwella goruchwyliaeth er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu a bod archwiliadau'n cael eu cynnal a gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud;
 - Mae'n cynnig tryloywder.
- 3.4. Bydd y gofrestr asedau yn elfen allweddol o'r gyfundrefn reoli newydd ar gyfer diogelwch tomenni glo, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am domenni nas defnyddir, gan gynnwys gwybodaeth am archwiliadau a gwaith cynnal a chadw. Bydd yn galluogi'r awdurdod goruchwyllo newydd i fonitro a goruchwyllo cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn.
- 3.5. Rydym yn mynd ati yn y Bennod hon i amlinellu rhagor o gynigion ar gyfer y gofrestr asedau, gan ymdrin yn benodol â'r gwaith o'i datblygu ac â sut y bydd yn gweithredu. Gan fod Comisiwn y Gyfraith wedi ymgynghori ar yr angen am gofrestr asedau ganolog a bod 93% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen cofrestr o'r fath²⁸, rydym yn canolbwyntio yn y bennod hon, felly, ar gynnwys y gofrestr, ar adolygu a diweddarau'r gofrestr, ar bwy fydd yn cael ei gweld ac ar hawliau apelio. Rydym yn cynnig y dylai'r gofrestr asedau newydd adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo i gasglu data am domenni glo ac i sicrhau ansawdd y data hynny.

²⁷ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 3.23, Argymhelliad 7

²⁸ Ibid, para. 3.10

Y Cefndir – Casglu Data ers 2020

- 3.6. Ers 2020, mae'r Awdurdod Glo, gyda chymorth yr awdurdodau lleol, wedi bod yn defnyddio amryfal ffynonellau i gasglu gwybodaeth am leoliad tomenni glo nas defnyddir. Mae'r ffynonellau hynny'n cynnwys: mapiau'r arolwg ordnans, cofnodion hanesyddol, ffotograffau o'r awyr a data LIDAR²⁹.
- 3.7. Pan ddechreuodd y prosiect, y gred oedd bod rhyw 1,200 o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaed gan yr Awdurdod Glo a'r awdurdodau lleol wedi nodi bellach fod 2,456³⁰ ohonynt.
- 3.8. Defnyddiodd yr Awdurdod Glo ei gategoriâu interim (gweler paragraff 5.2) ar gyfer pob un o'r 2,456 o domenni er mwyn penderfynu pa rai o'u plith y byddai angen eu harchwilio'n amlach. Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Awdurdod Glo i gynnal tri chylch o archwiliadau ar domenni categori uwch. Mae nifer o'r awdurdodau lleol wedi cynorthwyo gyda'r cylchoedd archwilio hynny hefyd. Cwblhawyd y cylch diweddaraf o archwiliadau ym mis Chwefror 2022, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith o archwilio'r tomenni categori uwch nes y bydd cyfundrefn statudol newydd ar waith.
- 3.9. Cafwyd gwybodaeth am berchenogaeth o Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi. Datgelodd yr wybodaeth honno pa mor gymhleth yw'r sefyllfa o ran pwy sy'n berchen ar domenni. Er bod y rhan fwyaf o domenni'n eiddo i berchnogion preifat (mae rhyw 55% o arwynebedd y tomenni mewn perchenogaeth rhydd-ddaliadol)³¹, mae gan lawer o domenni nifer o berchnogion, gan gynnwys sefydliadau preifat a chyhoeddus. Mae mathau gwahanol o fuddiannau yn y tir hefyd, gan gynnwys buddiannau rhydd-ddaliadol, lesddaliadol, perchenogol a *proffid à prendre*³². Mae'r sefyllfa o ran perchenogaeth ar rai o'r tomenni yn un dameidiog, ac weithiau mae llai nag 1% o domen yn eiddo i nifer o bartïon unigol.
- 3.10. Wrth ddatblygu'r cynigion a ddarperir yn y Papur Gwyn hwn, rydym wedi ystyried y goblygiadau sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth ar domen ac wedi datblygu'n cynigion mewn ffordd nad yw'n rhoi dyletswyddau beichus ar barti nad oes ganddo ond ychydig iawn o fuddiant mewn tomen.

Tomenni Sborion Eraill

- 3.11. Fel yr amlinellir ym mharagraff 2.6, rydym yn bwriadu ystyried yn y dyfodol a ddylid ehangu cwmplas y gyfundrefn newydd arfaethedig i bob tomen sborion nas defnyddir, pan fo hynny'n briodol. Er mwyn helpu i wireddu'r nod hwnnw, byddwn yn ceisio pennu llinell

²⁹ Mae [Light Detection and Ranging](#) (LiDAR) yn dechneg mapio sy'n cael ei chludo mewn awyren ac sy'n defnyddio laser i fesur y pellter rhwng yr awyren a'r ddaear. Cymerir hyd at 100,000 o fesuriadau yr eiliad o'r ddaear, gan ganiatáu i fodelau manwl iawn o arwynebau a thir gael eu creu mewn eglurdebau gofodol gwahanol.

³⁰ Mae'r ffigurau rhai byw ac mae'n bosibl y byddant yn newid wrth i'r broses sicrhau ansawdd barhau.

³¹ Mae'r ganran hon wedi'i diweddarau ers yr amcangyfrifon blaenorol o 70% yn sgil y broses sicrhau ansawdd. Mae 40% o arwynebedd y tomenni mewn perchenogaeth gyhoeddus a 5% yn dir sydd heb ei gofrestru.

³² Mae *proffid à prendre* mewn gros yn hawl nad yw'n gysylltiedig â pherchenogaeth ar unrhyw ddarn penodol o dir. Mae'n bosibl na fydd perchennog y proffid yn berchen ar unrhyw dir o gwbl a chaiff waredu'r proffid yn annibynnol ar unrhyw dir y mae'n berchen arno.

sylyfaen o ran faint o domenni nad ydynt yn domenni glo sydd i'w cael ledled Cymru, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ffordd o weithio a fydd yn caniatáu inni gasglu'r wybodaeth berthnasol (perchenogaeth, statws) am y tomenni hynny mewn ffordd amserol.

- 3.12. Ar ôl i'r data hynny gael eu casglu ac ar ôl sicrhau eu hansawdd, gellir mynd ati'n raddol i ychwanegu tomenni nad ydynt yn domenni glo at y gofrestr asedau, pan fo hynny'n briodol, gan sicrhau cysondeb o ran fformat y gofrestr ac o ran sut y bydd yn cael ei gweithredu.

Diffiniad o Domen Lo

- 3.13. Ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith ynghylch a ddylai'r diffiniad o domen lo nas defnyddir gyfeirio at wastraff sy'n deillio o gloddio am lo ac a ddylai gynnwys cyfeiriad penodol at ddympliau gorsborion, ôl-lenwadau, twmpathau sborion, pentyrrau stoc a lagwnau. Ni chafodd unrhyw argymhelliad ynglŷn â'r diffiniad ei wneud yn adroddiad y Comisiwn
- 3.14. Rydym o'r farn bod awgrym y Comisiwn ar gyfer diffiniad o domen lo nas defnyddir yn un defnyddiol, sef ei fod yn cynnwys elfennau megis *'chwilio, echdynnu, trin a storio glo a mwynau cysylltiedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, domennydd gorlwyth, ôl-lenwi, twmpathau gwastraff, pentyrrau stoc a lagwnau.*³³
- 3.15. Mae'n bwysig bod gennym ddiffiniad clir o domen lo nas defnyddir er mwyn sicrhau eglurder y gyfundrefn. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn cynnig ehangu'r gyfundrefn yn raddol i gynnwys tomenni sborion eraill, mae angen inni benderfynu a oes angen diffiniad hefyd o domen sborion nas defnyddir.
- 3.16. Rydym o'r farn bod gwerth i'r awgrym yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â sicrhau cysondeb rhwng y diffiniad o domen yn y ddeddfwriaeth Gymreig newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir a'r diffiniad estynedig yn Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 ar gyfer tomenni gweithredol.
- 3.17. Dyma'r diffiniad yn Rheoliadau 2014:

"tip means an accumulation or deposit of any refuse from a mine (whether in a solid or liquid state or in solution or suspension) other than an accumulation or deposit situated underground, and includes, but is not limited to—

- (a) overburden dumps, backfill, spoil heaps, stock piles and lagoons, and*
- (b) any wall or other structure that retains or confines a tip"*³⁴

- 3.18. Byddwn yn ystyried adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac ymatebion rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol am yr angen i bennu diffiniadau gwahanol ar gyfer tomenni glo nas defnyddir a thomenni sborion nas defnyddir, neu ai dim ond un diffiniad fydd ei angen, er enghraifft, tomen sborion nas defnyddir, ac ai dim ond pan gaiff tomen ei hychwanegu at y gofrestr asedau y bydd y gyfundrefn yn gymwys. Ar y dechrau, dim ond i domenni glo nas defnyddir y bydd y gyfundrefn yn berthnasol.

³³ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 7.37

³⁴ Rheoliad 2(1), Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 OS 2014/3248

Diffiniad o Domen 'De Minimis'

- 3.19. Wrth gasglu data am domenni glo, rydym wedi gweld hefyd fod nifer o domenni, bach iawn a byddem yn croesawu barn rhanddeiliaid ynghylch a fyddai'n fuddiol inni bennu diffiniad o **domen 'de minimis'**.
- 3.20. Gellid diffinio tomen de minimis yn domen ac iddi nodweddion lle mae'r risg o'r amryfal beryglon a amlinellir ym Mhennod 4 yn briodol isel neu'n fach iawn. Gellid defnyddio elfennau allweddol o'r gyfundrefn mewn ffordd gymesur ar gyfer y tomenni bach hyn, neu eu heithrio'n gyfan gwbl os nad ydynt yn peri unrhyw risg i gymunedau, i seilwaith hanfodol neu'r amgylchedd (gweler paragraff 3.24).
- 3.21. Dyma'r diffiniad o domenni dosbarthedig yn Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1971 (nad ydynt bellach mewn grym):

"the tip consists of refuse accumulated or deposited wholly or mainly in a solid state and not in solution or suspension and—

- (i) the superficial area of the land covered by the refuse exceeds 10,000 square metres; or*
- (ii) the height of the tip exceeds 15 metres; or*
- (iii) the average gradient of the land covered by the refuse exceeds 1 in 12;"³⁵*

- 3.22. Yn ogystal â'r tair nodwedd y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau 1971 – a) yr arwynebedd; b) uchder; c) graddiant y domen, credwn y gallai fod yn fuddiol cynnwys pedwaredd nodwedd, sef graddiant y strata naturiol (y plân gwaelodol).
- 3.23. Byddwn yn comisiynu ymchwil i'r maes hwn ond byddem yn croesawu barn rhanddeiliaid am y nodweddion hyn.
- 3.24. Byddai categori 'de minimis' yn golygu y byddai perchnogion y tomenni hyn yn cael eu heithrio rhag y dyletswyddau arfaethedig isod a nodir yn y Papur Gwyn hwn:
- Archwiliadau;
 - Cynnal a chadw;
 - Paratoi cynllun rheoli.

Cwestiynau ymgynghori:

3. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys diffiniad o domen 'de minimis' yn y bil? Os ydych, pa nodweddion y dylid eu cynnwys?

4. A ydych yn cytuno y dylai perchennog 'tomen de minimis' gael ei eithrio rhag y dyletswyddau a amlinellir? Os nad ydych, nodwch pam.

³⁵ Rheoliadau Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1971, rheoliad 2

Y gofynion sylfaenol o ran cynnwys y gofrestr

- 3.25. Rydym wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid wrth ymateb i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac rydym yn cytuno bod angen data cyson a chydlynol er mwyn sicrhau nad yw'r gyfundrefn yn mynd yn dameidiog³⁶. Rydym o'r farn y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu osgoi hynny drwy bennu, mewn is-ddeddfwriaeth, y gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr asedau.
- 3.26. Er bod safbwyntiau yn yr adroddiad am rywfaint o'r cynnwys a allai fod yn ofynnol, ac er mwyn inni fedru darparu pŵer galluogi yn y bil arfaethedig, rydym am ymgynghori â rhanddeiliaid am y gofynion sylfaenol y dylid eu pennu i ddechrau o ran cynnwys y gofrestr. Er mwyn cynorthwyo yn hynny o beth, rydym yn cynnig y dylai'r gofrestr asedau gynnwys yr wybodaeth isod, fan lleiaf:
- Rhif cyfeirnod unigryw;
 - Enw'r domen;
 - Lleoliad – (dylid cynnwys cynnwys y manylion sydd eu hangen);
 - Categori (gweler Pennod 3);
 - Dyddiadau archwiliadau/arfarniadau;
 - Adroddiad asesu;
 - Adroddiadau archwilio/arfarnu (gweler Pennod 7);
 - Cynllun rheoli (gweler Pennod 7); a
 - Cytundebau cynnal a chadw (gweler Pennod 7).
- 3.27. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi dadlau nad oes angen cadw manylion perchnogion ar y gofrestr³⁷ oherwydd y byddai hynny'n dyblygu gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi. Byddwn yn ystyried y rhesymeg honno yng ngoleuni'r ffaith ein bod ni o'r farn y bydd angen i'r gofrestr fod yn offeryn gweinyddol effeithiol a fydd yn caniatáu i'r awdurdod goruchwyllo fonitro'r gyfundrefn. Nid ydym o'r farn y byddai unrhyw anghysondeb pe bai'r gofrestr yn borth ar gyfer y cyhoedd (drwy ddarparu map) a hefyd yn offeryn gweinyddol ar gyfer yr awdurdod goruchwyllo. Byddai modd sicrhau hynny drwy bennu'n gwbl glir y data a fyddai ar gael i'r cyhoedd a'r data y byddai cyfyngiadau arnynt.
- 3.28. Er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn hyblyg a'i bod yn gallu ymateb pan fydd unrhyw amgylchiadau'n newid, gan gynnwys ymateb i'r angen i ddiwygio'r gofrestr os rhoddir rhagor o ofynion ar domenni nad ydynt yn domenni glo, rydym yn cynnig bod y pŵer i bennu'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys yn bŵer hefyd i adolygu ac i ddiwygio cynnwys y gofrestr.
- 3.29. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pan fyddwn yn mynd ati i ddatblygu'r ddeddfwriaeth statudol, ond rydym yn cynnig hefyd fod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r awdurdod goruchwyllo newydd yn y dyfodol am unrhyw ddiwygiadau i'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys. Bydd yr awdurdod goruchwyllo yn gallu hysbysu Gweinidogion Cymru hefyd os bydd o'r farn bod angen diwygio'r gofynion sylfaenol hynny.

³⁶ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 3.19

³⁷ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 3.36

Cwestiwn ymgynghori:

5. A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr? Os nad ydych, nodwch beth fyddai'r gofynion sylfaenol priodol yn eich barn chi?

Enwau Tomenni

- 3.30. Mae gan nifer o domenni glo nas defnyddir fwy nag un enw yn Gymraeg a Saesneg ac weithiau, nid yw'r enw Cymraeg yn gyfieithiad o'r enw cyfatebol yn Saesneg. Er enghraifft, mae 'Tylorstown' yn cael ei alw'n 'Llanwonno' hefyd. Mae sawl enw ar nifer o domenni, er enghraifft, mae 'Old Smokey' yn enw arall ar domen 'Dwyrain Tylorstown', a gall hynny greu dryswch a diffyg eglurder yn y gyfundrefn arfaethedig. Gallai hefyd achosi oedi wrth ymateb tan i'r domen gywir gael ai hadnabod. Yn ogystal, mae gan rai tomenni yr un enw ond cyfeirir atynt fel Tomen A neu B. Gallai hynny beri dryswch wrth i bobl feddwl bod cyfeiriad at domen 'A' a 'B' yn gyfeiriad at gategori interim yn hytrach nag yn rhywbeth sy'n dynodi enw.
- 3.31. Er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch pa domen benodol sydd o dan sylw, rydym yn cynnig y dylid defnyddio cyfeirnod unigryw i wahaniaethu rhwng pob domen. Fodd bynnag, ni fydd defnyddio cyfeirnod unigryw yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl wrth adnabod tomen os bydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno rhoi gwybod am ddigwyddiad ar domen ac yn defnyddio enw cyffredin sy'n un o nifer o enwau.
- 3.32. Mae'n bosibl y bydd gan enwau tomenni werth ac arwyddocâd diwylliannol pwysig i gymunedau ac nid ydym yn cynnig y dylid newid yr enwau ar hyn o bryd, ond byddwn yn cysylltu ac yn trafod â chymunedau er mwyn ystyried ffordd briodol o sicrhau cysondeb wrth enwi tomenni, gan barchu eu harwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol.

Adroddiadau Hanesyddol

- 3.33. Fel y nodir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, cyfeiriodd ymatebwyr i ymgynghoriad y Comisiwn at nifer o gofnodion hanesyddol³⁸ a allai ddarparu gwybodaeth werthfawr am y nodweddion unigryw sydd gan domen, gan ddarparu gwybodaeth am y draenio a'r safonau dylunio, os oedd rhai, a fabwysiadwyd pan gafodd ei hadeiladu. Rydym wedi bod yn trafod gyda'n partneriaid i weld a oes gan eu sefydliadau nhw adroddiadau hanesyddol, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i benderfynu ar y ffordd orau o gasglu a choladu'r wybodaeth honno.
- 3.34. Credwn y byddai ystorfa ganolog ar gyfer data hanesyddol ac archifol am domenni glo nas defnyddir yn amhrisiadwy i'r gyfundrefn reoli newydd. Gallai'r data hynny roi manylion am:
- sut y cafodd tomen ei ffurfio a'i hadeiladu;
 - y seilwaith draenio;

³⁸ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, Pennod 3

- sut yr aed ati i'w dylunio a'i hadeiladu;
- hanes o ran gwaith cynnal a chadw, a chyflwr y domen;
- hanes o ran sefydlogrwydd neu nodweddion ac amodau sy'n gysylltiedig â pheryglon sylweddol (e.e. ymlosgi);
- unrhyw waith adfer neu waith cyfalaf hanesyddol.

3.35. Bydd casglu'r wybodaeth hon yn gryn dipyn o waith ac, ar hyn o bryd, ni allwn amcangyfrif faint o wybodaeth sydd ar gael, na beth yn yr wybodaeth honno fydd o werth penodol. Mae'n bosibl y bydd y math o wybodaeth sydd ar gael yn wahanol ar gyfer tomenni glo gwahanol ac ar gyfer tomenni sborion eraill. Bydd angen amser i goladu ac asesu'r wybodaeth ac, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.33, rydym yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid inni i gyflawni'r dasg hon.

3.36. Bydd sicrhau ansawdd y data yn bwysig hefyd, oherwydd gyda threigl amser, mae'n bosibl na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn gywir nac yn ddilys erbyn hyn oherwydd iddi gael ei disodli gan ddigwyddiadau neu weithgareddau eraill – er enghraifft, gwaith cynnal a chadw neu waith adfer mwy diweddar.

3.37. Yng ngoleuni hyn oll, rydym yn cynnig y byddai'n fuddiol cynnwys cofnodion hanesyddol, os oes rhai ar gael ac os ydynt yn gyfredol ac yn berthnasol, yn y gofrestr asedau. Ond nid ydym yn cynnig y dylai gwybodaeth o'r fath fod yn un o'r gofynion sylfaenol gorfodol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr. Yn hytrach, bydd yn wybodaeth ychwanegol y gellir ei storio ar y gofrestr asedau os bydd ar gael ac os bydd yn ymarferol ac yn gymesur ei chynnwys.

Y Cofnodion ar y Gofrestr

3.38. Bydd y gofrestr gychwynnol yn defnyddio'r data a gasglwyd gan yr Awdurdod Glo ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Glo yn cael eu hamlinellu ym mharagraff 1.23. Bydd y rhestr hon o domenni glo nas defnyddir yn cael ei chadw ar MapDataCymru pan fydd y gwaith sicrhau ansawdd wedi'i gwblhau³⁹.

3.39. Rydym yn cynnig y bydd y gofrestr gychwynnol yn cynnwys:

- Yr holl domenni glo nas defnyddir y gwyddys amdanynt adeg y diweddariad mwyaf cyfredol i MapDataCymru;
- Yr hyn y bydd yn ofynnol ei gynnwys fel y'i pennir gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth – gan ddefnyddio'r archwiliadau a'r adroddiadau archwilio diweddaraf a fydd ar gael cyn i'r bil ddod i rym, a'r gwaith cynnal a chadw sydd naill ai wedi dechrau neu wedi'i gwblhau o 2020 ymlaen.

3.40. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell '*...y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni*'⁴⁰. Rydym yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i'r corff ddiweddarau'r gofrestr er mwyn sicrhau ei bod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

³⁹ Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyhoeddi'r wybodaeth hon yn hanner cyntaf 2022

⁴⁰ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 3.49, Argymhelliad 9

- 3.41. Fodd bynnag, rydym wedi nodi tri senario lle y gallai fod angen ychwanegu rhagor o domenni at y gofrestr:
1. Cau pwll gweithredol sy'n golygu bod tomen weithredol/a gaewyd yn cael ei hailgategoreiddio'n domen nas defnyddir;
 2. Tomenni nas defnyddir sydd eisoes yn bod ac na chawsant eu cynnwys yn y set ddata gychwynnol o domenni glo nas defnyddir, ond a nodwyd wedyn;
 3. Tomenni sborion nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo ac y gallai fod angen eu hychwanegu at y gofrestr.
- 3.42. Rydym yn credu, felly, mai dim ond i Senarios 1 a 2 y mae argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn berthnasol. O ran Senario 1, er mai niferoedd isel o domenni glo gweithredol sydd yng Nghymru, mae angen gwneud rhagor o waith i bennu nifer y tomenni agregau gweithredol. Cynigiodd un o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith y gellid cynnwys tomenni gweithredol yn y gofrestr gychwynnol, nodi eu bod yn weithredol, a'u heithrio o'r gyfundrefn hyd nes y byddent yn cael eu hailgategoreiddio'n domenni nas defnyddir. Nid ydym yn cynnig y dylid gwneud hynny ar hyn o bryd oherwydd bod angen inni fod yn fwy clir am y nifer posibl o domenni agregau gweithredol ac oherwydd ein bod am ystyried y goblygiadau posibl pe bai tomenni gweithredol yn cael eu cofnodi mewn cofrestr o domenni nas defnyddir.
- 3.43. Er mwyn cynorthwyo'r awdurdod goruchwyllo i gyflawni'r ddyletswydd sydd arno i sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol, rydym yn cynnig y dylai fod gan yr awdurdod goruchwyllo bŵer i ddefnyddio technoleg synhwyro o bell, er enghraifft dronau, i fonitro a oes unrhyw domenni sydd heb eu cofrestru. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno pŵer mynediad i dir fel y bo modd penderfynu a yw unrhyw safleoedd y deuir ar eu traws ac sydd heb eu cofrestru yn domenni nas defnyddir. Mewn senario o'r fath, bydd yn ofynnol i'r awdurdod goruchwyllo roi hysbysiad priodol i'r sawl sydd â buddiant yn y tir.
- 3.44. O ran Senario 3, fel yr amlinellwyd gennym ym mharagraffau 3.11-12, bydd angen rhaglen waith bwrpasol i gasglu a dadansoddi'r holl ddata ar domenni nad ydynt yn domenni glo. Rydym yn cynnig y dylai fod dyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i gasglu'r wybodaeth honno a'i hychwanegu at y gofrestr pan fydd y data ar gael.

Cwestiwn ymgynghori:

6. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran ychwanegu tomenni newydd at y gofrestr?

Diweddaru'r Gofrestr

- 3.45. Mae'n hanfodol bod y gofrestr yn cael ei diweddaru'n gyson. Bydd hynny'n helpu i sicrhau bod y data ar y gofrestr yn gyfredol, yn enwedig y data am statws y domen, a fydd yn cael ei bennu drwy archwiliadau/arfarniadau ac unrhyw waith (cynnal a chadw neu adfer) a wneir ar y tomenni. Mae hynny'n bwysig hefyd er mwyn helpu'r awdurdod goruchwyllo newydd i gyflawni'r rhwymedigaethau sydd arno mewn perthynas â chydymffurfio.
- 3.46. Rydym yn nodi isod pryd, yn ein barn ni, y bydd angen diweddaru'r gofrestr:

- **Adroddiadau Archwilio** – dylai'r sawl sy'n gyfrifol am gynnal archwiliad (gweler Pennod 7) fod o dan ddyletswydd i lanlwytho'r adroddiad diweddaraf i'r gofrestr ymhen 10 diwrnod gwaith i'r archwiliad
- **Adroddiadau Arfarnu** – dylai'r sawl sy'n gyfrifol am gynnal arfarniad (gweler Pennod 7) fod o dan ddyletswydd i lanlwytho'r adroddiad diweddaraf i'r gofrestr ymhen 20 diwrnod gwaith i'r arfarniad;
- **Gwaith Cynnal a Chadw/Adweirio** – dylai'r sawl sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud ar domen fod o dan ddyletswydd i ddiweddarau'r gofrestr drwy nodi faint o gynnydd a fydd wedi'i wneud ar y gwaith;
- **Cytundebau Cynnal a Chadw** – os oes cytundeb cynnal a chadw ar waith, dylai unrhyw ddiwygiadau i'r cytundeb rhwng y partïon gael eu diweddarau ymhen 30 diwrnod gwaith;
- **Cynllun Rheoli** – os diwygir cynllun rheoli mewn unrhyw ffordd, dylid diweddarau'r cynllun newydd ar y gofrestr ymhen 30 diwrnod gwaith.

3.47. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn, dylai fod dyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i fonitro'r gofrestr asedau a mynd ar drywydd partïon os torrir unrhyw rwymedigaeth i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y gofrestr.

3.48. Os dyletswydd yr awdurdod goruchwyllo fydd diweddarau'r gofrestr, er enghraifft, pan fydd wedi arwain ar newidiadau i gynllun rheoli neu gytundeb cynnal a chadw, bydd yn ofynnol iddo nodi yn ei adroddiad blynyddol sut y bydd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

Cwestiwn ymgynghori:

7. A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i ddiweddarau'r gofrestr asedau? Os nad ydych, manylwch ar sut, yn eich barn chi, y dylid diweddarau'r gofrestr asedau a phwy ddylai wneud hynny.

Pwy fydd yn cael gweld y Gofrestr Asedau

3.49. Mae wedi bod yn fwriad erioed i sicrhau bod gwybodaeth am leoliadau tomenni ar gael i'r cyhoedd. Unwaith y bydd ansawdd y data wedi'i sicrhau, byddwn yn disgwyl i leoliadau tomenni glo nas defnyddir fod ar gael.

3.50. Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae'r awdurdodau lleol a fforymau lleol Cymru Gydnerth⁴¹ yn gallu gweld lleoliadau tomenni a'u categorïau interim ar MapDataCymru er mwyn iddynt fedru paratoi unrhyw gynlluniau rhag argyfyngau pan fo hynny'n briodol. Mae MapDataCymru yn ffynhonnell lle gellir dod o hyd i ddata'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n darparu platfform data a rennir gan y cyhoedd a'r awdurdodau cyhoeddus.

3.51. Byddai cofrestr asedau a fyddai ar gael i'w gweld yn golygu y byddai'r gyfundrefn yn un dryloyw a byddai hefyd yn fodd i sicrhau atebolrwydd. Wedi dweud hynny, bydd data

⁴¹ Mae'r data ar gael i Ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2 fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl

sensitif yn cael eu cofnodi ar y gofrestr hefyd, er enghraifft, gorchmynion gorfodi a rhywfaint o wybodaeth sy'n fasnachol sensitif (fel lesioedd) a hefyd wybodaeth am ddinasyddion preifat. Mae'r wybodaeth honno'n arbennig o sensitif o gofio bod yna nifer o ddinasyddion preifat sy'n berchen ar lai nag 1% o domen.

3.52. Wrth ddatblygu'r gofrestr asedau, bydd yn rhaid cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU⁴². Yr hyn a gynigir yw rhoi pŵer i'r awdurdod goruchwyllo ddatblygu'r gofrestr asedau a hefyd, pan fo hynny'n berthnasol, roi'r awdurdod cyfreithlon iddo gasglu data personol cysylltiedig os ydynt yn ymwneud â dinesydd preifat sy'n berchen ar domen gyfan neu ar ran o domen.

3.53. Er mwyn parchu'r angen i'r cyhoedd gael gweld y gofrestr a hefyd yr angen i ddiogelu gwybodaeth sensitif, rydym yn cynnig haenau o fynediad i'r gofrestr, sef data a fydd ar gael i'r cyhoedd a data a fydd wedi'u heithrio. Bydd y cyhoedd yn cael gweld yr haen a fydd yn agored i'r cyhoedd, bydd yr awdurdod goruchwyllo'n gallu gweld pob haen, bydd yr awdurdodau lleol yn cael gweld gwybodaeth am domenni yn eu hardaloedd gweinyddol eu hunain, a pherchnogion preifat yn cael gweld gwybodaeth am eu tomenni eu hunain.

3.54. Rydym yn cynnig bod yr wybodaeth ganlyn ar gael i'r cyhoedd:

- Enw/cod adnabod y domen;
- Lleoliad;
- Categori;
- Statws o ran perchenogaeth (gyhoeddus neu breifat);
- Yr amserlen archwilio.

3.55. Rydym yn cynnig bod Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth a fydd yn rhagnodi bod data penodol yn cael eu heithrio, os nad yw er budd i'r cyhoedd bod gwybodaeth benodol am domenni glo ar gael i'r cyhoedd.

3.56. Rydym yn cynnig bod yr wybodaeth a ganlyn yn cael ei hystyried yn ddata a fydd wedi'u heithrio ac na fydd ar gael i'r cyhoedd:

- Camau gorfodi sy'n dal i fynd rhagddynt;
- Gwybodaeth y byddai ei chynnwys yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol;
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â chontractau.

3.57. Roedd ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys ymatebion oddi wrth rai rhanddeiliaid am yr effaith y gallai cyhoeddi'r data ei chael ar brisiau tai ac ar atebolrwydd o ran yswiriant⁴³. Rydym wedi cynnal asesiad o'r effeithiau hynny, a bydd yr asesiad hwnnw'n cyfrannu at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y bil. Ceir crynodeb o'r asesiad yn Atodiad 4. Wrth lunio'r asesiad hwnnw, cafwyd trafodaethau gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain a'n partneriaid yn yr Awdurdod Glo a'r awdurdodau lleol.

⁴² Fel y'u dargedwir yng nghyfraith y DU o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE

⁴³ Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2021, para. 7.41

Cwestiwn ymgynghori

8. A ydych yn cytuno â'r cynnig o ran y math o wybodaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd a'r math o wybodaeth a fydd yn cael ei heithrio?

Hawl i apelio

- 3.58. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y dylai perchennog/meddiannydd gael yr hawl i apelio ar y sail nad oes tomen ar y tir⁴⁴, ond mae amod ar yr hawl honno hefyd i'r perwyl na ddylid caniatáu i arfer yr hawl i apelio arwain at unrhyw oedi cyn gwneud gwaith brys.
- 3.59. Rydym yn gweld gwerth yn yr hyn a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith:
*"Gallai unrhyw hawl ehangach i apelio yn erbyn cynnwys y gofrestr arwain at anghydfodau ynghylch manylion technegol. Rydym yn cytuno y dylai hawliau apelio fod yn gyfyngedig o ran amser ac na ddylid caniatáu iddynt ohirio gwaith brys."*⁴⁵.
- 3.60. Felly, nid ydym yn bwriadu cyflwyno rhagor o gynigion am yr hawl hon i apelio yn y Papur Gwyn hwn.

Cofrestr o Weithwyr Proffesiynol

- 3.61. Mae trafodaethau gyda'n partneriaid wedi tynnu sylw at y ffaith bod prinder sgiliau arbenigol ym maes diogelwch tomenni glo, gan fod llawer o archwilwyr profiadol wedi ymddeol erbyn hyn. Mae'r sefyllfa o ran prinder gweithwyr proffesiynol profiadol yn un a all waethgu. Rydym wedi ystyried hynny wrth ddatblygu'n cynigion. Er mwyn i'r gyfundrefn newydd arfaethedig fod yn effeithiol, bydd angen sgiliau perthnasol er mwyn sicrhau bod modd gweithredu'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn.
- 3.62. Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ystyried rôl cofrestr o weithwyr proffesiynol ac rydym o'r farn bod y cynnig⁴⁶ yn un gwerthfawr. Y nod fydd darparu:
- Ffynhonnell o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymgymryd â gwaith ar ddiogelwch tomenni – heb fod yn gyfyngedig i un proffesiwn ond ar draws sbectwm ehangach o'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen, er enghraifft – peirianwyr tir, geobeirianwyr, peirianwyr sifil, mecanyddion pridd, hydrolegwyr, hydroddaeareolegwyr, ecolegwyr;
 - Cyfle gwerthfawr i ddarparu hyfforddiant a datblygiad ac i wella sgiliau;
 - Ffordd i raddedigion gael cyfleoedd ym maes diogelwch tomenni
- 3.63. Nid ydym yn bwriadu ymgynghori am y mater hwn yn y Papur Gwyn hwn oherwydd ei fod yn fater yr ymdriniwyd ag ef yn ymgynghoriad ac adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Byddai'r awdurdod goruchwyllo yn gyfrifol am oruchwyllo'r Gofrestr o Weithwyr Proffesiynol.

⁴⁴ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para. 3.65, Argymhelliad 10

⁴⁵ Ibid, para. 3.63

⁴⁶ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 10.37, Argymhelliad 34

3.64. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda Phlatform yr Amgylchedd Cymru⁴⁷ ynglŷn â datblygu Panel Arbenigol a fydd yn cynnwys sbectrwm eang o sgiliau arbenigol o'r byd academiaidd a diwydiant. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r sbectrwm ehangaf o sgiliau ac adnoddau, byddwn yn mynd ar drywydd argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i sefydlu cofrestr.

⁴⁷ Mae prifysgolion ac ymchwilwyr ledled Cymru yn cydweithio er mwyn gwella ansawdd a pherthnasedd y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer rheoli'r amgylchedd a llunio polisiau yng Nghymru

Pennod 4: Asesu'r Peryglon

Rydym yn cynnig cyflwyno asesiad o beryglon, a fydd yn cofnodi ac yn cofrestru'r holl beryglon sylweddol a nodir ar safle. Byddant yn:

- Cael eu cynnal ar bob tomen lo nas defnyddir;
- Cael eu trefnu gan yr awdurdod goruchwyllo ac yn cael eu cynnal gan berson sy'n briodol gymwys;
- Helpu i gategoreiddio tomenni glo nas defnyddir;
- Helpu i ddatblygu'r cynlluniau rheoli.

- 4.1. Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu ein cynigion ar gyfer asesu peryglon tomenni. Bydd yr asesiad hwn (sy'n debyg i'r hyn y cyfeirir ato fel 'asesiad risg'⁴⁸ yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith) yn sylfaen i'r broses categoraidd tomenni. Bydd yr asesiad yn cofnodi ac yn cofrestru'r holl beryglon sylweddol a nodir ar safle.
- 4.2. Bydd yr asesiad yn darparu'r wybodaeth allweddol er mwyn datblygu cynllun rheoli ar gyfer tomen.
- 4.3. Rydym o'r farn y dylai asesiad cywir o'r peryglon posibl fod yn sail i'r gyfundrefn arfaethedig a bydd yn ffactor allweddol wrth ei rhoi ar waith yn llwyddiannus. Wrth ddatblygu'r cynigion, rydym wedi ystyried:
- Yr angen i'r dull gweithredu fod yn hyblyg a chydabod yr amrywiaeth ar draws yr ystad tomenni - mae tomenni'n amrywio yn ôl natur, boed hynny yn ôl eu cyfansoddiad materol, hanes dyddodiadol neu hen ymyriadau a mesurau rheoli peirianyddol;
 - Gwendidau presennol o ran cadw cofnodion ynghylch lleoliadau tomenni – mae'r ystad tomenni glo nas defnyddir yn cynnwys bron i 2,500 o leoliadau, heb sôn am y mathau eraill o domenni. Mae hanes gwahanol i safle pob lleoliad, sy'n aml yn gymhleth, o'r dechrau, yn ystod ei gyfnod gweithredu i'w gau, ac fel tomen nas defnyddir. Nid oes digon o gysondeb na chywirdeb o ran lefel yr wybodaeth sydd ar gael ar draws yr ystad i gynnal dadansoddiad meintiol, nac unrhyw ddadansoddiad cadarn ar bob safle mewn modd dibynadwy;
 - Cymesuredd y gyfundrefn i fynd i'r afael â'r nifer fawr o safleoedd ledled Cymru, y mae angen eu hasesu i gyd. Mae angen i'r gyfundrefn arfaethedig allu bod yn ddigon cymesur i'w chyflawni'n effeithiol;
 - Cymhlethdod y dull gweithredu – ni ddylai'r dull arfaethedig fod yn rhy gymhleth, sy'n arwain at lai o gyflawni.
- 4.4. Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn argymhell "*...y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr*"⁴⁹. Mae ein cynnig o asesiad peryglon yn defnyddio dadansoddiad Comisiwn y Gyfraith o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'i argymhelliad. Er bod asesiad o'r fath yn hanfodol, rydym wedi ystyried yr amserlen bosibl sydd ei hangen i asesu'r peryglon ar

⁴⁸ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, Pennod 4

⁴⁹ Ibid, para 4.63, Argymhelliad 17

gyfer bron i 2,500 o domenni glo nas defnyddir, a allai gymryd cryn amser i'w cwblhau, yn enwedig felly os caiff y gyfundrefn ei hymestyn i domenni nad ydynt yn domenni glo.

4.5. Credwn, felly, fod angen rhoi blaenoriaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyda'r ffocws cychwynnol ar domenni categori uwch fel y'u darperir gan y categorïau interim presennol (gweler paragraff 5.2).

4.6. Rydym yn cynnig y dylid cynnal asesiad ar gyfer y tomenni glo categori uwch (y rhai sydd wedi'u categorïddio yn C a D ar hyn o bryd) o fewn 12 mis ar ôl i'r domen gael ei hychwanegu at y gofrestr asedau. Dylid asesu tomenni categori is (y rhai sydd wedi'u categorïddio yn B ac A ar hyn o bryd) o fewn 36 mis ar ôl i'r domen gael ei hychwanegu at y gofrestr asedau.

Y gofynion sylfaenol o ran cynnwys asesiad peryglon

4.7. Mae angen cysondeb o ran y dull o gynnal asesiad peryglon, gan sicrhau bod tomenni'n cael y lefel briodol o asesiad. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau tegwch o fewn y gyfundrefn i'r holl berchnogion tomenni nas defnyddir.

4.8. Er mwyn sicrhau cysondeb, rydym yn croesawu argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i Weinidogion Cymru ragnodi'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys_asesiad/asesiadau mewn is-ddeddfwriaeth⁵⁰. Byddai hyn yn galluogi i faterion ychwanegol gael eu hystyried lle bo hynny'n berthnasol yn ôl nodweddion penodol tomen. At ddibenion datblygu pŵer galluogi yn y bil i Weinidogion Cymru gyhoeddi is-ddeddfwriaeth, rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer y gofynion sylfaenol o ran cynnwys i gael barn rhanddeiliaid ym mharagraff 4.13.

4.9. Dylai canllawiau a ddatblygwyd gan yr awdurdod goruchwyllo ategu'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys statudol.

4.10. Rydym yn cynnig y dylai arbenigwr gynnal asesiad peryglon. Dylai'r arbenigwr fod yn rhywun a fyddai'n cael ei gategoreiddio fel swyddog proffesiynol technegol arweiniol sy'n bodloni lefelau cymhwysedd gofynnol, wedi'u diffinio, a gaiff eu nodi gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth ar ôl ymgynghori ag arbenigwyr yn y diwydiant. Rydym yn cynnig y dylai cymhwysedd gofynnol arbenigwr fod yn ddeng mlynedd o leiaf o brofiad perthnasol, neu saith mlynedd o brofiad perthnasol yn ogystal ag Aelodaeth Siartredig gyda sefydliad perthnasol. Yn sgil nifer y tomenni glo nas defnyddir a'r potensial i ymestyn i domenni nad ydynt domenni glo ac felly cynyddu'r niferoedd, credwn y dylai fod gan yr awdurdod goruchwyllo ddyletswydd i drefnu asesiadau peryglon, gan ei alluogi felly i ddirprwyo i barti arall neu gytuno â pherchennog (e.e. awdurdod lleol) sydd â'r profiad perthnasol i gynnal yr asesiad.

4.11. Mewn perthynas â'r adroddiad asesu peryglon, rydym yn cynnig mai dim ond pan gofnodir newidiadau/camau gweithredu sylweddol mewn arfarniad y caiff y ddogfen hon ei hadolygu (gweler pennod 7).

⁵⁰ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 4.64, Argymhelliad 18

Ffurflen Asesu Peryglon

- 4.12. Rydym yn cynnig datblygu 'Ffurflen Asesu Peryglon', a fydd yn cynnwys pob perygl sylweddol a nodir ar safle sydd â'r potensial i achosi anaf neu niwed i eiddo, seilwaith neu'r amgylchedd, fel y nodir gan y 'Lefel Derbynle' (gweler paragraff 4.20).
- 4.13. Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson, rydym yn cynnig bod y ffurflen asesu yn cynnwys y gofynion sylfaenol canlynol o ran cynnwys gwybodaeth ar gyfer pob perygl a gofnodwyd:
- Potensial Peryglon – disgrifydd;
 - Lefel Derbynle;
 - Tebygolrwydd;
 - Canlyniadau – disgrifydd sylfaenol, eilaidd a thrydyddol;
 - Lefel Peryglon – Wedi'i gyfrifo drwy luosi Lefel Derbynle â Thebygolrwydd;
 - Argymhellion Rheoli;
 - Dyddiad Cofnodi;
 - Dyddiad Adolygu.
- 4.14. Cynigir y bydd y lefel peryglon yn seiliedig ar ddadansoddiad ansoddol sydd wedi'i lywio gan senario sy'n dilyn dull matricsau safonol. Bydd y dull hwn yn cael ei ddefnyddio i bob perygl sylweddol a nodir ar domen i asesu potensial, ac ni fydd yn gyfyngedig i symudiad tir.
- 4.15. Cydnabyddir, mewn nifer llai o safleoedd, lle mae gwybodaeth ar gael a lle y gellir cyfiawnhau'r gofyniad gan y risg bosibl, y gellir defnyddio technegau dadansoddol manylach i gefnogi'r dull hwn ymhellach.
- 4.16. Er mwyn sicrhau cysondeb, cywirdeb, tryloywder a bod modd eu hailadrodd, cynigir y bydd y gyfundrefn yn cynnwys mesurau pellach i sicrhau ansawdd a rheolaeth (e.e. gofynion cymhwysedd proffesiynol).
- 4.17. Isod, rydym yn amlinellu'r pedwar math o berygl a phum grŵp derbynleoedd allweddol. Y **pedwar math o berygl**, sy'n adlewyrchu argymhellion 19 ac 20⁵¹ Comisiwn y Gyfraith yw:
- Symudiad Tir / Ansefydlogrwydd
 - Llifogydd
 - Llygredd
 - Ymlosgiad
- 4.18. Cynigir bod **derbynleoedd** yn cael eu dosbarthu o dan 5 grŵp allweddol (1. pobl/cymunedau, 2. eiddo, 3. seilwaith, 4. ecosystemau/yr amgylchedd, a 5. safleoedd sy'n ddiwylliannol sensitif/arwyddocaol) gyda 4 Lefel Derbynle (1. isel, 2. canolig-isel, 3. canolig-uchel, 4. uchel), fel y nodir isod ac yn Nhabl 4. Rydym yn cynnig bod risg i fywyd bob amser yn cael ei sgorio fel '4' – blaenoriaeth uchel, beth bynnag fo'r grŵp derbynleoedd. Mae Haenau 1 i 3 i'w hystyried lle mae gan y canlyniad y potensial i achosi anaf neu effeithio ar gyflwr, perfformiad gweithredol diogel neu'r gallu i'w defnyddio.

⁵¹ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, paragraffau 4.77 a 4.98

Grwpiau Derbynleoedd

1. Pobl/Cymunedau
2. Eiddo
3. Seilwaith
4. Ecosystemau/Yr Amgylchedd
5. Safleoedd sy'n ddiwylliannol sensitif/arwyddocaol

Lefelau Derbynleoedd

1. Blaenoriaeth Isel
2. Blaenoriaeth Ganolig-Isel
3. Blaenoriaeth Ganolig-Uchel
4. Blaenoriaeth Uchel

4.19. Mae Tabl 4 yn amlinellu grwpiau derbynleoedd a'r ffactorau i'w hystyried wrth bennu'r Lefel Derbynle sy'n briodol. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i ddarparu dull unigol o ymdrin â lefel peryglon ar gyfer pob tomen, gan ei gwneud yn bosibl rheoli'r safle'n mewn modd sydd wedi'i dargedu'n fwy a chefnogi gwaith datblygu unrhyw 'gynllun argyfwng' lle y gallai fod angen hynny.

4.20. Ceir lefel y perygl drwy luosi'r tebygolrwydd o'r perygl â lefel derbynle fel yr amlinellir yn Nhabl 2. Mae Tabl 3 yn darparu allwedd ar gyfer lefelau peryglon arfaethedig.

Tabl 2: Matricsau Lefel Perygl

		Tebygolrwydd				
		Tebygol iawn	Tebygol	Posibl	Annhebygol	Prin
		5	4	3	2	1
Lefel Derbynnydd	4	20	16	12	8	4
	3	15	12	9	6	3
	2	10	8	6	4	2
	1	5	4	3	2	1

Tabl 3: Allwedd Lefel Perygl

Lefel Perygl	
Difrifol	15–20
Mawr	7–14
Canolig	4–6
Bach	1–3

Cwestiwn ymgynghori:

9. A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i fesur lefel peryglon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Tabl 4: Grŵp Derbynnydd a Lefelau Derbynnydd

Lefel Derbynnydd	4: Uchel PERYGL I FYWYD	3: Canolig–Uchel	2: Canolig–Isel	1: Isel
Pobl/Cymunedau	Marwolaethau lluosog, marwolaeth Effeithio gwasanaethau sylfaenol, ble bo diogelwch yn hanfodol.	Anaf sy'n newid bywydau. Effeithio ar ddarparu gwasanaethau cymunedol nad yw bwydau yn ddibynnol arnynt.	Anaf nad yw'n newid bywyd.	N/A.
Eiddo		Adeiladau â chyfraddau defnydd uchel: Anheddau, ysgolion, ysbytai, adeiladau cymunedol, safleoedd gwaith.	Adeiladau â chyfraddau defnydd canolig: Canolfannau dosbarthu, canolfannau garddio, gweithdai, canolfannau hamdden. Caeau chwarae a hamdden. Rhandiroedd. Tir amaethyddol gwerth uchel.	Adeiladau â chyfraddau defnydd isel: Adeiladau gwag (e.e. ysguboriau, stablau, cyfleusterau storio). Coedwig, tir fferm, eiddo adfeiliedig. Tir amaethyddol gwerth isel.
Seilwaith		Seilwaith Hanfodol: Cefnffyrdd, Ffyrdd A, Rheilffyrdd Teithwyr, Pibellau Dŵr Yfed, Cyfleustodau Pŵer, Argaeau a Chronfeydd Dŵr Cofrestredig.	Pob llwybr awdurdod priffyrdd arall, gan gynnwys llwybrau beicio a llwybrau troed, ac asedau priffyrdd preifat hanfodol (e.e. unig fynediad i eiddo gwledig). Mân gyfleustodau dŵr a thelathrebu. Rheilffyrdd nad ydynt ar gyfer teithwyr.	Seilwaith bach preifat (e.e. mynediad i goedwigaeth a thraciau fferm)
Ecosystemau/ Amgylchedd		Systemau afonydd a chyrrff dŵr dynodedig. Parthau Gwarchod Ffynhonnell ac effaith dalgylchoedd. ACA, SoDdGA, SPA, Ramsar a NNR.	Cwrs dŵr cyffredin. Mân gyrff dŵr. Safleoedd a Warchodir yn Lleol (Gwarchodfeydd Natur, Safleoedd Bywyd Gwyllt, RIGS) .	Mân ddraeniau, ffosydd, cwlfertau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith hanfodol diogelwch tomenni.
Sensitif yn Ddiwylliannol/ Safleoedd Pwysig		Safleoedd Treftadaeth y Byd, Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig.	Parciau a Gerddi Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth.	Henebion archeolegol heb eu dynodi.

Pennod 5: Categoriadau

Rydym yn cynnig cyflwyno set newydd o gategoriadau ar gyfer tomenni nas defnyddir, sy'n seiliedig ar asesiad peryglon ac effaith bosibl ar dderbynleoedd.

- 5.1. Yn 2020, fel rhan o'r gwaith o gasglu data am domenni glo, datblygwyd dull categoriadau interim gan yr Awdurdod Glo, ar ran y Tasglu, i sicrhau bod senario asesu cyffredin yn cael ei ddefnyddio wrth nodi tomenni nas defnyddir. Mabwysiadwyd y meini prawf ar gyfer categoriadau yn rhannol o arferion presennol gyda phartneriaid awdurdodau lleol. Mae Blwch 1 yn rhoi trosolwg o'r categoriadau interim hyn. Mae'r diffiniadau ychydig yn wahanol i'r rhai a gynhwyswyd yn flaenorol yn ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith. Mae hynny o ganlyniad i adborth o'r broses categoriadau, a oedd yn mynd rhagddo ar ôl cyhoeddi'r papur ymgynghori.
- 5.2. Defnyddiwyd y categoriadau hyn i alluogi'r gwaith o archwilio'r tomenni categori uwch (C a D) gan yr Awdurdod Glo, fel y'u comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth nifer o awdurdodau lleol.

Blwch 1: Categoriadau Interim yr Awdurdod Glo

Categori	Meini Prawf
D	Y potensial i achosi risg i fywyd neu eiddo sydd â hanes hysbys o symudiad/arwyddion o ansefydlogrwydd
C	Y potensial i achosi perygl i fywyd neu eiddo - dim hanes hysbys o symudiad/arwyddion o ansefydlogrwydd
B	Annhebygol o achosi perygl i fywyd / eiddo
A	Tomen fach neu domen wedi'i hadfer
R	Lleoliad tomen hanesyddol – bellach wedi'i thynnu neu ei lefelu ac yn aml adeiladwyd drosti

- 5.3. Roedd y dull categoriadau interim yn darparu'r cysondeb angenrheidiol yng nghamau rhagarweiniol y broses o gasglu data tomenni. Cydnabyddir, fodd bynnag, nad yw'r dull hwn yn addas ar gyfer systemau categoriadau cadarn sy'n diogelu at y dyfodol i gyd-fynd ag uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru ac sy'n bodloni'r gofynion a nodwyd gan randdeiliaid.
- 5.4. Drwy gydol y broses o sicrhau ansawdd y data, mae nifer o faterion wedi'u nodi o ran y dull categoriadau interim gan gynnwys:

- Cwmpas – mae angen i'r dull fod yn addas ar gyfer pob perygl sy'n gysylltiedig â thomenni, nid dim ond y rhai sy'n ymwneud â sefydlogrwydd llethrau a symudiad tir;
- Nid yw'r categorïau a ddefnyddir yn ymwneud yn glir â nodweddion neu amodau penodol ac unrhyw beryglon neu risgiau cysylltiedig;
- Eglurder o ran diffiniadau – mae angen diffiniad clir ar categori a chael gwared ar unrhyw ddryswch a/neu fylchau posibl. Mae heriau wedi'u cydnabod o ran eu defnydd o ystyried y potensial ar gyfer dehongli agored;
- Fel y'i defnyddir ar hyn o bryd, nid oes digon o fanylion am yr effaith ar dderbynleoedd a gwahanol dderbynleoedd, y nodwyd eu bod yn bwysig wrth ymgynghori â rhanddeiliaid yn ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith.

5.5. Nid yw adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn mynd i'r afael â rôl categoreiddio yn benodol ond mae'n ystyried rôl ar gyfer dynodi⁵² tomenni fel rhai risg uwch neu is. Dywedodd Comisiwn y Gyfraith fod yr agweddau technegol y tu allan i gylch gwaith eu⁵³ hadolygiad ac y dylid gadael y datblygiad technegol i Lywodraeth Cymru. Mae Penodau 4 a 5 yn adlewyrchu'r agweddau technegol ar ddatblygu system categoreiddio, sy'n galluogi gofynion penodol a gofynion wedi'u blaenoriaethu ar y gwahanol categorïau o domenni.

5.6. Gwelsom werth yn argymhellion y Comisiwn (19 ac 20), a oedd yn nodi y dylai dosbarthiad risg tomenni ystyried peryglon sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd, llygredd, ymlosgiad neu lifogydd.

5.7. Rydym wedi ystyried yr argymhellion ac yn credu bod ein cynigion yn adlewyrchu bwriad Comisiwn y Gyfraith. Er nad yw'n seiliedig ar ddynodi tomenni yn domenni categori uwch ac is, credwn fod ein dull gweithredu a nodir yn y Bennod hon a Phennod 4 yn adlewyrchu nifer o'r ystyriaeth a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac ymatebwyr i'w ymgynghoriad, yn enwedig y rhyng-gysylltiad rhwng asesiad risg, categoreiddio⁵⁴ risg a dynodiadau. Yn y Bennod hon rydym yn amlinellu ein dull gweithredu arfaethedig.

System Gategoreiddio Arfaethedig

- 5.8. Rydym yn cynnig y bydd yn ofynnol i'r awdurdod goruchwyllo ddarparu categori newydd i bob tomen, oni bai ei fod yn ystyried bod categori presennol yn briodol. Bydd y categoreiddio'n cael ei wneud ar ôl gwerthuso'r **'Ffurflen Asesu Peryglon'**, a nodir ym Mhennod 4, ac adolygu ffactorau perthnasol eraill sy'n benodol i'r safle. Bydd hyn yn arwain at drosglwyddo o'r categorïau interim cyfredol i'r categorïau statudol newydd.
- 5.9. Gall ffactorau sy'n benodol i'r safle, er enghraifft, gynnwys y baich atebolrwydd posibl sy'n gysylltiedig â gwaith cynnal a chadw a rheoli safle tomen yn ddiogel ac yn effeithiol (e.e. seilwaith hanfodol diogelwch mawr), lle nad yw'n ymarferol bosibl, nac yn rhesymol, i'r baich hwn gael ei ysgwyddo gan barti cyfrifol posibl. Yn yr achos hwn, lle nad yw'r domen yn domen categori 1, dylid grymuso'r

⁵² Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, Pennod 6

⁵³ Ibid, para 6.9

⁵⁴ Ibid, Argymhelliad 17, para 4.63.

awdurdod goruchwyllo i ddynodi'r domen yn un o 'arwyddocâd' a'i rheoli ganddo mewn cytundeb â'r perchennog tir a bod ei waith rheoli yn cael ei drefnu drwy gytundeb cynnal a chadw (gweler Pennod 7).

5.10. Nod ac amcanion system gategoreiddio newydd yw:

- sicrhau cysondeb, cywirdeb a thryloywder wrth gategoreiddio pob tomen nas defnyddir;
- galluogi ei defnyddio ar gyfer pob math o berygl sylweddol sy'n gysylltiedig ag asedau tomen;
- darparu proses amlwg glir sy'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gref;
- sicrhau y caiff lefelau derbynleoedd eu dosbarthu'n briodol yn ôl y peryglon a'r risgiau posibl sy'n gymwys o dan y gyfundrefn;
- i gategorïau gael eu llywio gan asesiad manwl o'r holl beryglon sylweddol ar unrhyw un safle;
- darparu dull rheoli addasol ar gyfer gategoreiddio, gan sicrhau ei fod yn agored i'w adolygu.

Categorïau Arfaethedig

5.11. Cynigir cyflwyno cyfanswm o bum categori o dan y gyfundrefn newydd. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Categorïau Tomenni

Categori	Statws	
1	Uchel	Trefn Weithredol
2	Canolig	
3	Isel	
4	Isel iawn	
5	Eithriad*	Segur

*Byddai'n cynnwys y tomenni 'de minimis' arfaethedig

5.12. Rydym yn cynnig symud i ffwrdd o'r dull A i D, er ei fod yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd drwy gategorïau interim, mae'n debygol y bydd defnyddio'r dull asesu peryglon yn newid y dadansoddiad ar draws categorïau yn y gyfundrefn newydd.

5.13. Er mwyn bodloni gofynion y Gymraeg, bydd y categorïau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly, rydym yn cynnig symud oddi wrth y dull A i D a defnyddio rhifau yn lle hynny.

5.14. Ni wnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhell hawl i apelio yn erbyn dynodiad tomen am yr un rheswm â dim hawl i apelio yn erbyn categori risg:

“...dosbarthu risg yn benderfyniad technegol sy’n seiliedig ar ystyriaeth fanwl o briodweddau’r domen a’i lleoliad, ac yn arwydd i’r cyhoedd o’r categori eang o ddull gweithredu sydd i’w ddefnyddio ar gyfer ei rheoli.”⁵⁵

- 5.15. Fodd bynnag, fe wnaethant ein gwahodd i ystyried a oes gwerth mewn system o ddynodi dros dro a chyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl hynny. Mae hyn yn debyg i’r dull gweithredu fesul cam y darperir ar ei gyfer yn Neddf Cronfeydd Dŵr 1975, sy’n darparu ar gyfer dynodiad dros dro yn seiliedig ar wybodaeth a geir i ddechrau gan y rheoleiddiwr, cyfnod ar gyfer sylwadau fel y gall y perchennog gywiro gwallau neu ddarparu tystiolaeth bellach, a dynodiad terfynol yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd.
- 5.16. Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ynghylch a fyddai dull gweithredu fesul cam yn werthfawr, yn enwedig ar gyfer y categorïau uwch, gan alluogi perchennogion i gyflwyno sylwadau i’r awdurdod goruchwyllo ar y categori dros dro.

Cwestiwn ymgynghori:

10. A ydych yn cytuno â’r hyn y bwriedir ei wneud o ran datblygu categorïau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Newid Categorïau

- 5.17. Rydym yn cynnig y dylai fod gan yr awdurdod goruchwyllo bŵer i ddiwygio categori tomen naill ai i fyny neu i lawr, lle mae newidiadau neu gamau gweithredu wedi’u cofnodi gyda’r potensial i newid y perfformiad peryglon a lefel derbynle ac, yn dilyn hynny, y risg bosibl ar safle.

Categorïau Rhagnodedig

- 5.18. Yn unol ag argymhelliad 25⁵⁶ Comisiwn y Gyfraith ar gyfer y meini prawf sydd i’w rhagnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol, rydym hefyd yn cytuno y dylid defnyddio’r dull hwn ac y dylid datblygu hyn mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr⁵⁷. Credwn hefyd, ar ôl i’r awdurdod goruchwyllo adolygu ac argymhell y meini prawf, y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio’r meini prawf drwy offeryn statudol.

⁵⁵ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 6.86.

⁵⁶ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 6.70

⁵⁷ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, Argymhelliad 26, para 6.71

Pennod 6: Clystyrau o Domenni a Chynlluniau Rheoli

Rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo:

- nodi pob clwstwr rhyngddibynnol a chyfagos;
- llunio cynllun rheoli ar gyfer clystyrau o domenni rhyngddibynnol
- llunio cynllun rheoli ar gyfer tomenni categori 1;

Mae gan yr Awdurdod Goruchwyllo y pŵer i drefnu gwaith datblygu cynlluniau rheoli.

Rydym yn cynnig dull dwy raddfa o ymdrin â chynlluniau rheoli, sef:

- a) bod tomenni statws uwch (1 a 2) angen cynllun rheoli ar raddfa lawn o fewn 18 mis i ychwanegu tomen at y gofrestr;
- b) bod tomenni statws is (3-5) angen cynllun ar raddfa is o fewn 36 mis i ychwanegu tomen at y gofrestr

Mae'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys cynlluniau rheoli i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth statudol.

6.1. Ym Mhennod 4, rydym yn nodi ein dull o gynnal asesiad peryglon, a fydd yn helpu i gategoreiddio tomen (Pennod 5), ac mae'r ddau ffactor hyn yn helpu i nodi'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer rheoli tomen. Yn y bennod hon rydym yn ystyried rôl y cynllun rheoli a'i ddatblygiad.

Clystyrau o Domenni

6.2. Fodd bynnag, credwn fod gwerth mewn ystyried rheoli clystyrau neu grwpiau o domenni ar y cyd, gan nad yw tomenni'n aml wedi'u lleoli ar eu pennau eu hunain ond yn gyfagos at ei gilydd. Rydym wedi nodi dau fath o glystyrau o domenni:

- **Rhyngddibynnol:** Lle mae perfformiad peirianyddol neu amgylcheddol tomen(ni) yn cael ei rannu â pherfformiad safleoedd tomenni cyfagos, neu'n dibynnu arnynt, gan arwain at rhyngddibyniaethau. Er mwyn sicrhau rheolaeth ddiogel ac effeithiol, dylid rheoli'r tomenni fel un.
- **Cyfagos:** Lle gellir clystyru tomenni (agosrwydd, hanes y safle, mynediad ac ati) i fanteisio ar effeithlonrwydd gweithredol posibl wrth reoli tomenni yn y grŵp hwn.

6.3 Credwn fod nifer o fanteisio o ddefnyddio'r dull hwn gan gynnwys:

- Ystyried effeithiau posibl tomenni cyfagos pe baent yn llithro;
- Rheolir tomenni lefel is o fewn grŵp o domenni;
- Arbedion maint ar gyfer effeithlonrwydd rheoli.

- 6.4 Rydym yn cynnig y dylai fod gan yr awdurdod goruchwyllo ddyletswydd i nodi pob clwstwr o domenni er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng clystyrau rhyngddibynnol a chyfagos.
- 6.5 Dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gyfrifol am ddatblygu cynllun rheoli, sy'n cwmpasu pob tomen o fewn clwstwr rhyngddibynnol, ond mae ganddo'r disgresiwn i benderfynu mewn perthynas â chlystyrau cyfagos, a yw'n fuddiol iddo arwain ar ddatblygu cynllun rheoli lle mae'r clwstwr cyfagos yn cynnwys tomen categori 1.

Cwestiwn ymgynghori:

11. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran clystyrau o domenni rhyngddibynnol a chyfagos?

Cynlluniau Rheoli

- 6.6 Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys argymhelliad⁵⁸ i'r awdurdod goruchwyllo drefnu i lunio cynllun rheoli ar gyfer pob tomen yn y gofrestr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn yng ngoleuni'r bwriad i ymestyn y drefn i domenni sborion eraill. Oherwydd graddfa bosibl dyletswydd o'r fath, rydym yn cytuno na ddylai'r un corff fod yn gyfrifol am lunio'r holl gynlluniau rheoli, ond dylai fod yn ofynnol i berchnogion gymryd rhan yn yr ymarfer hwn hefyd.
- 6.7 Fel yr amlinellir ym mharagraff 6.2 ar glystyrau o domenni, credwn y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i lunio cynlluniau rheoli ar gyfer clystyrau rhyngddibynnol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys tomenni statws uwch⁵⁹. Credwn y dylai'r awdurdod goruchwyllo arwain y gwaith trefnu ar gyfer llunio cynlluniau rheoli ar gyfer y tomenni statws uwch, y rhai a gaiff eu categoreiddio yn 1 (fel y cynigir ym Mhennod 5) gan y gallai'r tomenni hyn achosi'r peryglon mwyaf. Fodd bynnag, os yw'r domen categori 1 yn cael ei rheoli gan barti sydd â'r lefel berthnasol o arbenigedd, gall yr awdurdod goruchwyllo drefnu i'r cynllun rheoli gael ei ddatblygu gan y parti hwnnw.
- 6.8 Os oes tomenni statws uwch mewn clwstwr cyfagos, dylai'r awdurdod goruchwyllo ystyried arwain ar waith datblygu cynlluniau rheoli, lle byddai gwneud hynny'n sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- 6.9 Unwaith y bydd yr awdurdod goruchwyllo wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â mapio clystyrau rhyngddibynnol a chyfagos, gall drefnu i berchnogion tomenni sy'n weddill ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer eu tomen neu domenni.

⁵⁸ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 4.63, Argymhelliad 17

⁵⁹ Rydym yn defnyddio'r term 'categori uwch' i gyfeirio at y tomenni a categoreiddiwyd o dan y dull gweithredu interim a 'statws uwch' o dan y categorïau newydd.

Graddfa Cynllun Rheoli

6.10 Rydym yn gweld gwerth o ran sylwadau rhanddeiliaid yn ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar beidio â defnyddio ateb unffurf ar gyfer fformat cynlluniau rheoli⁶⁰. Ni ddylai perchnogion tomenni ar raddfa fach sydd â risg isel i ddim risg fod o dan unrhyw ddyletswydd feichus i ddatblygu cynllun rheoli cymhleth, yn enwedig lle nad oes ganddynt o bosibl yr arbenigedd neu'r mynediad perthnasol iddo. Bydd y dull categoraidd newydd (gweler pennod 5) yn seiliedig ar lefelau peryglon yn helpu i nodi'r tomenni, a fydd angen cynllun rheoli ar raddfa lawn a'r rhai y mae angen cynllun llai manwl arnynt. Byddai ein cynnig ar gyfer tomen 'de minimis' hefyd yn dileu rhwymedigaethau penodol mewn perthynas â'r tomenni hyn ac rydym yn cynnig ei fod yn annhebygol y bydd angen cynllun rheoli ar domen de minimis.

6.11 O'r herwydd, rydym yn cynnig dull dwy haen o ymdrin â chynlluniau rheoli:

- Tomenni categori uwch a thomenni mewn clwstwr rhyngddibynnol – gwneud cynllun rheoli ar raddfa lawn yn ofynnol – (gweler paragraff 6.13 am fanylion) o fewn 18 mis i'r domen yn cael ei hychwanegu at y gofrestr asedau; a
- Tomenni categori is – gwneud cynlluniau rheoli sylfaenol yn ofynnol – (gweler paragraff 6.16 am fanylion) o fewn 36 mis domen yn cael ei hychwanegu at y gofrestr asedau.

Y gofynion sylfaenol o ran cynnwys Cynllun Rheoli

6.12 Rydym yn cynnig y gall Gweinidogion Cymru, drwy ddeddfwriaeth statudol, ragnodi'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys cynlluniau rheoli⁶¹, ac y dylai'r pŵer hwn hefyd alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys, pan fo tystiolaeth ac ymgynghori ymlaen llaw â'r awdurdod goruchwyllo yn argymhell diwygio. Rydym hefyd yn cynnig y gall yr awdurdod goruchwyllo wneud argymhellion i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys.

Tomenni statws uwch a thomenni mewn clwstwr rhyngddibynnol

6.13 Amlinellwyd ym mharagraff 3.33 ein bwriad i gasglu cofnodion hanesyddol. Fel y nododd rhai rhanddeiliaid, byddant yn darparu gwybodaeth bwysig am nifer o agweddau allweddol ar ddyluniad tomen (lle bo'n berthnasol) a'r strwythur draenio. Credwn, lle mae'r rhain ar gael, y dylent ddarparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer datblygu cynllun rheoli. Fodd bynnag, hyd nes y bydd yr ymarfer i adfer a chasglu'r cofnodion hyn wedi'i gynnal, nid ydym wedi cynnwys cofnodion hanesyddol fel rhan o'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys, ond rydym yn cynnig lle mae'r rhain ar gael, y gellir eu hystyried yn yr asesiad peryglon a'r cynllun rheoli.

⁶⁰ Ibid, Pennod 4

⁶¹ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 4.64, Argymhelliad 18

6.14 Rydym yn cynnig y canlynol fel gofynion sylfaenol o ran cynnwys:

- Amserlennu archwiliadau ac arfarniadau - gall hyn gynnwys archwiliadau ychwanegol os bydd angen mwy o archwiliadau nag sy'n ofynnol gan y categori oherwydd manylion y domen;
- Datganiad o ofynion mathau ychwanegol o archwiliadau arbenigol - ecolegol, draenio, y gallai fod eu hangen fel y'u pennir yn ôl manylion domen;
- Y protocol ar gyfer ymateb archwilio yn sgil tywydd garw, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer archwiliadau cyn ac ar ôl tywydd garw e.e. glaw trwm a chan gynnwys, lle y bo'n briodol, lefelau trothwy megis lefelau glaw o fewn amserlen benodol;
- Rhaglen ragweithiol o waith cynnal a chadw ac adweirio i reoli peryglon a nodwyd mewn asesiad peryglon;
- Proffil Tomen – cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r domen wedi'i lleoli mewn safle dynodedig, safle treftadaeth, agosrwydd at afonydd a gwybodaeth amgylcheddol/ecolegol allweddol arall.

6.15 Gwybodaeth arall, y gellid ei chynnwys fyddai rôl technoleg ar y domen i fonitro unrhyw symudiad tir neu ddŵr.

Tomenni statws is nad ydynt mewn clwstwr

6.16 Yn gyffredinol, rydym yn cynnig y gall y cynlluniau rheoli hyn fod yn symlach o ran eu natur ac y dylai'r canlynol fod yn ofynion sylfaenol o ran cynnwys:

- Amserlen o archwiliadau ac arfarniadau (lle bo'n berthnasol);
- Gofynion cynnal a chadw cyffredinol tomen.

Canllawiau

6.17 Rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo ddarparu canllawiau ar yr wybodaeth allweddol sydd i'w chynnwys mewn cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni statws uwch ac is.

Cymeradwyo

6.18 Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo gymeradwyo unrhyw gynlluniau rheoli a gaiff eu llunio gan berchennog⁶². Rydym wedi ystyried hyn yng ngoleuni nifer y tomenni glo nas defnyddir a'r estyniad posibl i domenni sborion eraill, a chredwn y gallai hyn fod yn dasg feichus i'r awdurdod goruchwyllo. Rydym o'r farn fod gwerth i'r awdurdod goruchwyllo gymeradwyo cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni statws uwch a chynnal gwiriadau cydymffurfio ar gyfer cynlluniau rheoli tomenni statws is.

⁶² Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 4.63, Argymhelliad 17

Cwestiwn ymgynghori:

12. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.

Cael gweld gwybodaeth

- 6.19 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal archwiliad technegol a datblygu cynllun rheoli, rydym yn cynnig bod gan yr awdurdod goruchwyllo bŵer i ofyn am ddata a gwybodaeth gan berchennog tomen sy'n ymwneud â'r domen a/neu'r tir cyfagos, lle na fyddai'r cais hwn yn groes i unrhyw rwymedigaethau statudol ar y parti y gofynnwyd am y data ganddo, neu y byddai darparu'r data yn rhoi baich trwm ar y parti.

Pennod 7: Archwiliadau/Arfarniadau, Cynnal a Chadw a Chytundebau Cynnal a Chadw

Rydym yn cynnig:

- Dull tair haen o wiriadau parhaus o domenni nas defnyddir ar amllder penodol;
- Bod y partïon sy'n gyfrifol am wiriadau yn dibynnu ar gategori'r domen;
- Dull safonol o ymdrin ag adroddiadau;
- Gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiadau archwilio/arfarnu fel y'u pennir gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth;
- Gofynion i gynnal gwaith cynnal a chadw;
- Cyflwyno cytundebau cynnal a chadw.

7.1. Rydym yn cytuno ag adroddiad Comisiwn y Gyfraith ynghylch yr angen i domenni glo fod yn destun gwiriadau. Mae argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ystyried archwiliad cychwynnol⁶³ ac asesiad risg, yr ydym wedi'u hystyried mewn perthynas â'n hasesiad peryglon arfaethedig a ddarperir ym Mhennod 4. Rydym yn cytuno bod archwiliad cychwynnol o'r tomenni yn bwysig ac rydym yn gweld gwerth yn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith '*oni bai ei fod [yr awdurdod goruchwyllo] yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal*'⁶⁴. Credwn y bydd y cylchoedd presennol a pharhaus o archwiliadau gan yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol yn helpu i fodloni'r gofyniad hwn.

7.2. Yn y bennod hon rydym yn canolbwyntio ar y gofyniad am wiriadau parhaus ar domenni a sut y cânt eu cynnal a'u cadw. Mae nifer o ffactorau, y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu rhaglen o wiriadau, sy'n effeithiol ac y gellir eu cyflawni. O dan y categorïau presennol, er bod tomenni categori uwch (327), mae nifer sylweddol o domenni hefyd (y mwyafrif, sef 2,129), sy'n gofyn am wiriadau llai aml. Rydym hefyd yn ceisio cynllunio cyfundrefn, a all ehangu i gynnwys tomenni sborion eraill, a all fod yn unrhyw le oddeutu 20,000 a mwy, a fyddai'n defnyddio llawer o adnoddau pe bai pob tomen yn destun yr un math o archwiliad.

7.3. Mae cyfundrefn fonitro sydd wedi'i diffinio'n glir yn elfen sylfaenol o unrhyw gyfundrefn reoli newydd i roi hyder i'r cyhoedd bod tomenni'n cael eu hasesu a darparu cofnod cyfredol o gyflwr yn ogystal ag unrhyw waith angenrheidiol sy'n cael ei nodi.

7.4. Mae angen i'r gyfundrefn newydd fod yn gymesur a bod modd ei chyflawni. Yng ngoleuni'r ffactorau hyn ac ar ôl trafod gyda phartneriaid, rydym yn cynnig system tair haen o wiriadau a ddarperir yn Nhabl 6 a Diagram 2. Mae hyn yn cynnwys dull dwy haen o fonitro parhaus a chynnwys asesiad peryglon, yn unol â'r hyn a drafodir ym Mhennod 4.

⁶³ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 4.32, Argymhelliad 15

⁶⁴ Ibid

Tabl 6: Dull Tri Haen

Math o Wiriad	Disgrifiad	Cymhwysedd Personel
Archwiliad	Archwiliad 'llai technegol' lle defnyddir ffurflen safonol i adrodd am gyflwr a pherfformiad mathau allweddol o nodweddion ar y safle (e.e. sianeli draenio). Archwiliadau - Gellir eu cwblhau fel hunanasesiad gan y parti cyfrifol ar gyfer safleoedd statws is – yn ei hanfod yn gadarnhad nad oes dim wedi newid. Os bydd archwiliad yn nodi newid cyflwr sydd â'r potensial i newid perfformiad diogel y domen, yna byddai hyn yn sbarduno 'Archwiliad' ar unwaith, waeth pryd y cwblhawyd yr un diwethaf neu'r un nesaf a drefnwyd.	Archwilydd: Personél sydd â mynediad at hyfforddiant, arweiniad ac adnoddau eraill i gyflawni rôl.
Arfarniad	Arfarniad technegol manwl a chynhwysfawr, gan gynnwys archwilio safleoedd. Yn darparu catalog manwl o'r holl nodweddion, eu cyflwr a'u sylwadau cyffredinol ar y safle. Gwneir argymhellion ar gyfer gwaith cynnal a chadw, lle bo hynny'n berthnasol.	Arfarnwr: Gweithiwr proffesiynol technegol gyda'r lefelau cymhwysedd gofynnol.
Asesiad	Ffurflen Asesu Peryglon yn nodi'r nodweddion allweddol ar safle. Yn hollbwsig, mae'n cynnwys cofrestr o'r holl beryglon arwyddocaol gydag asesiad cysylltiedig. Yr Asesiad yw sylfaen categorieiddio tomen. Dim ond pan fydd newidiadau/camau gweithredu arwyddocaol yn cael eu cofnodi mewn Arfarniad y caiff y ddogfen hon ei hadolygu – gweler pennod 4 am fanylion.	Arbenigwr: Gweithiwr proffesiynol technegol arweiniol yn bodloni lefelau cymhwysedd gofynnol.

Diagram 2: Y gyfundrefn tair haen arfaethedig

1 Archwiliad

Cynhelir gan **archwilydd**

- Archwiliad cyffredinol/ymarfer 'ticio blychau'
- Cofnodi newidiadau posibl i'r cyflwr
- Hunanasesu ar gyfer tomenni categori is
- Amlach

2 Arfarniad

Cynhelir gan **arfarnwr**

- Arfarniad manwl, gan gynnwys archwilio'r safle
- Pa mor aml yn dibynnu ar y categori neu os cofnodir yn ystod archwiliad bod y cyflwr wedi newid

3 Asesiad

Cynhelir gan **arbenigwr**

- Sylfaen y gyfundrefn categorieiddio tomenni
- Angen asesiad ar gyfer pob tomen
- Dim ond yn cael ei adolygu os nodir yn ystod Arfarniad bod angen gweithredu
- Yn sail i gytundebau rheoli/cynnal a chadw

7.5. Ystyriwyd asesiadau peryglon ym mhennod 4. Yn y bennod hon rydym yn canolbwyntio ar archwiliadau ac arfarniadau. Er mwyn adlewyrchu'r categorïau (gweler Pennod 5) a'r peryglon a'r effaith bosibl ar dderbynle, rydym yn cynnig, fel y nodir yn Nhabl 7, yr amllder canlynol ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau i'r pum categori. Byddem hefyd yn disgwyl, yn enwedig mewn perthynas â thomenni Categori 1, y byddai archwiliadau'n cael eu cynnal cyn ac ar ôl unrhyw dywydd arwyddocaol.

Tabl 7: Categoriâu ac Amllder Gwiriadau

Categori	Amllder	
	Archwiliad	Arfarniad
1	6 mis	Blwyddyn
2	12 mis	2 flynedd
3	24 mis	5 mlynedd
4	24 mis	N/A*
5	Eithriad	Eithriad

*Mae arfarniad yn ofynnol dim ond pan fydd archwiliad yn ei sbarduno neu'n dilyn adroddiad o newid sylweddol i gyflwr y safle

Cwestiwn ymgynghori:

13. A ydych yn cytuno â'r dull tair haen a pha mor aml y bwriedir cynnal gwiriadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Y parti sy'n arwain ar drefniadau ar gyfer archwilio ac arfarnu tomenni

- 7.6. O ran pwy fyddai'n arwain ar wneud trefniadau ynghylch gwirio statws tomenni, rydym wedi ystyried goblygiadau posibl ymestyn y gyfundrefn i bob tomen sborion, a chredwn y byddai gosod dyletswydd ar gyfer pob archwiliad ac arfarniad ar un corff yn rhy feichus ac na fyddai modd ei chyflawni. Mae hyn yn cael ei ddwysáu ymhellach gan y diffyg sgiliau ac arbenigedd cyffredinol presennol yn y maes hwn.
- 7.7. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen⁶⁵. Rydym yn cydnabod bod hyn yn adlewyrchu maint y dasg ac yn rhannu'r cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau, ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod goruchwyllo ddirprwyo i eraill. Credwn, er mwyn sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, y dylai'r ddeddfwriaeth nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ba categori o domen, gan roi digon o wybodaeth i bartion ymlaen llaw ynghylch pa gyfrifoldebau y bydd yn ofynnol iddynt eu cyflawni.
- 7.8. Rydym yn cynnig bod y partion canlynol yn arwain ar waith trefnu gwiriadau fel y nodir yn Nhabl 8.

⁶⁵ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 4.32, Argymhelliad 15

Tabl 8: Categoriâu, gwiriadau a pherson cyfrifol

Categori	Person Cyfrifol	Amlder	
		Archwiliad	Arfarniad
1	Awdurdod Goruchwylio	6 mis	Blwyddyn
2	Awdurdodau Lleol – ar gyfer eu rhai eu hunain a'r rhai mewn perchnogaeth breifat (ble yn briodol)	12 mis	2 flynedd
3	Perchnogion	24 mis	5 mlynedd
4	Perchnogion	24 mis	N/A*
5	Perchnogion	Eithriad	Eithriad

*Mae arfarniad yn ofynnol dim ond pan fydd archwiliad yn ei sbarduno neu'n dilyn adroddiad o newid sylweddol i gyflwr y safle

- 7.9. Yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y gall yr awdurdod goruchwylio drefnu archwiliad, cynigiwn y gall gytuno â pharti, sydd â'r lefel berthnasol o brofiad i gynnal archwiliadau a/neu arfarniadau ar ei ran. Bydd sefydliadau fel CNC yn parhau i fod yn gyfrifol am ei holl domenni a gallant weithio gyda'r awdurdod goruchwylio neu unrhyw barti cymwys arall i gynnal yr archwiliadau a'r arfarniadau gofynnol.
- 7.10. Byddai awdurdodau lleol yn arwain ar drefniadau ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau ar gyfer eu tomenni categori 2 eu hunain a thomenni categori 2 ar dir preifat. Er y bydd sefydliadau fel CNC yn parhau i fod yn gyfrifol am ei thomenni ei hun ac yn gallu gweithio gyda'r awdurdod goruchwylio neu unrhyw barti cymwys arall i gynnal yr archwiliadau a'r arfarniadau gofynnol.
- 7.11. Rydym hefyd yn cynnig, mewn perthynas â chategoriâu 3 a 4, fod gan y perchennog neu'r meddiannydd ddyletswydd i roi gwybod ar unwaith am unrhyw newidiadau sylweddol i gyflwr y safle (e.e. rhywbeth a allai ddadsefydlogi'r domen) ar unrhyw adeg. Adroddir hyn yn uniongyrchol i'r awdurdod goruchwylio i gyfeirio camau gweithredu.
- 7.12. Er mwyn goruchwylio'r gyfundrefn, rydym yn cynnig y dylai fod gan yr awdurdod goruchwylio ddyletswydd i sicrhau bod archwiliadau ac arfarniadau'n cael eu cynnal o fewn yr amserlenni a awgrymir (Tabl 9) a bod ganddynt bŵer i gynnal hapwiriadau o'r tomenni hynny, nad yw'n gyfrifol amdanynt am gynnal archwiliadau neu arfarniadau ar eu cyfer. Mater i'r awdurdod goruchwylio fydd pennu lefel y monitro ar y tomenni y bydd yn ymgymryd â hwy mewn unrhyw flwyddyn benodol. Amlinellir yr hawliau mynediad i ymgymryd â'r pŵer hwn ym Mhennod 8.
- 7.13. Ein bwriad hefyd yw defnyddio technoleg (fel sy'n cael ei threialu yn ein treialon technoleg – gweler Atodiad 3), i gefnogi'r gwaith o fonitro tomenni'n barhaus ac i

ddarparu gwybodaeth am unrhyw newid cyflwr (e.e. symudiad tir neu ddefnydd tir). Rydym yn cynnig bod yr awdurdod goruchwylio yn goruchwylio unrhyw waith monitro technolegol ond y gall weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y data'n cael eu derbyn ar y lefel briodol er mwyn i gamau gael eu cymryd.

Cwestiwn ymgynghori:

14. A ydych yn cytuno â rhannu cyfrifoldebau ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.

Dilyniant

- 7.14. Rydym yn cynnig ar gyfer categorïau 1 i 3 mai arfarniad yw'r gwiriad cyntaf a gynhelir ar ddechrau'r gyfundrefn statudol newydd a bod archwiliadau ac arfarniadau dilynol wedi hynny yn unol â'r gofynion amseru a nodir yn Nhabl 9.
- 7.15. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl hefyd y bydd angen cynnal mathau penodol o asesiad megis asesiad geodechnegol, draenio ac ecolegol a gellir trefnu'r rhain yn ôl y gofyn.
- 7.16. Er enghraifft, lle mae angen archwiliad ar domen categori 1 bob 6 mis ac arfarniad bob 12 mis, lle mae'r amserlen archwilio ac arfarnu yn cyd-daro, gellir cynnal y rhain ar yr un pryd.

Dull wedi'i safoni

- 7.17. Er mwyn sicrhau cysondeb yn y dull o gynnal archwiliadau, credwn y dylid cyflwyno dull wedi'i safoni. Er mwyn adlewyrchu'r gwahanol lefelau o wiriadau – ni fyddai archwiliadau ac arfarniadau ar ddull 'unffurf' ar gyfer y 5 categori yn briodol. Hefyd, mae angen i'r safoni adlewyrchu lefel y gwiriad sy'n cael ei gynnal a bod yn gymesur â chategori'r domen fel yr adlewyrchir gan ei asesiad peryglon.
- 7.18. Yn nhrydydd cylch yr archwiliadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Glo⁶⁶, rydym wedi dechrau treialu'r hyn a allai fod yn briodol fel gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiad arfarnu. Gan weithio gyda'n partneriaid yn y Tasglu, rydym wedi nodi'r canlynol fel gwybodaeth sylfaenol allweddol posibl i'w chynnwys mewn adroddiad arfarnu:

Gwybodaeth Weinyddol

- Rhif Adnabod Unigryw;
- Categori;
- Lleoliad;
- Dyddiad yr arfarniad cyfredol a'r arfarniad diwethaf
- Tywydd.

⁶⁶ Hydref 2021-Chwefror 2022

Gwybodaeth Dechnegol

- Geodechnegol;
- Seilwaith peirianeg;
- Seilwaith draenio;
- Offer a monitro;
- Defnydd tir
- Halogiad/geoamgylcheddol

7.19. Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiadau, rydym hefyd yn cynnig y dylid cynnwys tystiolaeth ffotograffig. Dylid hefyd nodi lleoliad unrhyw faterion a nodwyd ar y domen yn yr adroddiad a'u marcio ar ffotograffau/mapiau.

7.20. Rydym yn cynnig y dylai'r gofynion sylfaenol o ran cymhwysedd arfarnwr fod yn bum mlynedd o leiaf o brofiad perthnasol.

7.21. Mewn perthynas ag adroddiad archwilio, rydym yn cynnig dull syml, safonol o ymdrin â statws y domen. Yn yr adroddiad hwn, yr wybodaeth allweddol fydd a yw cyflwr y domen wedi newid. Rydym yn cynnig y canlynol fel gofynion sylfaenol o ran cynnwys:

Gwybodaeth Weinyddol

- Rhif Adnabod Unigryw;
- Categori;
- Lleoliad;
- Dyddiad yr archwiliad presennol a'r archwiliad diwethaf
- Tywydd.

Gwybodaeth Dechnegol

- Symudiad Tir;
- Gwybodaeth am ddraenio – ar yr wyneb ac o dan yr wyneb – er enghraifft – a yw'r draeniau dŵr wyneb, ffosydd a chwlfertau yn foddhaol, a yw'r draeniau o dan yr wyneb mewn tomen yn ddigonol ac yn foddhaol;
- Erydu – er enghraifft unrhyw erydu neu dandorri llethrau;
- Unrhyw arwyddion o hylif yn gollwng;
- Defnydd tir;
- Llygredd.

7.22. Bydd ffotograffau ar gyfer pob math o wybodaeth dechnegol berthnasol hefyd yn bwysig i'w cynnwys yn yr adroddiad.

7.23. Bydd yn bwysig i berchennog adrodd os oes unrhyw symudiad tir newydd neu symud tir sy'n gwaethygu. Os yw hyn wedi digwydd, dylai hyn sbarduno arfarniad.

- 7.24. Bydd y gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiadau archwilio ac arfarnu i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth. Yn dilyn argymhelliaid gan yr awdurdod goruchwyllo, gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r gofynion sylfaenol o ran cynnwys.

Gofynion amseru ar gyfer gwaith cynnal a chadw

- 7.25. Bydd yn bwysig nodi a yw unrhyw waith a nodwyd mewn archwiliad neu arfarniad yn waith brys neu'n waith arferol. Rydym yn cynnig bod statws amserlen yn cael ei ddarparu mewn adroddiadau i nodi pa mor hwylus yw gofynion y gwaith.
- 7.26. Rydym yn cydnabod y gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y cychwyn a hefyd ar gynnydd y gwaith, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
- Mynediad i'r safle, yn enwedig oherwydd lleoliad y domen a diffyg ffyrdd hygyrch;
 - Gofynion dylunio;
 - Logisteg, yn enwedig a oes angen peiriannau arbennig;
 - Y tywydd.
- 7.27. Yn sgil y ffactorau hyn, er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad amserlen a ddarperir mewn adroddiad, dylai perchennog o leiaf ddangos bod rhyw fath o gamau wedi'u cymryd o fewn yr amserlen benodedig, megis archwiliadau pellach, paratoi gwaith dylunio neu ymgynghoriadau pellach ar y camau priodol i'w cymryd.

Cwestiwn ymgynghori:

15. A ydych yn cytuno â'r cynnig ar gyfer y gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiadau ac, os felly, beth ydych chi'n ystyried sy'n wybodaeth hanfodol?

Gwaith Cynnal a Chadw/Adweirio

- 7.28. Mae gwaith cynnal a chadw ac adweirio tomenni yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau eu diogelwch yn y tymor hir.
- 7.29. Rydym yn dilyn yr un egwyddorion o ran pwy ddylai fod yn arwain ar y trefniadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ag ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau ac yn cael ein llywio gan adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Yn yr adroddiad, mae Comisiwn y Gyfraith wedi canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng y tomenni (dynodedig) uwch a thomenni dynodedig is. Credwn fod ein dull gweithredu fel y'i cyflwynir yn y rhestr o gategorïau (gweler paragraff 5.11) yn adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn rhwng tomenni statws uwch a thomenni statws is.
- 7.30. Yn Nhabl 9, rydym yn cynnig pwy all arwain ar waith trefnu i gynnal a chadw ac adweirio tomenni. Unwaith eto, rydym wedi ystyried goblygiadau'r posibilrwydd o ymestyn y gyfundrefn i'r tomenni nad ydynt yn domenni glo a'r effaith y byddai

hyn yn ei chael ar unrhyw gorff unigol. Nid yw bod yn barti sy'n arwain yn golygu bod yn rhaid i'r parti hwn wneud y gwaith ond gall drefnu i drydydd parti neu gcontractwr sydd â chymwysterau addas wneud y gwaith ar ei ran.

Tabl 9: Person Cyfrifol ar gyfer trefnu cynnal a chadw ac adfer tomenni

Categori y Domen	Person Cyfrifol
1	Awdurdod Arolygu
2	Awdurdodau Lleol – ar gyfer eu rhai eu hunain a'r rhai mewn perchnogaeth breifat (ble yn briodol)
3	Perchnogion
4	Perchnogion
5	Perchnogion ond wedi'u heithrio

- 7.31. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo "fod yn gyfrifol am waith ar domenni dynodedig (tomenni categori uwch) ond mae hefyd yn argymhell y gallai'r awdurdod goruchwyllo gcontractio'r gwaith hwn allan ac mae'n argymhell y gellid *llunio cytundebau rhwng awdurdod a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud*⁶⁷".
- 7.32. Mae Tabl 9 yn adlewyrchu bod yr awdurdod goruchwyllo yn gyfrifol am y gwaith o gynnal a chadw'r tomenni statws uchaf (categori 1) a'r perchnogion yn gyfrifol am domenni statws is (categoriâu 3 a 4). Byddwn yn ystyried cytundebau cynnal a chadw yn ddiweddarach yn y bennod hon. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y categori uchaf o domenni yn cael ei flaenoriaethu ac yn hyrwyddo dull amserol, cyson a dibynadwy.
- 7.33. Yn sgil nifer y tomenni, rydym, serch hynny, hefyd wedi argymhell bod awdurdodau lleol yn arwain ar wneud trefniadau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar domenni categori 2, sy'n eiddo i awdurdodau lleol a pherchnogion tir preifat, lle byddai hyn yn briodol, a bydd ganddynt yr un pwerau â'r awdurdod goruchwyllo lle mae'r domen wedi'i lleoli ar dir preifat. Byddai hyn yn adlewyrchu gweithgareddau presennol awdurdodau lleol sy'n arwain ar wneud trefniadau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ar gyfer eu tomenni eu hunain a thomenni phreifat ond fel yr awdurdod goruchwyllo, byddent yn gallu llunio cytundebau cynnal a chadw gyda pherchnogion tomenni.
- 7.34. Bydd sefydliadau fel CNC yn parhau i fod yn gyfrifol am ei holl domenni a gallant weithio gyda'r awdurdod goruchwyllo neu unrhyw barti cymwys arall i wneud y gwaith cynnal a chadw gofynnol.
- 7.35. Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd yr awdurdod goruchwyllo wedi penderfynu y gallai fod angen iddo wneud y gwaith, os ystyrir ei fod yn angenrheidiol neu'n

⁶⁷ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, paragraffau 5.40 a 6.117 Argymhellion 21 a 27,

gyfleus. Yn yr achos hwn, gall yr awdurdod goruchwyllo ystyried codi'r costau ar y perchnogion fel yr amlinellir ym Mhennod 8.

- 7.36. Y nod yw adlewyrchu'r ymatebion amrywiol i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith fel y'u hamlinellir yn ei adroddiad. Nododd rhai mai ar y perchnogion y dylid rhoi'r ddyletswydd cynnal a chadw, ond tanlinellodd eraill ei bod yn bosibl na fyddai gan rai o'r perchnogion ddigon o adnoddau ariannol.
- 7.37. Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn nodi'n ddefnyddiol ym mharagraff 6.112 sut y byddai cytundeb tomen yn cynorthwyo'r awdurdod goruchwyllo i wneud gwaith ar domen ddynodedig a byddem yn ymestyn hyn i awdurdodau lleol ar gyfer gwneud unrhyw waith ar domenni categori 2.

*“Rydym yn rhagweld, pan fydd yr awdurdod goruchwyllo yn penderfynu bod angen iddo wneud gwaith neu ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei wneud ar domen, y byddai, yn y lle cyntaf, yn ceisio dod i gytundeb tomen gyda pherchennog y domen, y meddiannydd a phartïon perthnasol eraill. Byddai hyn yn cael ei ategu gan y pŵer i roi gorchymyn tomen os na cheir cytundeb neu os na fydd cytundeb yn cael ei gyflawni. Yn achos tomen ddynodedig, byddai'r cytundeb yn debygol o ddarparu i'r awdurdod goruchwyllo wneud y gwaith.”*⁶⁸

- 7.38. Pan fo tomen categori 1 yn eiddo i awdurdod lleol, byddai hefyd yn bosibl i'r cytundeb ddarparu i'r gwaith gael ei gontractio allan i gyrff addas, neu i'r perchennog wneud y gwaith ei hun.

Cytundebau Cynnal a Chadw

- 7.39. Mae pennod pump adroddiad Comisiwn y Gyfraith wedi'i neilltuo i sicrhau bod tomenni risg is yn cael eu cynnal a'u cadw. Nid ydym yn bwriadu ymgynghori ar lawer o'r agweddau ar gytundebau cynnal a chadw gan fod Comisiwn y Gyfraith wedi ymgynghori arnynt ac y cytunwyd arnynt ar y cyfan.
- 7.40. Mae cytundeb cynnal a chadw yn darparu dull rhagweithiol o atal problemau diogelwch tomenni rhag datblygu ac i berchnogion tomenni ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran helpu i sicrhau diogelwch tomen lo.
- 7.41. Rydym yn cydnabod y bydd angen sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i alluogi perchnogion i gyflawni unrhyw ofynion cynnal a chadw. Gall nifer o berchnogion hefyd ddod o dan gytundebau rheoli tir gwahanol o dan gynlluniau presennol neu gynlluniau arfaethedig newydd ar gyfer ffermio neu reoli tir yn gynaliadwy. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ar gyfer synergeddau ac arbedion maint, pe bai cytundebau cynnal a chadw yn cael eu cyflwyno i gytundebau rheoli presennol. Mae angen gwaith ymchwil a dadansoddi pellach i weld a oes unrhyw orgyffwrdd posibl.
- 7.42. Mae cytundeb cynnal a chadw yn rhoi digon o hyblygrwydd i benderfynu ai'r perchennog yw'r parti mwyaf priodol i ymgymryd â'r gwaith, er enghraifft gwaith cynnal a chadw sylfaenol neu fesurau adweirio eithaf syml y gellir eu cyflawni

⁶⁸ Ibid para 6.112

neu eu comisiynu gan berchennog preifat. Mae'r sefyllfa'n wahanol pan fo angen gwaith adweirio sylweddol, ac os felly gallai fod yn fwy priodol i'r awdurdod goruchwyllo neu awdurdod lleol gomisiynu neu gyflawni gwaith.

- 7.43. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell bod yr awdurdod goruchwyllo yn llunio'r cytundebau a bod awdurdodau lleol yn goruchwyllo'r cytundebau a'r gorchmynion⁶⁹. Gan y byddem yn ceisio sicrhau arbedion maint, hoffem ystyried ai'r awdurdod goruchwyllo yw'r unig gorff a all wneud cytundebau cynnal a chadw.
- 7.44. Fel yr amlinellwyd mewn perthynas ag asesiadau peryglon a chynlluniau rheoli, bydd blaenoriaeth ar gyfer sefydlu cytundeb gyda pherchennog neu feddiannydd ar gyfer y tomenni statws uwch (categori 1 a 2) a chan y bydd y cytundeb yn ymwneud â chyflawni'r gweithrediadau a bennir yn y cynllun rheoli tomen, rydym yn cynnig y bydd yr amseru yn unol â'r hyn yr amlinellir ar gyfer cynlluniau rheoli (paragraff 6.11).

Monitro Cytundebau Rheoli Tomenni

- 7.45. Mae'n hanfodol bod y gyfundrefn yn cael ei goruchwyllo a nodwn ym mharagraff 8.2 bwerau goruchwyllo'r awdurdod goruchwyllo. Er bod Comisiwn y Gyfraith yn cynnig bod awdurdodau lleol yn goruchwyllo cytundebau a gorchmynion, credwn hefyd fod angen i'r awdurdod goruchwyllo allu goruchwyllo'r gyfundrefn gyfan ac mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â chytundebau a gorchmynion cynnal a chadw.
- 7.46. Mae'n werth goruchwyllo cytundebau cynnal a chadw sy'n cael eu darparu gan grŵp ehangach, yn enwedig yn sgil nifer y tomenni (mae ychydig o dan 90% o'r 2,456 o domenni glo categori is o dan y dull categoreiddio interim). Byddai'n ddyletswydd feichus ar unrhyw gorff unigol i archwilio'r holl domenni statws is i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 7.47. Argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yw y dylai awdurdod fod yn gyfrifol am ddyletswydd i drefnu archwiliad er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chytundeb cynnal a chadw tomen, gyda phŵer i ddirprwyo archwiliadau i drydydd partion sydd â chymwysterau addas⁷⁰.
- 7.48. Oherwydd maint y dasg, rydym o'r farn y dylai fod gan yr awdurdod goruchwyllo ddyletswydd i sicrhau y cydymffurfir â chytundebau cynnal a chadw, a chredwn mai mater i'r awdurdod goruchwyllo fydd pennu canran yr archwiliadau ar hap y mae ef neu drydydd parti cymwys yn ymgymryd â hwy mewn unrhyw flwyddyn benodol i gyflawni'r gofyniad hwn.
- 7.49. Bydd hyn hefyd yn darparu gwaith monitro hunanadrodd archwiliadau o domenni categori 3 a 4 i sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn adlewyrchu cyflwr presennol y domen.

⁶⁹ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 5.123, Argymhelliad 24

⁷⁰ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 5.50 Argymhelliad 22

7.50. Rydym hefyd yn cytuno y gall yr awdurdod goruchwyllo wneud cytundeb cynnal a chadw gyda pherchennog, lle mae'r perchennog wedi'i nodi fel parti addas i drefnu ei waith cynnal a chadw ei hun ar gyfer tomen statws uwch.

Gorchmynion Cynnal a Chadw Tomenni

7.51. Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith hefyd argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo gael y pŵer i wneud gorchmynion tomen mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfio⁷¹ penodedig.

7.52. Rydym yn cytuno y dylid rhoi gorchmyn tomen pan fo:

- perchennog neu feddiannydd wedi methu â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw, a lle bo hysbysiad priodol wedi cael ei roi,
- cytundeb wedi'i gynnig i'r perchennog neu'r meddiannydd ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod;
- gwaith a bennir yn y gorchmyn angen ei wneud ar frys; neu
- ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog neu'r meddiannydd er bod camau penodol wedi'u cymryd i geisio canfod hynny

7.53. Dylai'r mesurau a ddarperir mewn unrhyw orchymyn a roddir fod yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.

7.54. Rhaid i'r gorchmyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r meddiannydd wneud y gweithgareddau neu ddarparu i awdurdod wneud hynny.

7.55. Dylai fod gan y perchennog neu'r meddiannydd hawl i apelio yn erbyn rhoi gorchmyn, ond ni ddylai arfer yr hawl i apelio atal gwaith sydd angen ei wneud ar frys.

7.56. Ac eithrio yn achos gorchmyn a roddir pan fo angen gwaith brys, mae'n rhaid i'r gorchmyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.

7.57. Nid ydym yn cynnig ymgynghori ar y materion hyn gan eu bod wedi'u cynnwys yn ymgynghoriad ac adroddiad Comisiwn y Gyfraith.

⁷¹ Ibid, para 5.87 Argymhelliad 23

Pennod 8: Goruchwyllo, Gorfodi, Codi Tâl ac Apeliadau

Rydym yn cynnig:

- Hawliau mynediad newydd i gynnal archwiliadau, arfarniadau a gwneud gwaith cynnal a chadw;
- Cyflwyno sancsiynau sifil;
- Darparu pwerau codi tâl;
- Hawliau apelio

8.1. Yn y bennod hon, rydym yn nodi'r broses orfodi, codi tâl ac apelio i gefnogi'r gwaith o oruchwyllo a chydymffurfio â'r gyfundrefn.

8.2. Yn Nhabl 10, rydym yn crynhoi swyddogaethau goruchwyllo arfaethedig yr awdurdod goruchwyllo.

Tabl 10 Awdurdod Goruchwyllo – Swyddogaethau Goruchwyllo

Swyddogaeth	Disgrifiad	Cyfeirnod y Papur Gwyn
Goruchwyllo'r gofrestr asedau	Yn cynnwys diweddariadau i'r gofrestr ar archwiliadau, adroddiadau archwilio, gwaith cynnal a chadw ac adweirio, cychwyn, cynnydd a chwblhau.	Para 3.47
Cymeradwyo cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni statws uwch	Pan fo cynllun rheoli wedi'i ddatblygu gan berchennog.	Para 6.17
Sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar draws y gyfundrefn	Ar gyfer archwiliadau, arfarniadau ac asesiadau.	Para 2.31
Goruchwyllo bod asesiadau o domenni wedi digwydd o fewn yr amserlenni	Yr holl domenni statws uwch wedi'u harchwilio o fewn 12 mis i domen yn cael ei hychwanegu at y gofrestr asedau lle nad oes archwiliad wedi'i gynnal gan y Tasglu a'r holl domenni statws is wedi'u harchwilio o fewn 36 mis i domen yn cael ei hychwanegu at y gofrestr asedau lle nad oes archwiliad wedi'i gynnal gan y Tasglu.	Para 4.6
Archwiliadau ar hap	Pan fo perchennog neu drydydd parti yn cynnal archwiliadau/arfarniadau, y pŵer i gynnal archwiliadau ar hap i sicrhau bod archwiliadau/arfarniadau yn cael eu cynnal a bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.	Para 7.48
Goruchwyllo o Weithwyr Proffesiynol		Para 3.63

Pwerau gorfodi

8.3. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd pwerau gorfodi effeithiol a chymesur i sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio yn effeithiol.

8.4. Rydym yn croesawu'r argymhellion a nodir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith a byddwn yn eu hystyried i'w cynnwys mewn cyfundrefn ddiogelwch tomenni glo newydd⁷².

Mynediad

8.5. O dan Ddeddf 1969, mae'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol wedi bod yn gyfyngedig, gan ei gwneud yn ofynnol i ddangos tystiolaeth bod tomen yn peri perygl i'r cyhoedd. Credwn fod pŵer mynediad yn ofynnol ond dylai'r broses sy'n gysylltiedig â'r pŵer fod yn wahanol pan fydd y pŵer yn cael ei arfer i fynd i'r afael ag argyfwng, yn wahanol i'r adeg pan fo'r awdurdod goruchwyllo yn cyflawni ei swyddogaethau goruchwyllo cyffredinol.

8.6. Rydym yn cynnig pŵer mynediad i'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol (mewn perthynas â thomenni categori 2) ar gyfer:

- a) archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo hysbys neu a amheuir;
- b) cyflawni, goruchwyllo neu archwilio gwaith cynnal a chadw neu waith adweirio neu osod a monitro offer ar domen lo;
- c) cael mynediad at domen lo at y dibenion uchod

8.7. Byddem yn disgwyl i'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau lleol wneud trefniadau gyda pherchennog tir preifat i gael mynediad heb ddefnyddio unrhyw bŵer sy'n rhoi hawl mynediad. Fodd bynnag, pe bai naill ai ymateb negyddol neu ddim ymateb i gais, yna gellid defnyddio'r pŵer hwn.

8.8. Mewn amgylchiadau pan fo'r pŵer hwn yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau cyffredinol, dylai'r pŵer mynediad hwn fod yn arferadwy ar 48 awr o rybudd ysgrifenedig i'r perchennog os gellir ei adnabod, ac unrhyw berson arall y gwyddys ei fod yn meddiannu'r tir.

8.9. Mewn sefyllfa sy'n argyfwng, rydym yn cynnig y bydd y pŵer mynediad heb rybudd.

8.10. Pan fo person wedi'i awdurdodi i fynd i mewn i dir, fel yr amlinellir yn y bennod hon, dylai fod ganddo'r pŵer i fynd â'r offer angenrheidiol gyda hwy, ar yr amod bod yr hysbysiad hwnnw'n cynnwys disgrifiad o unrhyw beiriannau trwm sydd i'w cymryd ar y tir.

8.11. Cynigiwn y bydd rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith yn drosedd ddiannod.

8.12. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl y bydd angen mynediad dros dir trydydd parti i gael mynediad i domen lo ac rydym yn cynnig y dylid ymestyn yr hysbysiad ysgrifenedig i gynnwys unrhyw lwybrau eraill, lle mai dim ond drwy dir trydydd parti y gellir cael mynediad i domen.

⁷² Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, Pennod 8

Gorchmynion Tomenni

- 8.13. Fel yr amlinellir ym Mhennod 7, byddai methu â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw tomen yn arwain at gyhoeddi gorchymyn tomen. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchymyn tomen fod yn drosedd ddiannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na 51 wythnos, neu ddirwy neu'r ddau⁷³.
- 8.14. Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio sancsiynau sifil mewn perthynas â thorri gorchymyn cynnal a chadw tomen⁷⁴. Credwn fod rhinwedd mewn ystyried sancsiynau sifil am beidio â chydymffurfio â gorchymyn tomen, a fyddai'n galluogi'r argymhelliad trosedd ddiannod i fod yn gymwys fel dewis olaf ar gyfer unrhyw achosion parhaus neu achosion difrifol o beidio â chydymffurfio.
- 8.15. Gall sancsiynau sifil ddarparu ymateb cymesur i achosion o beidio â chydymffurfio, yn enwedig pan fo mân doriad wedi digwydd a all fod yn berthnasol, er enghraifft, i ofynion gweinyddol megis diweddarau'r gofrestr asedau. Maent yn galluogi rheoleiddiwr i ymateb yn briodol yn ôl amgylchiadau pob achos.
- 8.16. Mae'r sancsiynau sifil posibl sydd ar gael yn cynnwys:
- Cosbau ariannol penodedig - dirwy o £100 i unigolion neu £300 i gorff corfforaethol;
 - Cosbau ariannol amrywiol - cosbau ariannol y gallwn eu gosod yn uniongyrchol am droseddau mwy difrifol;
 - Hysbysiad Cydymffurfio – hysbysiad ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd camau penodedig o fewn cyfnod penodol i sicrhau nad yw trosedd yn parhau neu'n digwydd eto ac yn dod â pharti yn ôl i gydymffurfio;
 - Hysbysiad Stop - hysbysiad ysgrifenedig sy'n gwahardd person rhag parhau â gweithgaredd. Gall hefyd wahardd gweithgaredd rhag parhau hyd nes y bydd camau penodol wedi'u cymryd;
 - Hysbysiadau Adfer - hysbysiad ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd camau i adfer niwed a achosir yn sgil peidio â chydymffurfio, fel bod y sefyllfa'n cael ei hadfer, cyn belled ag y bo modd, i'r hyn y byddai wedi bod pe na bai unrhyw drosedd wedi'i chyflawni;
 - Ymgymeriadau gorfodi - cynnig i gymryd camau a fyddai'n gwneud iawn am beidio â chydymffurfio a'i effeithiau – mae'r rhain yn gytundebau gwirfoddol sy'n gyfreithiol rwymol.
- 8.17. Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ar briodoldeb sancsiynau sifil a'u rôl yn y gyfundrefn newydd. Mae Tabl 11 yn rhestru'r tor-rheolau posibl o fewn y gyfundrefn.

⁷³ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 8.49, Argymhelliad 31

⁷⁴ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 13.43, Argymhelliad 31

- 8.18. Cyn i sancsiwn sifil gael ei gymhwyso, byddai disgwyl i'r Awdurdod Goruchwylio hysbysu parti nad oedd gofyniad wedi'i fodloni. Byddai sancsiwn sifil yn gymwys pe bai methiant parhaus i gydymffurfio.

Tabl 11: Torri Swyddogaethau a Sancsiynau Sifil Posibl

Torri Swyddogaeth	Sancsiwn Sifil Posibl
Methu â lanlwytho adroddiad archwilio/arfarnu i'r gofrestr asedau o fewn yr amserlen ofynnol.	Cosb ariannol benodedig.
Methu â diweddarau cynnydd/statws gwaith cynnal a chadw ac adweirio i'r gofrestr asedau.	Cosb ariannol benodedig.
Methu ag archwilio/arfarnu tomen lo o fewn yr amserlen ofynnol.	Hysbysiad Cydymffurfio.
Methu â chyflawni unrhyw ofynion cynnal a chadw ac adweirio heb achos rhesymol.	Hysbysiad Cydymffurfio.
Methu â chydymffurfio â gorchymyn cynnal a chadw.	Hysbysiad Cydymffurfio.
Cynnal gweithgareddau ar domen, a allai achosi problemau sefydlogrwydd (gweler pennod 9).	Hysbysiad Stop, ac yna Hysbysiad Adfer i ddilyn o bosibl.

- 8.19. Mewn deddfwriaeth bresennol, mae'n bosibl y bydd gan gyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru ddisgresiwn ynghylch pa sancsiynau sifil i'w cymhwyso i fynd i'r afael â thoriad penodol, ond mewn nifer o achosion mae'r ddeddfwriaeth yn datgan yn benodol pa sancsiwn sifil sydd ar gael.
- 8.20. Credwn y bydd angen disgresiwn ar yr awdurdod goruchwylio i fynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio, yn enwedig os yw'n ymwneud â thomen categori 1, lle y gallai fod angen cymryd camau yn gyflymach nag ar gyfer tomen categori 4.
- 8.21. Yn rhinwedd ei rôl fel rheoleiddiwr, bydd yn ofynnol i'r awdurdod goruchwylio lunio canllawiau ar orfodi a sancsiynau sifil, gan nodi ei ddull o wneud penderfyniadau a'r defnydd o sancsiynau troseddol a sifil sydd ar gael iddo o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Cwestiwn ymgynghori:

16. A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Goruchwylio ddefnyddio sancsiynau sifil i sicrhau cydymffurfiaeth? Os nad ydych, nodwch eich rheswm.

17. A ddylai'r Awdurdod Goruchwylio gael disgresiwn ynghylch pa sancsiynau i'w defnyddio neu a ddylid pennu'r sancsiwn yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pob toriad?

Trosedd Ddiannod Arall

8.22. Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd yn argymhell:

“...y dylai fod yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy, i fethu â hysbysu'r awdurdod goruchwyllo, o fewn terfyn amser penodedig, o fodolaeth tomen lo nad yw'r manylion wedi'u cynnwys ar y gofrestr tomennydd.”⁷⁵

8.23. Cytunwn â rhagosodiad yr argymhelliad hwn ac y dylai fod yn gymwys i berchennog rhydd-ddaliadol ar dir sy'n cynnwys tomen lo gyfan o'r fath neu ran ohoni a pherchennog buddiant lesddaliad mewn tir o'r fath a roddwyd yn wreiddiol am gyfnod o fwy na saith mlynedd. Bydd hyn yn gymwys os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod y tir yn cynnwys tomen lo gyfan neu ran ohoni⁷⁶.

Pwerau codi tâl

8.24. Gwnaeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith argymhell y dylai'r pŵer i wneud gorchymyn tomen gynnwys pŵer i wneud y canlynol:

- codi ffioedd a threuliau ar berson a enwir yn y gorchymyn;
- darparu ar gyfer gwneud taliadau i berson a enwir yn y gorchymyn;
- cyfeirio gwerthu unrhyw ddeunyddiau a adferwyd o domen lo;
- cyfeirio talu'r enillion o werthu deunyddiau o'r fath i berson a enwir yn y gorchymyn;
- ei gwneud yn ofynnol talu iawndal gan berson a enwir yn y gorchymyn i berson arall a enwir yn y gorchymyn⁷⁷.

8.25. Credwn ei bod yn bwysig i unrhyw gynllun codi tâl a argymhellir fod yn deg, yn gymesur, yn dryloyw ac yn gyson ledled Cymru. Dylid darparu canllawiau ar sut y caiff y pŵer ei ddefnyddio.

8.26. Rydym yn cynnig bod Gweinidogion Cymru drwy offeryn statudol yn nodi egwyddorion sy'n ymwneud â dyrannu cyfrifoldeb ariannol am waith diogelwch tomen rhwng personau neu endidau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Apeliadau

8.27. Rydym yn nodi isod lle rydym o'r farn y dylai apeliadau fod ar gael yn y gyfundrefn reoli newydd:

- dylai fod gan berchennog neu feddiannydd hawl i apelio yn erbyn cofrestru ar y gofrestr asedau lle nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir;

⁷⁵ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 3.101, Argymhelliad 11

⁷⁶ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 3.102

⁷⁷ Ibid, Pennod 9

- dylai'r perchennog neu feddiannydd gael hawl i apelio yn erbyn gosod gorchymyn cynnal a chadw;
- dylai fod gan berchennog neu feddiannydd hawl i apelio yn erbyn codi unrhyw dâl am y gwaith o dan orchymyn cynnal a chadw, lle ceir anghytundeb ynghylch y gost.

8.28. Yn Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru i Bobl Cymru⁷⁸, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith “*y dylid defnyddio tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau ynglŷn â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol*”.

8.29. Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r adroddiad ac wedi ei gwneud yn glir ei bod yn cefnogi'n gyffredinol y cynigion diwygio a argymhellwyd. Mae'r gwaith o fynd ar drywydd yr argymhellion ar gam cynnar ac mae'n annhebygol y bydd ar waith cyn cyflwyno bil diogelwch tomenni glo.

8.30. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr ym maes Cyfiawnder i asesu'r ffordd o weithio mwyaf priodol i ddarparu dull o apelio i gefnogi'r gyfundrefn reoli newydd.

⁷⁸ Argymhelliad 27, Cyfiawnder yng Nghymru i Bobl Cymru, Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Hydref (2019) <https://llyw.cymru/adroddiad-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru>. Roedd Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn aelod o'r Comisiwn.

Pennod 9: Gweithgareddau ar Domenni Glo nas Defnyddir

Rydym yn ceisio barn ar y mathau o weithgareddau ar domenni, y mae rhanddeiliaid o'r farn y gallai fod angen eu gwahardd neu y gallai fod angen caniatâd ar eu cyfer.

9.1. Gallai rhai gweithgareddau ar domenni glo nas defnyddir gael effaith ar statws y domen. Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried yn gryno rai o'r gweithgareddau a'r cynigion hyn i asesu a ddylid gwahardd y gweithgareddau hyn neu a ddylid bod angen caniatâd ar eu cyfer.

9.2. Mae ein partneriaid yn y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo wedi nodi bod rhai o'r gweithgareddau canlynol â photensial i gael effeithiau negyddol ar statws tomen lo:

- Cloddio / newid proffiliau tomen (e.e. echdynnu mwynau neu draciau mynediad newydd);
- Tipio deunyddiau heb reolaeth ar wastadeddau neu lethrau sy'n gallu gorlwytho'r ardaloedd hynny neu beryglu'r seilwaith draenio;
- Storio deunyddiau heb reolaeth ar wastadeddau neu lethrau sy'n gallu gorlwytho'r ardaloedd hynny neu beryglu'r seilwaith draenio;
- Rhwystro / dargyfeirio systemau draenio / cyrsiau dŵr;
- Cael gwared ar y seilwaith draenio neu newidiadau i'r seilwaith hwnnw heb awdurdod.
- Adeiladu adeiladau heb awdurdod heb roi ystyriaeth briodol i'r anawsterau a ddaw yn sgil safleoedd tomenni sborion.
- Defnydd hamdden answyddogol fel defnyddio beiciau modur a beiciau – er enghraifft cerbydau oddi ar y ffordd yn torri i fyny ac i lawr yr ysgafellau gan greu erydiad a rhigolau sy'n newid ac yn gwaethygu'r erydiad wyneb lleol, yn difrodi llystyfiant ac ecoleg;
- Gweithgareddau gwersylla sy'n creu'r risg o danau gwersyll a ffynonellau a allai gynnau tân o fewn y domen;
- Gweithgareddau llosgi ar wyneb y domen;
- Ymdreiddiad cadarnhaol h.y. defnyddio suddfannau dŵr ac ati;
- Cael gwared ar llystyfiant, porfeydd neu goed heb reolaeth
- Gorburi, a allai ddadsefydlogi'r arwyneb uchaf ac arwain at fwy o risg o erydiad dŵr wyneb posibl
- Cronni dŵr ar ardaloedd tomenni

9.3. Mae'r gweithgareddau hyn yn dod o dan y tri chategori canlynol:

- Tresmasu a fandaliaeth;
- Camau gweithredu a allai newid cyflwr neu berfformiad tomen (e.e. rhywbeth a allai ddadsefydlogi'r domen);
- Newidiadau o ran defnydd tir.

9.4. Gall yr ymateb priodol i'r tri chategori hyn fod yn wahanol iawn. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gallai amrywio o well cyfathrebu ac addysg i sancsiynau troseddol neu sifil.

9.5. Bydd rhai o'r gweithgareddau a nodir ym mharagraff 9.2, er enghraifft, sy'n ymwneud ag unrhyw seilwaith draenio, yn cael eu cynnwys mewn cynllun rheoli ac felly mewn cytundeb rheoli. Gallai unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â chytundeb cynnal a chadw arwain at gyhoeddi gorchymyn cynnal a chadw. Fel y nodir ym mharagraff 8.13, gall peidio â chydymffurfio â gorchymyn arwain at drosedd ddiannod.

9.6. Er y bydd y gyfundrefn gynllunio yn rheoli unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig â thomen neu'n agos ati, mae nifer o'r gweithgareddau sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 9.2 heb unrhyw ddulliau rheoli ar waith.

9.7. Gall gweithgareddau fel cloddio, blocio seilwaith draenio gael effaith sylweddol ar domenni. Felly, rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch a oes angen mwy o reolaeth ar weithgareddau ar domenni glo nas defnyddir, yn enwedig mewn perthynas â thomenni statws uwch. Gallai dulliau rheoli posibl gynnwys:

- Gwahardd rhai gweithgareddau, lle mae'r asesiad peryglon yn dangos sensitifrwydd penodol ar domen;
- Ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd naill ai gan awdurdodau lleol neu awdurdod goruchwyllo i ymgymryd â gweithgareddau penodol;
- Darparu sancsiynau sifil mewn perthynas â rheoli gweithgareddau penodol.

9.8. Ystyriaeth bellach yw effaith datblygiad sydd wedi'i gynllunio/arfaethedig, lle mae hyn yn gyfagos at domen neu y gall hyd yn oed dorri ar draws/i mewn i domen. Gall gweithgareddau datblygu o'r fath ychwanegu derbynleoedd newydd sy'n gyfagos at domen ac felly newid y categori. Gallai'r datblygiad arfaethedig, er enghraifft, hefyd newid cyfeiriad cwrs dŵr gydag effaith bosibl ar domen.

9.9. Felly, rydym yn cynnig i randdeiliaid ystyried y canlynol:

- Yr awdurdod goruchwyllo i fod yn ymgynghorai statudol ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u cynllunio sy'n gyfagos at domen statws uwch (categoriâu 1 a 2);
- Y datblygwr yn cynnal asesiad o domen lo ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u cynllunio sy'n gyfagos at domen statws uwch (categoriâu 1 a 2).

Cwestiwn ymgynghori:

18. A ydych yn cytuno â'r rhestr o weithgareddau? Os nad ydych, pa weithgareddau, yn eich barn chi, y mae angen eu rheoli ar domenni glo nas defnyddir?

19. Pa ddulliau rheoli sydd angen eu cyflwyno, yn eich barn chi, i reoli gweithgareddau penodol ar domenni?

20. A ydych yn cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â gweithgareddau datblygu yng nghyffiniau tomenni statws uwch?

Pennod 10: Diogelwch Tomenni a Deddfwriaeth Amgylcheddol

- 10.1. Roedd ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith yn ceisio barn ar y gwrthdaro posibl rhwng diogelwch tomenni glo a deddfwriaeth amgylcheddol. Y nod oedd ystyried a oedd atebion posibl er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw oedi mawr cyn gwneud gwaith brys ar domenni er mwyn bodloni'r amserlenni ar gyfer trwyddedau a bennwyd mewn deddfwriaeth amgylcheddol.
- 10.2. Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn nodi nad yw Deddf 1969 *“wedi'i dylunio i ryngweithio â diogelu'r amgylchedd yn yr oes fodern. Mae'n blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd, tra bod deddfwriaeth amgylcheddol yn gosod gofynion sy'n gallu rhwystro gwaith adfer a glanhau”*⁷⁹.
- 10.3. Yn ei adroddiad, mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru, mewn argyfwng, *gael pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo ynghylch y camau sydd i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng cysylltiedig â thomennydd glo*⁸⁰. Dylai pŵer o'r fath hefyd gynnwys gofyniad, lle bo'n bosibl, i ymgynghori â'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau perthnasol eraill ynghylch telerau unrhyw gyfarwyddyd.
- 10.4. Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd yn argymhell:
*“...bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw darparu, yn y ddeddfwriaeth sy'n creu'r pŵer neu mewn deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio, eithriad rhag unrhyw ofyniad i geisio caniatâd ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol. Dylai unrhyw eithriad o'r fath fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i geisio caniatâd gofynnol yn ôl-weithredol.”*⁸¹
- 10.5. Byddai angen diffinio yn glir yr amgylchiadau pan allai'r pŵer cyfarwyddo hwn fod yn gymwys a'i gyfyngu i sefyllfaoedd 'argyfwng'.
- 10.6. Mae un o'r ffynonellau gwrthdaro allweddol yn ymwneud â'r diffiniad o 'argyfwng'. Er mwyn helpu i ddarparu eglurder, mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y dylid diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ddiffinio argyfwng yng nghyd-destun deunyddiau tomenni⁸².
- 10.7. Mae Prifysgol Birmingham wedi bod yn cynnal prosiect i roi trosolwg i Lywodraeth Cymru ynghylch lle mae gwrthdaro posibl rhwng diogelwch tomenni a deddfwriaeth amgylcheddol. Mae'r prosiect hwn yn ystyried sbectwm eang o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwastraff, coedwigaeth, asesu effaith amgylcheddol, a chadwraeth natur. Rydym yn disgwyl i'r adroddiad ar y gwaith ymchwil hwn gael ei ddarparu ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn.

⁷⁹ Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru*, 2022, para 11.1

⁸⁰ Ibid, para 11.27, Argymhelliad 35

⁸¹ Ibid, para 11.29, Argymhelliad 35

⁸² Ibid, para 11.46, Argymhelliad 36

10.8. Pan fydd y gwaith ymchwil hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith yng ngoleuni canfyddiadau'r ymchwil a byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr adeg honno.

Geirfa

Adfer: Y broses o wneud defnydd buddiol penodol o dir diffaith sydd wedi ei ysbeilio neu ei halogi.

Adweirio: Y broses ar gyfer lleihau risgiau iechyd a diogelwch a'r amgylchedd i lefel dderbyniol. Nod y gwaith o adweirio tomenni yw sicrhau diogelwch y tomenni glo.

Awdurdod Glo: Mae'r Awdurdod Glo yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol, a noddir gan yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sydd yn un o adrannau Llywodraeth y DU. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Diwydiant Glo 1994 ac mae'n rheoli effeithiau glofeydd y gorffennol, yn cynnwys difrod ymsuddiant a llygredd dŵr mwynloddiau.

Ceuffordd: Llwybr llorweddol neu ar osgo sy'n arwain at bwl glo neu fwynglawdd.

Cynnal a chadw: Mae cynnal a chadw tomenni yn rheolaidd yn cynnwys clirio, ail-dorri a gwella ffosydd a chwlfertau draenio, a gwirio a chlirio sgriniau a ddyluniwyd i ddal detritws ar ôl glaw trwm.

Derbynleoedd: Nodwedd y gallai llithriad tomen lo effeithio arni (fel tŷ, ysgol neu ffordd).

Lefel Derbynle – Categorïau derbynleoedd wedi'u diffinio ar gyfer y 5 grŵp allweddol a nodwyd.

Lefel Peryglon – Pennir drwy luosi'r tebygolrwydd â Lefel y Derbynleoedd i greu'r categori.

Perygl - Nodwedd neu gyflwr/gyflyrau mewn lleoliad tomen sydd â'r potensial i gael effeithiau andwyol neu ganlyniadau annymunol mewn perthynas â'r Lefelau Derbynleoedd a nodwyd.

SODDGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dynodiad cadwraeth.

Tomen a gaewyd: O dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, nid yw tomen a gaewyd ar safle y bernir ei fod yn rhan o bwl glo neu fwynglawdd neu chwarel, ond ni chefnwyd ar y pwll glo, y mwynglawdd neu'r chwarel y mae'r domen yn gysylltiedig ag ef, a'r unig un sy'n meddiannu'r safle lle mae'r domen yw perchennog y pwll glo, y mwynglawdd neu'r chwarel honno.

Tomen nas defnyddir: Tomen na ollyngir arni mwyach, ac nad yw'n gysylltiedig â phwll glo neu fwynglawdd gweithredol. Mewn geiriau eraill, mae hon yn domen nad yw'n domen weithredol nac yn domen a gaewyd o dan Ddeddf 1969.

Tomen weithredol: O dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, mae tomen weithredol yn domen sy'n gysylltiedig â chwarel neu gloddfa weithredol. Gweler hefyd **Tomen a gaewyd**.

Y Senedd: Y corff a etholir yn ddemocrataidd sy'n deddfu dros Gymru (o fewn meysydd penodol). Mae'n cael ei alw'n Senedd Cymru a Welsh Parliament yn

Saesneg. Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio ati wrth ei henw Cymraeg cyffredin, y Senedd.

Atodiad 1: Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'r ffordd y bwriedir mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn y gyfundrefn reoli, os bydd hynny'n briodol?
2. A ydych yn cytuno y dylai'r corff goruchwylio newydd fod yn Gorff Gweithredol newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru?
3. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys diffiniad o domen 'de minimis' yn y bil? Os ydych, pa nodweddion y dylid eu cynnwys?
4. A ydych yn cytuno y dylai perchennog 'tomen de minimis' gael ei eithrio rhag y dyletswyddau a amlinellir? Os nad ydych, nodwch pam.
5. A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr? Os nad ydych, nodwch beth fyddai'r gofynion sylfaenol priodol yn eich barn chi?
6. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran ychwanegu tomenni newydd at y gofrestr?
7. A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i ddiweddarau'r gofrestr asedau? Os nad ydych, manylwch ar sut, yn eich barn chi, y dylid diweddarau'r gofrestr asedau a phwy ddylai wneud hynny.
8. A ydych yn cytuno â'r cynnig o ran y math o wybodaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd a'r math o wybodaeth a fydd yn cael ei heithrio?
9. A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i fesur lefel peryglon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
10. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran datblygu categorïau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
11. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran clystyrau o domenni rhyngddibynnol a chyfagos?
12. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli? Os nad ydych, rhwch eich rhesymau dros anghytuno.
13. A ydych yn cytuno â'r dull tair haen a pha mor aml y bwriedir cynnal gwiriadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
14. A ydych yn cytuno â rhannu cyfrifoldebau ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
15. A ydych yn cytuno â'r cynnig ar gyfer y gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiadau ac, os felly, beth ydych chi'n ystyried sy'n wybodaeth hanfodol?

16. A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Goruchwyllo ddefnyddio sancsiynau sifil i sicrhau cydymffurfiaeth? Os nad ydych, nodwch eich rheswm.
17. A ddylai'r Awdurdod Goruchwyllo gael disgresiwn ynghylch pa sancsiynau i'w defnyddio neu a ddylid pennu'r sancsiwn yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pob toriad?
18. A ydych yn cytuno â'r rhestr o weithgareddau? Os nad ydych, pa weithgareddau, yn eich barn chi, y mae angen eu rheoli ar domenni glo nas defnyddir?
19. Pa ddulliau rheoli sydd angen eu cyflwyno, yn eich barn chi, i reoli gweithgareddau penodol ar domenni?
20. A ydych yn cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â gweithgareddau datblygu yng nghyffiniau tomenni statws uwch?
21. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig ar gyfer tomenni glo segur yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut mae cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?
22. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credo y gellid llunio neu newid y cynigion polisi a gynigir fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
23. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas ag unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

Atodiad 2: Argymhellion Comisiwn y Gyfraith

Argymhelliad 1.

Rydym yn argymhell na ddylid addasu'r gyfundrefn reoleiddio bresennol ar gyfer tomennydd sydd yn gysylltiedig â mwyngloddiau gweithredol.

Argymhelliad 2.

Rydym yn argymhell na ddylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn gymwys i domen y mae Rheoliadau Chwareli 1999 neu Reoliadau Mwyngloddiau 2014 yn gymwys iddynt.

Argymhelliad 3.

Rydym yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod goruchwyllo fyddai'n gyfrifol am ddiogelwch yr holl domennydd glo anweithredol.

Argymhelliad 4.

Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff newydd.

Argymhelliad 5.

Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn gorff cyhoeddus canolog.

Argymhelliad 6.

Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd gyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau diogelwch tomennydd glo, heb gyfyngu ar risgiau penodol.

Argymhelliad 7.

Rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod goruchwyllo lunio a chynnal cofrestr tomennydd canolog.

Argymhelliad 8.

Rydym yn awgrymu y dylai cynnwys y gofrestr tomennydd gael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

Argymhelliad 9.

Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gynnwys ar y gofrestr unrhyw domen y mae'n ymwybodol ohoni.

Argymhelliad 10.

Rydym yn argymhell y dylai perchennog neu feddiannydd y cyfan neu ran o dir a nodir mewn cofnod ar y gofrestr tomennydd gael hawl i apelio ar y sail nad oes tomen wedi'i lleoli ar y tir.

Rydym yn argymhell na ddylid caniatáu i arfer yr hawl i apelio er mwyn gohirio gwaith brys.

Argymhelliad 11.

Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd diannod, y gellir ei chosbi â dirwy, i fethu â hysbysu'r awdurdod goruchwyllo, o fewn terfyn amser penodedig, o fodolaeth tomen lo nad yw'r manylion wedi'u cynnwys ar y gofrestr tomennydd.

Rydym yn argymell y dylai'r drosedd allu cael ei chyflawni gan

- (1) berchennog rhydd-ddaliadol ar dir sy'n cynnwys y cyfan neu ran o domen lo o'r fath; a
- (2) pherchennog buddiant lesddaliad mewn tir o'r fath a roddwyd yn wreiddiol am gyfnod o fwy na saith mlynedd.

sydd â sail resymol dros gredu bod y tir yn cynnwys y cyfan neu ran o domen lo.

Argymhelliad 12.

Rydym yn argymell y dylai cynnwys rhagnodedig y gofrestr tomennydd gael ei reoli B p'un a yw er budd y cyhoedd i wybodaeth benodol ynghylch tomennydd glo fod ar gael i'r cyhoedd.

Argymhelliad 13.

Rydym yn argymell y dylid cael mynediad cyhoeddus i'r gofrestr tomennydd, gan ddarparu crynodeb hygyrch o wybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch tomennydd.

Argymhelliad 14.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Chymdeithas y Gyfraith, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'r bwriad o sefydlu chwiliad o'r gofrestr tomennydd fel rhan o chwiliad trawsgludo safonol mewn perthynas ag eiddo yng Nghymru.

Argymhelliad 15.

Rydym yn cynnig, ar ôl cofnodi tomen ar y gofrestr, y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i drefnu archwiliad o'r domen oni bai ei fod yn ystyried bod archwiliad digon diweddar a thrwyadl wedi cael ei gynnal.

Argymhelliad 16.

Rydym yn argymhell, adeg yr arolygiad, y dylai fod dyletswydd ar berchnogion a meddianwyr tomennydd i ddarparu i'r awdurdod goruchwyllo ddogfennau yn eu meddiant sy'n berthnasol i'r domen neu'r tir y mae wedi'i leoli arno.

Argymhelliad 17.

Rydym yn argymhell

- (3) y dylai fod yn ddyletswydd ar yr awdurdod goruchwyllo i lunio asesiad risg a chynllun rheoli ar gyfer unrhyw domen sydd ar y gofrestr;
- (4) dylai'r awdurdod goruchwyllo fod o dan ddyletswydd i gymeradwyo'r cynllun rheoli tomennydd;
- (5) dylai'r awdurdod goruchwyllo ddyrannu dosbarthiad risg i bob tomen ar sail yr adroddiad arolygu a'r asesiad risg.

Argymhelliad 18.

Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ragnodi'r materion y dylid eu cynnwys mewn cynllun asesu a rheoli risg drwy offeryn statudol.

Argymhelliad 19.

Rydym yn argymhell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo ystyried risg ansefydlogrwydd tomen a chanlyniadau methiant o ran sefydlogrwydd.

Argymhelliad 20.

Rydym yn argymell y dylai dosbarthiad risg tomennydd glo hefyd ystyried y risg y mae'r domen yn ei achosi o ran llygredd, ymlosgiad a llifogydd.

Argymhelliad 21.

Rydym yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth newydd ddarparu ar gyfer llunio cytundebau rhwng awdurdodau a pherchnogion neu feddianwyr tir sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr tomennydd, fydd yn darparu bod y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomennydd yn cael ei wneud.

Argymhelliad 22.

Rydym yn argymell y dylai awdurdod fod yn gyfrifol am ddyletswydd i drefnu archwiliad er mwyn sicrhau y cydymffurfir â chytundeb cynnal a chadw, gyda'r pŵer i ddirprwyo archwiliadau i drydydd partïon sydd â chymwysterau addas.

Argymhelliad 23.

Rydym yn argymell y dylai awdurdod allu rhoi gorchymyn cynnal a chadw tomennydd pan fo'r

- (6) perchennog neu'r deiliad tir wedi methu â chydymffurfio gyda chytundeb tomen a'u bod wedi derbyn hysbysiad rhesymol am y methiant hwnnw a chyfle rhesymol i'w unioni;
- (7) cynigwyd cytundeb i'r perchennog neu'r deiliad ac mae wedi gwrthod cytundeb â thelerau addas neu wedi methu ag ymateb o fewn 42 diwrnod;
- (8) mae'r awdurdod yn ystyried bod y gwaith a nodir yn y gorchymyn angen ei wneud ar frys, neu
- (9) ni fu'n bosibl canfod pwy yw'r perchennog er cymryd camau penodol i geisio canfod hynny.

Rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod y mesurau a gynigir yn gymesur â'r amcan sydd i'w gyflawni.

Rhaid i'r gorchymyn naill ai ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r deiliad gynnal y gweithgareddau neu ddarparu i awdurdod wneud hynny.

Dylai fod gan y perchennog neu'r deiliad hawl i apelio yn erbyn rhoi gorchymyn, ond ni ddylai arfer yr hawl i apelio atal gwaith sy'n angenrheidiol ar frys.

Ac eithrio yn achos gorchymyn a roddir pan fo angen gwaith brys, mae'n rhaid i'r gorchymyn ddarparu digon o amser ar gyfer gwneud apêl.

Argymhelliad 24.

Rydym yn argymell mai'r awdurdod goruchwyllo ddylai fod yn gyfrifol am y pŵer i wneud cytundebau tomennydd a rhoi gorchmynion tomennydd ar gyfer tomennydd risg is, a dylai'r ddyletswydd i oruchwyllo'r cytundebau a'r gorchmynion, gan gynnwys cynnal archwiliadau, fod yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol.

Argymhelliad 25.

Rydym yn cynnig y dylai deddfwriaeth diogelwch tomennydd glo ddarparu ar gyfer dynodi tomennydd sydd yn bodloni'r meini prawf a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol gan yr awdurdod goruchwyllo.

Argymhelliad 26.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r meini prawf ar gyfer dynodi drwy ymgynghori ag arbenigwyr.

Argymhelliad 27.

Rydym yn cynnig y dylai fod yn ddyletswydd fel arfer ar yr awdurdod goruchwyllo ei hun, yn achos tomen ddynodedig, i gynnal y gweithgareddau a nodir yn y cynllun rheoli tomen.

Rydym yn argymhell y dylai'r awdurdod goruchwyllo fod â'r pŵer i contractio'r gwaith hwn allan neu ddarparu mewn cytundeb tomen i berchennog neu feddiannydd y domen wneud y gwaith pan fo'n briodol gwneud hynny.

Argymhelliad 28.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gwaith ar domennydd dynodedig, p'un ai gan yr awdurdod goruchwyllo neu berchennog neu feddiannydd y domen, drwy gytundeb neu orchymyn tomennydd.

Argymhelliad 29.

Rydym yn argymhell, i'r graddau y mae atebolrwydd o dan ein cynllun a argymhellir i'w ysgwyddo gan berchennog, mewn termau economaidd, tir sy'n cynnwys tomen, y dylai'r perchennog hwnnw gael ei ystyried fel perchennog yr ystâd rydd-ddaliadol neu berchennog ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor, ac eithrio lle mae'r ystâd rydd-ddaliadol neu lesddaliadol ar ddychweliad ar ystâd lesddaliad o 21 mlynedd neu ragor.

Argymhelliad 30.

Rydym yn argymell y dylai personau a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â phŵer mynediad ar dir at ddibenion

- (10) archwilio, cynnal profion neu samplu ar domen lo hysbys neu a amheuir;
- (11) cyflawni, goruchwyllo neu arolygu gwaith cynnal a chadw neu waith adfer neu osod a monitro offer ar domen lo; a
- (12) chael mynediad at domen lo at y dibenion uchod.

Rydym yn argymell y dylai'r pŵer mynediad fod yn arferadwy ar ôl 48 awr o roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perchennog, os yw'n hysbys, ac i unrhyw berson arall y gwyddys ei fod yn meddiannu'r tir, neu heb rybudd mewn argyfwng;

Rydym yn argymell y dylai'r awdurdod goruchwyllo neu unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y cynllun diogelwch tomennydd glo fod â'r pŵer i wneud cais i ynad heddwch am warant sy'n awdurdodi mynediad drwy rym pan fo person wedi atal neu'n debygol o atal y pŵer mynediad rhag cael ei arfer, a'i bod yn rhesymol defnyddio grym wrth arfer y pŵer hwnnw; gall y warant ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cael mynediad yn unol â hynny gael eu hebrwng gan gwnstabl.

Rydym yn argymell y dylai personau sydd wedi'u hawdurdodi i fynd ar dir o dan y darpariaethau hyn fod â'r pŵer i fynd â'r offer angenrheidiol gyda nhw, ar yr amod bod yr hysbysiad yn cynnwys disgrifiad o unrhyw beiriannau trwm sydd i'w cludo ar y tir.

Roeddem yn argymell y dylai rhwystro unrhyw berson awdurdodedig neu archwiliad, prawf neu waith fod yn drosedd diannod.

Argymhelliad 31.

Rydym yn argymell y dylai methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gorchymyn tomen fod yn drosedd diannod sydd â chosb o garchar am gyfnod heb fod yn fwy na'r gosb uchaf am drosedd diannod yn unig, neu ddirwy neu'r ddau.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio sancsiynau sifil mewn perthynas â thorri gorchymyn cynnal a chadw tomen.

Argymhelliad 32.

Rydym yn argymell y dylai'r ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn gorchymyn neu gytundeb tomen gynnwys darpariaeth

- (13) ar gyfer gwneud taliadau gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;
- (14) ar gyfer gwneud taliadau i'r person a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn;
- (15) ar gyfer gwerthu unrhyw ddeunyddiau a adferwyd o domen lo;
- (16) ar gyfer talu'r enillion o werthu deunyddiau o'r fath i berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn; ac
- (17) ar gyfer talu iawndal gan berson a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn i berson arall a enwir yn y cytundeb neu'r gorchymyn.

Argymhelliad 33.

Rydym yn argymell y dylai egwyddorion sy'n rheoli dyrannu cyfrifoldeb ariannol dros waith diogelwch tomennydd rhwng personau neu endidau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol.

Argymhelliad 34.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â sefydliadau academaidd a chyrff proffesiynol a chyrff yn y diwydiant ym maes gwaith diogelwch tomennydd gyda golwg ar sicrhau bod cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud gwaith diogelwch yn cael ei llunio.

Argymhelliad 35.

Rydym yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r awdurdod goruchwyllo ynghylch y camau sydd i'w cymryd mewn ymateb i argyfwng cysylltiedig â thomennydd glo.

Rydym yn argymhell bod y pŵer yn ddarostyngedig i ofyniad, pan fo'n bosibl, i ymgynghori â'r awdurdod goruchwyllo ac awdurdodau perthnasol eraill ynghylch telerau cyfarwyddiadau o'r fath.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw darparu, yn y ddeddfwriaeth sy'n creu'r pŵer neu mewn deddfwriaeth amgylcheddol a chynllunio, eithriad rhag unrhyw ofyniad i geisio caniatâd ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol. Dylai unrhyw eithriad o'r fath fod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i geisio caniatâd gofynnol yn ôl-weithredol.

Argymhelliad 36.

Rydym yn argymhell diwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ddiffinio argyfwng yng nghyd-destun deunyddiau tomennydd.

Atodiad 3: Treialon Technoleg

Camerâu anffurfiadau

Mae camerâu arbenigol yn cael eu gosod i gofnodi anffurfiadau tir ar ddau safle yn Rhondda Cynon Taf. Defnyddir camerâu o'r math hwn fel arfer i fonitro tirlithriadau mewn rhanbarthau alpaidd. Ar ôl eu gosod yn gynnar yn 2022, byddwn yn asesu eu gallu i roi rhybudd ymlaen llaw o newidiadau o ran perfformiad sefydlogrwydd a'u haddasrwydd cyffredinol ar gyfer monitro tomenni glo.

Dronau

Yn 2021, gwnaethom ariannu awdurdodau lleol i brynu dronau ac unedau camera a buddsoddi yn yr hyfforddiant a'r ardystiad angenrheidiol ar gyfer eu gweithredwyr dronau. Mae hyn yn helpu awdurdodau lleol i integreiddio technegau arolygu modern i'w harferion rheoli tomenni.

Mapio gwlybanaeth pridd â GroundSat

Mae'r prosiect GroundSat yn cynnwys technegau Arsylwi'r Ddaear – gan ddefnyddio delweddau lloeren i fapio gwlybanaeth pridd mewn tua 69 o domenni categori uwch, ac o'u hamgylch.

Mae GroundSat yn addasu technolegau a ddefnyddir i chwilio am ddŵr ar blanedau eraill er mwyn pennu nodweddion ac asesu perfformiad tomen mewn perthynas â chyfundrefnau dŵr wyneb a dŵr daear. Bydd yn cadarnhau effeithiolrwydd y systemau draenio tomenni presennol ac yn nodi unrhyw wlybanaeth cudd a allai fod yn risg yn y dyfodol.

Bydd y prosiect yn cymharu data o ddelweddau lloeren a gasglwyd ar adegau sychach a gwlypach o'r flwyddyn. Disgwylir y canlyniadau cychwynnol ym mis Ebrill 2022.

PRIME

Mae PRIME (*Proactive Infrastructure Monitoring and Evaluation system*) yn system arolygu geoffisegol nad yw'n tarfu ar y tir ei hun a ddatblygwyd gan Arolwg Daearegol Prydain (BGS) i ddarparu delweddau manwl o amodau dan yr wyneb.

Mae'r system sy'n cael ei phweru gan yr haul yn defnyddio tomograffeg gwrthedd trydanol (ERT). Mae hon yn dechneg a ddefnyddir yn helaeth ym maes ffiseg feddygol, i fonitro cyflwr ffisegol mewnol seilwaith cloddwaith o bell.

Gall PRIME helpu i bennu nodweddion cyflwr tomen ac mae'n darparu cyfleoedd i fonitro systemau dŵr daear a symudiadau ar wyneb y tir.

Byddwn yn ystyried a fydd gallu'r system i ddarparu diweddariadau sy'n agos at amser real ynghylch cyflwr ased yn gallu dangos newidiadau o ran ei berfformiad peiranyddol. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau i rag-weld digwyddiadau yn y dyfodol, yn hytrach na dim ond ymateb iddynt.

Byddwn yn dechrau treialon PRIME ar safle yn Rhondda Cynon Taf yn 2022.

Gosodiadau tyllau turio amser real


Rydym yn ymchwilio i ddefnyddio offer mewn tyllau turio er mwyn monitro symudiadau tir a chyfundrefnau dŵr daear. Dechreuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymchwiliadau safle ar domen Craig Ddu Dinas ym mis Hydref 2021, cyn gosod offer monitro yn gynnar yn 2022.

Satellite Applications Catapult – data SAR

Mae Satellite Applications Catapult yn cydlynu prosiect peilot ar ran Llywodraeth Cymru i werthuso a ellir defnyddio data SAR (*Synthetic Aperture Radar*) i fonitro symudiadau tir posibl ar domenni glo nas defnyddir. Mae Satellite Applications Catapult wedi dewis tri chwmni i ddadansoddi a dehongli data lloeren ar bum tomen lo nas defnyddir gan ddefnyddio dulliau technegol gwahanol. Mae'r prosiect wedi'i rannu'n dri cham:

- Bydd cam un yn cynnwys monitro ymsuddiant pridd (suddo) neu ymgodiad pridd (codi) fel dangosyddion hanfodol ar gyfer risgiau posibl yn y safleoedd dethol
- Bydd cam dau yn defnyddio data lloeren i asesu manteision gosod adlewyrchyddion cornel ar safleoedd tomenni
- Bydd cam tri yn gwerthuso'r defnydd o ddata gofod masnachol ar gyfer monitro tomenni.

Dechreuodd y prosiect hwn ym mis Medi 2021 a disgwylir iddo barhau tan ddechrau 2023.



Delwedd gyfansawdd sy'n dangos tri dull gwahanol o ddadansoddi data lloeren

Mesuryddion Gogwydd

Gellir defnyddio Mesuryddion Gogwydd i fonitro symudiadau bach o dirlithriadau posibl. Ym mis Ebrill 2021, gwnaethom ddechrau treial 12 mis i bennu eu

haddasrwydd ar gyfer monitro tomenni glo nas defnyddir, gan gynnwys swyddogaethau system rybuddio posibl. Mae sawl casgliad o Fesuryddion Gogwydd wedi'u gosod ar draws tomen genedlaethol Wattstown yn Rhondda Cynon Taf i fonitro symudiadau tir posibl. Mae synwryddion dŵr sy'n monitro sianeli draenio hanfodol yn ategu'r Mesuryddion Gogwydd.

Atodiad 4: Dadansoddiad o'r Effaith Economaidd – Eiddo Domestig

1. Amcan y dadansoddiad

- 1.1 Prif amcan yr ymarfer hwn oedd darparu sylfaen dystiolaeth i bennu'r goblygiadau cost pe bai tomenni glo yn dymchwel ar anheddau / eiddo domestig, yn enwedig yn ne Cymru, a chyfrannu at wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch rheoli'r tomenni sborion glo nas defnyddir mewn modd cynaliadwy.
- 1.2 Yn benodol, nod y dasg hon oedd ymchwilio i'r cwestiynau canlynol:
- Pa effaith fyddai tomen lo yn dymchwel yn ei chael ar y farchnad dai, gyda phwyslais arbennig ar brisiau tai?
 - Beth yw cost tomen lo yn dymchwel?
 - Pa effaith y gallai tomenni glo yn dymchwel ei chael ar breimymau ac atebolrwydd o ran yswiriant?

Cwmpas a chyfyngiadau

- 1.3 Mae'r canlynol yn crynhoi cwmpas y dadansoddiad.
- 1.4 *Cwmpas*: cyfyngwyd cwmpas yr ymarfer hwn i dde Cymru, ar y sail mai dyna lle mae'r mwyafrif llethol o domenni glo. Fodd bynnag, ystyriwyd enghreifftiau o dirlithriadau mewn rhannau eraill o Gymru lle'r oedd data prisiau tai a gwerthiannau tai ar gael i gyd-fynd â llinell amser tirlithriadau o'r fath.
- 1.5 *Ardal ffocws*: ystyriwyd eiddo (anheddau) o fewn 100 metr i domen lo ar gyfer y dadansoddiad hwn, gan ganolbwyntio ar domenni glo o amgylch ardaloedd sydd, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig.
- 1.6 *Derbynleoedd*: mae'r ffocws cychwynnol wedi bod ar y farchnad breswyl, gyda phwyslais arbennig ar brisiau tai, gwerthiannau tai fel mesur procsi ar gyfer morgeisi, a maint y sicrwydd yswiriant. Ni chafodd derbynleoedd eraill fel ysgolion, safleoedd manwerthu bach, a seilwaith hanfodol eu hystyried yn y dadansoddiad hwn.
- 1.7 *Proffil risg tomenni*: mae'r ymarfer yn canolbwyntio ar domenni sborion categori uwch – y tomenni hynny lle mae'r risg bosibl yn uwch. Mae hyn yn seiliedig ar y categorïau risg interim presennol sy'n adlewyrchu'r argymhellion o ran y cyfnodau archwilio sy'n ofynnol. Mae'r categorïau'n amrywio o A i D, ac mae angen archwilio categori D yn amlach. Mae categori ychwanegol, R, yn cyfeirio at domenni lle gwnaed gwaith adfer. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar domenni categori C a D yn unig.

- 1.8 *Tomenni a ddewiswyd*: Dewiswyd 10 tomen ar draws saith awdurdod lleol yn ne a gogledd Cymru ar gyfer yr ymarfer hwn.
- 1.9 *Prisiau tai*: ystyriwyd prisiau tai cyfartalog ar sail cod post, gan ddefnyddio prisiau cyfartalog misol a dalwyd wrth gwblhau gwerthu'r eiddo, fel y'u cyhoeddwyd ar gyfer pob math o eiddo gan Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (HMLR). Ystyriwyd cyfnod amser hanesyddol o 25 mlynedd o leiaf, a lle'r oedd hynny'n bosibl, defnyddiwyd prisiau o 1995 i fis Medi 2021.⁸³
- 1.10 *Maint gwerthiannau*: ystyriwyd maint gwerthiannau eiddo hefyd dros yr un cyfnod amser, gan ddefnyddio'r nifer absoliwt o drafodion a gwblhawyd yn ystod cyfnod o fis yn yr ardal cod post a ddewiswyd.

2. Yr Effaith ar Eiddo Preswyl pan fo Tomen Sborion Glo yn Dymchwel

Yr effaith ar brisiau tai

- 2.1 Ymddengys nad yw'r tirlithriadau hyn yn cael effaith negyddol hirdymor amlwg a pharhaus ar brisiau tai. Mae prisiau tai yn y rhanbarth wedi tueddu i beidio â chael eu heffeithio'n andwyol gan ddigwyddiadau yr un mor ddinistriol, megis llifogydd a thirlithriadau, a ystyriwyd yn fesurau procsi ar gyfer yr effaith ddinistriol a welir pan fo tomen sborion glo yn dymchwel..
- 2.2 Dangosodd y dadansoddiad fod tueddiadau tebyg ym mhrisiau tai yn ne Cymru dros y blynyddoedd a bod y tueddiadau hynny'n amrywio yn ôl tymhorau. Cafodd tirlithriadau fel tirlithriad Pant-teg ym mis Rhagfyr 2012 yn Abertawe a llifogydd Pentre ym mis Chwefror 2020 yn Rhondda Cynon Taf eu gosod ar graff wedi'i blotio o brisiau tai yn yr ardal gyfagos ac nid oedd yn dangos unrhyw dystiolaeth amlwg bod prisiau tai wedi gostwng yn barhaol ar ôl y digwyddiad.
- 2.3 Un esboniad posibl am hyn fyddai bod y risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau fel tirlithriadau a llifogydd eisoes yn cael eu hystyried wrth bennu prisiau, yn enwedig o ystyried tueddiad hanesyddol ardaloedd o'r fath i fod yn agored i lifogydd. Byddai defnyddio data mwy lleol – yn arbennig dyddiad y cwblhawyd gwerthu'r eiddo – yn rhoi darlun manylach.

Yr effaith ar werthiannau eiddo a morgeisi

- 2.4 Yn debyg i'r canfyddiadau am yr effaith ar brisiau tai, roedd yn ymddangos nad oedd fawr ddim effaith negyddol hirdymor, os o gwbl, ar werthiannau eiddo yn dilyn digwyddiadau andwyol fel tirlithriadau neu lifogydd. Ystyriwyd naw enghraifft o dirlithriadau a llifogydd gan ddefnyddio'r un dull a ddefnyddiwyd wrth asesu'r effaith ar brisiau tai, sef: llifogydd Tylorstown ym mis Chwefror 2020, tirlithriad traeth Nefyn ym mis Ebrill 2021, digwyddiadau Pant-teg a Chyfyng ym mis Rhagfyr 2012 a mis Awst 2017, yn y drefn honno,

⁸³ Mae'n werth nodi nad yw data HMLR o ran hyn ar gael cyn 1995. Felly 1995 yw'r terfyn.

y llifogydd yn Llanelwy yn 2012, llifogydd mis Chwefror 2020 ym Mhentre, llifogydd mis Chwefror 2020 yn Llanrwst, llifogydd Pontypridd ym mis Hydref 2020, a'r llifogydd ym mis Ionawr 2021 pan ddymchwelodd siafft pwll glo yn Sgiwen.

- 2.5 Ym mhob un o'r digwyddiadau a ddadansoddwyd, roedd nifer cyfartalog y trafodion eiddo yn y chwe mis yn dilyn y trychinebau naill ai'n gyfartal, yn uwch, neu prin wedi gostwng yn sylweddol is na'r cyfartaleddau a gofnodwyd dros gyfartaledd o chwe mis tebyg cyn y digwyddiad, yn ogystal â thros gyfnodau hwy o hyd at 10 mlynedd.

3. Y goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â thirlithriad ar domen lo

- 3.1 Aed ati i amcangyfrif y goblygiadau cost pan fo tomenni sborion glo yn dymchwel, o ran costau'r difrod, a'r iawndal sydd i'w dalu yn ei sgil, ac o ran atebolrwydd yswiriant. Wrth gynnal y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd costau'r difrod a achosir gan effeithiau mwy cyfarwydd llifogydd ac ymsuddiant pridd fel mesurau procsi ar gyfer effaith tomen lo yn dymchwel ar dderbynleoedd sensitif o'r math, fel tai preswyl.

Yr effaith ar yswiriant pan fo tomen lo yn dymchwel

- 3.2 Un canfyddiad cyffredin o ddigwyddiadau fel llifogydd Sgiwen (a oedd yn ganlyniad i ddymchweliad siafft pwll glo oherwydd bod rhwystr mewn hen system ddraenio) yw diffyg yswiriant digonol ar gyfer difrod i eiddo. Canfuwyd bod preswylwyr naill ai heb yswirio'n ddigonol neu heb eu hyswirio o gwbl. Roedd y rhesymau'n cynnwys lefelau incwm isel yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, a bod y morgais ar yr eiddo wedi'i dalu'n llawn a'r perchnogion wedi penderfynu peidio â phrynu yswiriant pellach.
- 3.3 Ar £128 y flwyddyn, Cymru sydd â'r premiwm cyfartalog isaf ond un yn y DU ar gyfer yswiriant cyfunol cynnwys ac adeiladau, gyda thrigolion yn talu tua 17% yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol.⁸⁴ Fodd bynnag, deallir bod y premiwm hwn tua 22% yn uwch na'r cyfartaledd yn 2017.
- 3.4 Yn yr ardaloedd sy'n cael eu hystyried ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), gall newidiadau o'r fath mewn premiymau yswiriant fod yn sylweddol, ac maent wedi bod yn sylweddol. Deallir eu bod yn gorfodi pobl i wneud penderfyniadau 'cost cyfle', lle maent yn gorfod penderfynu rhwng prynu yswiriant eiddo a blaenoriaethau pwysicach eraill fel bwyd neu drydan.
- 3.5 Mae yswirwyr o'r farn y gallai newid yn yr hinsawdd sbarduno pyllau amlach a mwy garw o dywydd eithafol, gan arwain at lifogydd, stormydd a difrod

⁸⁴ Ffynhonnell: <https://www.moneysupermarket.com/home-insurance/price-comparison-index/>, ymweliad diwethaf ar 02/02/2022

cysylltiedig. Maent hefyd yn cydnabod bod rhai rhannau o'r wlad yn fwy tebygol o ddioddef llifogydd neu ymsuddiant. Nid yw'r llifogydd a'r tirlithriadau yng Nghymru, fel y'u hystyrir yn y dadansoddiad hwn dros y cyfnod amser a ddewiswyd, yn esbonio'n ddigonol y cynnydd mewn premiymau yswiriant dros y blynyddoedd.

- 3.6 Yn ôl Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI), amcangyfrifwyd bod cost gyfartalog hawliadau yswiriant preswyl yn sgil y llifogydd a achoswyd gan Stormydd Ciara a Dennis yn rhyw £32,300. O ystyried mai tua £166,000 yw pris cyfartalog tai yn y 10 ardal a ddewiswyd i'w dadansoddi, amcangyfrifir bod graddau'r tanyswiriant fel a ganlyn:

$$1 - [32,300 \div 166,000] = \text{tua } 80\% \text{ o danyswiriant}$$

- 3.7 Gan nodi bod cyfartaledd yr ABI yn seiliedig ar hawliadau o bob math o eiddo preswyl yn dilyn Stormydd Ciara a Dennis, ac o ystyried mai dim ond 10 o safleoedd tomenni a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd lefel fwy hael o danyswiriant ar gyfer yr ymarfer hwn, sef 50%.
- 3.8 Os nad oes unrhyw effeithiau andwyol amlwg a pharhaus ar brisiau a gwerthiannau tai pan fo tomen lo yn dymchwel, gellir dadlau felly mai'r gost amcangyfrifedig pan fo tomenni glo'n dymchwel yw maint y colledion posibl sy'n ganlyniad i'r tanyswiriant. Felly, ar gyfer eiddo gwerth £166,000, byddai maint y colledion posibl oherwydd tanyswiriant pe bai'r eiddo hwnnw'n cael ei ddinistrio ar ôl i domen sborion glo ddymchwel, yn £83,000. Ystyriwyd hyn wrth gyfrifo'r costau cyffredinol.

Cyfrifo cost tirlithriad ar domen lo

- 3.9 Mae cost tomen sborion glo yn dymchwel yn cael ei mynegi fel cyfanswm gwerth yr eiddo, costau atgyweirio o fewn yr eiddo, a chostau clirio'r domen, i gyd wedi'u haddasu yn ôl graddau'r tanyswiriant a'r graddau y gellir atgyweirio'r difrod.

- 3.10 Mae hyn yn cael ei fynegi fel cyfartaledd ar draws nifer y tomenni sborion a ddadansoddwyd ac fe'i dangosir isod fel a ganlyn⁸⁵:

$$\circ = [\sum((V_r \times Q_{ty} \times U_i), (C_r \times Q_{ty} \times U_{ix} L_{Fcr}), L_{Fpd}) + C_{tc}]/n$$

Allwedd

V_r = Gwerth y derbynle e.e. pris tŷ gan ddefnyddio'r pris cyfartalog diweddaraf ar gyfer yr ardal

Q_{ty} Nifer yr unedau o dderbynleoedd e.e. nifer y tai o fewn 100 metr i'r domen
=

U_i = Graddfa'r tanyswiriant, lle mae 100% heb yswiriant o gwbl

⁸⁵ Darperir model Excel fel Atodiad A i'r adroddiad hwn

C_r = Cost atgyweirio fesul uned, yn seiliedig ar addasu'r deunydd sydd ar gael ar gyfer difrod llifogydd

L_{Fcr} Ffactor colled ar gyfer cost atgyweirio, lle mae'r ffactor yn 0 ar gyfer cyfanswm y difrod na ellir ei atgyweirio ac yn 1 ar gyfer difrod y gellir ei atgyweirio


L_{Fpd} Ffactor colled ar gyfer difrod i eiddo, lle mae'r ffactor yn 100% ar gyfer difrod difrifol (na ellir ei atgyweirio)

C_{tc} Cost clirio'r domen, gan ddefnyddio costau a gofnodwyd yn ddiweddar pan ddymchweliad = tomen yn Nhylorstown

n = Nifer y tomenni sborion glo a ystyriwyd

- 3.11 Mae'r ffigurau canlynol yn crynhoi'r canlyniadau. Mae'r cyfrifiadau'n dangos y gallai cyfanswm y gost pan fo tomen lo yn dymchwel amrywio rhwng £900,000 os yw'r effaith yn fach, yn ôl y tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn, a £25.1 miliwn os yw'r effaith yn ddifrifol.

Y goblygiadau cost posibl pe bai tomen glo yn dymchwel ar eiddo domestig



- 3.12 Mae canfyddiadau'r ymarfer hwn yn tanlinellu pwysigrwydd mesurau ataliol, sy'n amrywio o gyfundrefn cynnal a chadw a rheoli ragweithiol ar gyfer y tomenni glo i fesurau sy'n mynd i'r afael â'r bwlch yswiriant a allai gael ei greu pe bai tomen lo nas defnyddir yn dymchwel.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

1. A ydych yn cytuno â'r ffordd y bwriedir mynd ati'n raddol dros amser i gynnwys tomenni nad ydynt yn domenni glo yn y gyfundrefn reoli, os bydd hynny'n briodol?
2. A ydych yn cytuno y dylai'r corff goruchwyllo newydd fod yn Gorff Gweithredol newydd a Noddir gan Lywodraeth Cymru?
3. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys diffiniad o domen 'de minimis' yn y bil? Os ydych, pa nodweddion y dylid eu cynnwys?
4. A ydych yn cytuno y dylai perchennog 'tomen de minimis' gael ei eithrio rhag y dyletswyddau a amlinellir? Os nad ydych, nodwch pam.
5. A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y gofrestr? Os nad ydych, nodwch beth fyddai'r gofynion sylfaenol priodol yn eich barn chi?
6. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran ychwanegu tomenni newydd at y gofrestr?
7. A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i ddiweddaru'r gofrestr asedau? Os nad ydych, manylwch ar sut, yn eich barn chi, y dylid diweddaru'r gofrestr asedau a phwy ddylai wneud hynny.
8. A ydych yn cytuno â'r cynnig o ran y math o wybodaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd a'r math o wybodaeth a fydd yn cael ei heithrio?
9. A ydych yn cytuno â sut y bwriedir mynd ati i fesur lefel peryglon? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
10. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran datblygu categorïau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
11. A ydych yn cytuno â'r hyn y bwriedir ei wneud o ran clystyrau o domenni rhyngddibynnol a chyfagos?
12. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.
13. A ydych yn cytuno â'r dull tair haen a pha mor aml y bwriedir cynnal gwiriadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
14. A ydych yn cytuno â rhannu cyfrifoldebau ar gyfer archwiliadau ac arfarniadau? Os nad ydych, nodwch eich rhesymau.
15. A ydych yn cytuno â'r cynnig ar gyfer y gofynion sylfaenol o ran cynnwys adroddiadau ac, os felly, beth ydych chi'n ystyried sy'n wybodaeth hanfodol?
16. A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Goruchwyllo ddefnyddio sancsiynau sifil i sicrhau cydymffurfiaeth? Os nad ydych, nodwch eich rheswm.

17. A ddylai'r Awdurdod Goruchwylio gael disgresiwn ynghylch pa sancsiynau i'w defnyddio neu a ddylid pennu'r sancsiwn yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pob toriad?
18. A ydych yn cytuno â'r rhestr o weithgareddau? Os nad ydych, pa weithgareddau, yn eich barn chi, y mae angen eu rheoli ar domenni glo nas defnyddir?
19. Pa ddulliau rheoli sydd angen eu cyflwyno, yn eich barn chi, i reoli gweithgareddau penodol ar domenni?
20. A ydych yn cytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â gweithgareddau datblygu yng nghyffiniau tomenni statws uwch?
21. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r fframwaith rheoleiddio newydd arfaethedig ar gyfer tomenni glo segur yng Nghymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut mae cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?
22. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credo y gellid llunio neu newid y cynigion polisi a gynigir fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
23. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas ag unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch

☐